This is a reproduction of a library book that was digitized by Google as part of an ongoing effort to preserve the information in books and make it universally accessible.

Google™ books

https://books.google.com

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

11595

# Y

# Dydd Hwnw:

NEU Y

## 2,000 Gweinidogion

A DROWYD ALLAN O'R EGLWYS SEFYDLEDIG
AR DDYDD GWYL BARTHOLOMEUS,
*Awst 24ain, 1662.*

AR GYFFELYBRWYDD DRAMA.

## GAN GWILYM HIRAETHOG.

R. HUGHES AND SON, PRINTERS, WREXHAM.

PRIS SWLLT.

bbb 8

Digitized by Google

Digitized by Google

# Y DYDD HWNW:

NEU,

## Y DDWY FIL GWEINIDOGION

A

DROWYD ALLAN O'R EGLWYS SEFYDLEDIG
AR DDYDD GWYL BARTHOLOMEUS,
*Awst 24ain*, 1662.

AR GYFFELYBRWYDD DRAMA.

GAN GWILYM HIRAETHOG

WREXHAM:
ARGRAFFWYD GAN R. HUGHES AND SON, HOPE STREET.

1862.

Digitized by Google

BRITISH MUSEUM

Digitized by Google

3

# RHAGYMADRODD.

---

Y DYDD HWNW,—"*A'r Sabboth oedd y diwrnod hwnw,*"—sef, dydd du Bartholomeus, fel y'i gelwir, y 24ain o fis Awst, 1662, ac a ddigwydda ar y Sabboth y flwyddyn hon hefyd. Y dydd hwnw, meddwn, ydyw pwnc mawr y dydd yn y wlad hon ar hyn o bryd. Megis ag yr oedd "y dydd hwnw yr aeth holl luoedd yr Arglwydd allan o wlad yr Aipht,"—yn ddydd i'w *gadw i holl feibion Israel trwy eu hoes-oedd*, felly mae *y dydd hwnw*, yr aeth lluoedd yr Arglwydd, y ddwy fil Gweinidogion efengylaidd, allan o'r Eglwys Sefydledig, yn hytrach nag ymostwng i ddwyn yr iau Aiphtaidd a geisid osod ar eu cydwybodau, yn ddydd a goffeir, ac a gedwir mewn modd neilltuol eleni gan yr eglwysi efengylaidd yn Mrydain. Y mae y ddwy fil hyny er wedi marw er's yn agos i ddau can' mlynedd yn *llefaru eto*, a mwy o lefaru ac ysgrifenu am danynt yn awr nac a fu erioed: y mae y Wasg Seisnig yn bwrw cyfrolau a mân draethodau allan yn finteioedd ar hanes y dydd hwnw a'i ganlyniadau; a thraddodir darlithiau arno yn mhob dinas, a thref, a phentref, yn y wlad. Nid yw Cymru hithau ar ol yn hyn: clywir sain udgorn yr Adgyfodiad Cyntaf—adgyfodiad enwau a choffadwriaethau y tystion ffyddlon hyny dros y gwirionedd, a chydwybod i'r gwirionedd, yn adseinio trwy y Dywysogaeth; a chryfhau fwyfwy a wna yn

Digitized by Google

barhaus am dymor eto—hyd nes y byddont wedi eu hadgyfodi megis o fedd dystawrwydd ebargofiant, a'u gosod ger bron y genhedlaeth hon, a'r cenhedlaethau a ddeuant ar ei hol, yn yr hanes am danynt.

Nis gallwn lai na synu peth fod lluaws mawr o'r Clerigwyr efengylaidd yn Lloegr, yn ymddigio yn chwerw wrth yr Ymneillduwyr am eu bod yn anrhydeddu coffawdwriaeth y ddwy fil fel y gwnânt. Y mae y gwersyll mewn terfysg trwyddo, ac y maent hwythau yn ysgrifenu ac yn darlithio yn ddidor yn erbyn yr ysgogiad hwn. Edrycha ambell un o honynt, y mae'n wir, yn ffafriol ar waith eu cyfeillion Ymneillduol, ac ymddyheurant yn erbyn gwaith eu brodyr clerigawl yn eu gwrthwynebu. Mewn llythyr a ymddangosodd yn y *Liverpool Mercury*, un o'r dyddiau diweddaf, amlyga "*Eglwyswr*" ei syndod at waith ei frodyr, y Clerigwyr efengylaidd, yn beio ac yn cablu'r Ymneillduwyr, am wneyd yr un peth, o ran sylwedd, ac y maent hwy eu hunain (y clerigwyr hyny) wedi bod yn ymgeisio ato drwy y blynyddau diweddaf, sef galw sylw'r awdurdodau gwladol ac eglwysig, a'r wlad yn gyffredinol, at y syniadau gwrthefengylaidd a gynwysir yn y "Llyfr Gweddi Cyffredin," oblegid y rhai y trodd y ddwy fil allan o'r Eglwys, gan na allent blygu i'r Act a fynai ganddynt arddatgan ar lŵ, nad oes dim yn y Llyfr yn ol ystyr ramadegol y geiriau, yn groes a gwrthwyneb i air Duw, tra y tystiai eu cydwybodau bod ynddo lawer o bethau cwbl groes i eiriau ac athrawiaeth yr Ysgrythyr Lân. Cythrudda y Clerigwyr yn ddirfawr am fod ambell i Ymneillduwr wedi traethu ei amheuaeth bod yn ddichonadwy i weinidog efengylaidd aros yn yr Eglwys ac arfer y rhanau gwrthefengylaidd o'r "Llyfr Gweddi," gyda chydwybod

Digitized by Google

ddirwystr,—haerant hwy eu bod yn hollol onest a chydwybod-ol,—ond, er hyny, arwyddodd miloedd o honynt ddeisebau yn ddiweddar yn erfyn am *Convocation* i ddiwygio y "Llyfr Gweddi!" Y mae rhanau o athrawiaeth y Catecism, Athrawiaeth gwasanaeth Bedydd,—gwasanaeth Ymweliad â'r Claf, a gwasanaeth Claddedigaeth y Marw yn ei gysylltiad â dyn drygionus—yn hollol ac yn dragwyddol anghysonadwy â'r athrawiaeth a ystyrir yn efengylaidd,—yr athrawiaeth y maent hwy yn ei chredu ac yn ei phregethu fel athrawiaeth gair y gwirionedd. Defnyddiwyd pob dull a dyfais i geisio cymmodi yr athrawiaethau hyny yn y "Llyfr Gweddi" âg athrawiaethau llyfr Duw, ond yn gwbl ofer, fel yr addefodd llawer un o'r Clerigwyr efengylaidd eu hunain lawer gwaith. Ond gan eu bod er hyn oll yn ardystio eu bod yn onest a chydwybodol yn eu cydffurfiad, rhaid i ni gymeryd eu gair a chredu y peth, er ei fod uwchlaw ein deall a'n hamgyffred.

Y mae yn wir boenus i deimlad pob dyn difrifol i lefaru yn y modd hwn am wŷr yn sefyllfa yr Eglwyswyr efengylaidd, y rhai gan mwyaf, ydynt, ni a gredwn, yn ddynion duwiol, a gwir deilwng, ond y mae angenrhaid am y peth. Y mae yn sefyll yn uniongyrchol ar y ffordd yn yr ymdriniaeth â'r achos sydd mewn llaw. Canmolwyd a bendithiwyd meibion Lefi am drywanu tad a mam, a brawd a chwaer, pan oedd amddiffyn cyfammod a gogoniant Duw yn galw am hyny. Y mae yn ddrwg gan ein calonau tros y dynion da, credont neu beidiont. Pell iawn oddi wrthym fyddo eistedd mewn barn ar eu cyflyrau, i'n Harglwydd yn unig yr ydym ni a hwythau yn sefyll neu yn syrthio gyda golwg ar hyny ; ond yr ydym yn, ac i farnu ymddygiadau ein gilydd—er eu mwyn, hwy eu hunain yn benaf dim, y dymun-

Digitized by Google

em eu gweled yn dilyn esiampl y ddwy fil,—yn tori yr iau sydd yn eu dal yn gaethion ac yn ymryddhau o'r sefyllfa sydd raid ei bod yn un boenus iddynt, fel yr addefodd amryw o honynt eu hunain droion. Ni byddai yr aberth hcn iddynt hwy, yn wir, ond bechan iawn mewn cymhariaeth i'r aberth a wnaeth y tadau hyny ddau can' mlynedd yn ol; ni byddent dan y perygl lleiaf, o gael eu baeddu, eu carcharu, a'u herlid, fel y cawsant hwy. Ow! A ydyw ysbryd y merthyr, wedi llwyr ymadael â'r oes hon! Y mae yn yr Eglwys yn awr, fe allai, chwech neu saith o filoedd yn proffesu ac yn pregethu yr un egwyddorion ac athrawiaeth â'r ddwy fil, ac os iawn y gwnaethant hwy wrth droi allan o'r Eglwys er mwyn cydwybod i'r egwyddorion hyny, pa beth a all gyfiawnhau gwaith y saith mil hyn, yn aros i mewn o dan yr un rhwymedigaethau yn hollol i droi allan âg yr oedd y tadau hyny,—ac mewn amgylchiadau mil mwy manteisiol?

Teimlai'r ysgrifenydd awydd i fwrw ei hatling i drysorfa coffadwriaeth y ddwy fil ar gychwyniad cyntaf y symudiad dau canmlwyddol; ac ar anogaeth cyfaill deallus, yr ymgymerodd â'r ffurf y mae hyn o waith wedi ei fwrw iddi. Y mae yr holl drafodaeth yn seiliedig ar ffeithiau yr hanes am yr amgylchiad, ond cymerid rhyddid i wisgo y ffeithiau ar y wedd a welir arnynt yn y gwaith; gwel y darllenydd fod y rhifnodau a geir ynddo yn cyfeirio at y nodau yn yr Attodiad yn niwedd y llyfr, a chenfydd fod tystiolaeth hanesyddol yn cadarnhau bron yr oll a ddygir yn mlaen, a'r haneswyr hyny, gan mwyaf yn glerigwyr yn yr Eglwys Sefydledig. Ymdrechid dodi geiriau yn ngenau pob un o'r personau a gynhrychiolir, yn ol yspryd a nodwedd pob un. Yr oedd Siarl II. yn ddyn

Digitized by Google

gwamal, cellweirus, halogedig, a hollol ddiegwyddor, ond yn ddyn o synwyr cryf, ac arabedd parod. SHELDON ydoedd brelad uchelfrydig, balch, dideimlad, ac erlidus, &c. Yr oedd yn angenrheidiol arfer gwahanol briod-ddulliau, i bortreiadu y gwahanol fath o nodweddau. Ni ellir galw y cyfansoddiad yn *Drama*, yn briodol felly, ac ni amcenid iddo fod yn gyfryw chwaith, ond dichon ei fod yn nes i'r hyn a elwir ar yr enw hwnw, nac ydyw i un dosbarth arall ar gyfansoddiad.

Gobeithiaf y bydd y llyfryn hwn yn foddion i symbylu meddyliau ieuainc i ymofyn am ychwaneg o wybodaeth yn hanes y dynion rhagorol hyny y traethir am danynt, ac y bydd i'r symudiad sydd ar droed i anrhydeddu eu coffadwriaeth, fod yn effeithiol i fagu mwy o'u hysbryd yn eu holynwyr.

G. HIRAETHOG.

*Liverpool*, *Mai*, 1862.

Digitized by Google

# Y PERSONAU A GYNHRYCHIOLIR.

## RHAN I.—Y CENHADAU.

**DRYCH I.**—*Cyfrinach yn Breda—Hyderus, Gobeithiol, ac Amheus—Cenhadau y Presbyteriaid at y Tywysog Siarl—Ystafell mewn Gwesty yn Breda.*

**DRYCH II.**—*Tywysog Siarl—Gwasab* (page)—*Cardinal C., cenhadwr y Pab—Ystafell mewn Palas yn Breda.*

**DRYCH III.**—*Ib.—Cenhadau Presbyteraidd a Goruchwyliwr y Tywysog Siarl—Ystafell y Gwesty yn Breda.*

## RHAN II.—YR ADFERIAD.

**DRYCH I.**—*Brenin Siarl II—Canghellwr Hyde—Archesgob Sheldon, a Waller y Llawryf-fardd* (Poet Laureate)—*Ystafell yn y Llys.*

**DRYCH II.**—*Arg. Charles Fleetwood—Sir H. Vane—Dr. T. Goodwin, Dr. J. Owen, J. Milton—Ystafell yn y Strand.*

**DRYCH III.**—*Ib.—Brenin—Sheldon—Pen-ystafellydd—Yr Esgobion Morley a Gunning—Ystafell yn Nghastell Windsor.*

**DRYCH IV.**— *eto* *eto* *Ystafell yn Whitehall.*

## RHAN III.—RHAGBAROTOAD.

**DRYCH I.**—*Brenin—Sheldon—Clarendon—Sir J. Pakington—Morley a Gunning—Ystafell y Cyfringyngor.*

**DRYCH II.**—*Act yr Annghydffurfiueth—Y Brenin, Arg. Clarendon, a Sheldon—Ystafell y Cyfringyngor.*

**DRYCH III.**—*Brenin, Clarendon, ac Iarll Manchester, y noson ar ol pasio Act yr Annghydffurfiaeth—Ystafell yn Hampton Court.*

**DRYCH IV.**—*Brenin—Sheldon—Dr. Manton—Dr. Bates, a Dr. Jacomb (Gweinidogion Presbyteraidd)—Arg. Clarendon,—Ystafell yn Hampton Court.*

## RHAN IV.—Y DYDD DU.

**DRYCH I.**—*Gweledydd a lluaws o Gyfeillion, bore y 24ain o Awst—Ystafell yn Finsbury.*

**DRYCH II.** *Ib.—Gweledydd—Cyfeillion—Pepys—yr un ystafell.*

Digitized by Google

# Y DYDD HWNW.

## RHAN I.—Y CENHADAU.

*DRYCH I.—Cyfrinach yn Breda*—HYDERUS, GOBEITHIOL, *ac* AMHEUS, *Cenhadau y Presbyteriaid wedi bod gyda'r Tywysog* SIARL STUART—*Ystafell mewn Gwestŷ yn Breda.*

*Hyderus.* Wel, beth a feddyliwch o'n Tywysog yn awr?

*Gobeithiol.* Yr wyf fi'n meddwl y gwna frenin gwych; y mae agwedd frenhinol ar ei berson, a mawreddigrwydd brenhinol yn ei foes a'i ymddygiad, ac y mae genyf fi well tyb am dano, ar ol bod gydag ef nac oedd genyf cyn myned atto.

*Hyd.* Felly finau'n hollol.

*Amheus.* Felly finau hefyd—ond—

*Gob.* Beth yw yr *ond* yna, attolwg?

*Amh.* Daeth eich cwestiwn ar fy nhraws, yr oeddwn ar ychwanegu,—*Nid yn hollol felly.*

*Hyd.* Pa ham nad yn *hollol* felly?

*Amh.* Un pa ham yw, na chawsom brawf o hono eto.

Digitized by Google

*Gob.* Ond addawodd yn ddigon teg.

*Hyd.* Ac ymrwymodd yn ddigon tŷn.

*Amh.* Do, addawodd yn ddigon teg, ond a ymrwymodd efe'n ddigon tŷn, amser a ddengys.

*Gob.* Wel, ni allasai ymrwymo yn dynach. Arwyddodd ein cyfammod â'i law, a sicrhâodd ef â'i lw.

*Hyd.* A pha beth a allasech ddymuno ei gael yn ychwaneg ganddo?

*Amh.* Dim, ar hyn o bryd—*ond*—

*Gob.* Beth sydd i ddyfod ar ol yr *ond* yna eto?

*Amh.* Hyn, mab ei dad ydyw Siarl.

*Hyd.* Bid siwr ddigon.

*Gob.* A mab ei dad ydyw pob mab arall fel yntau.

*Amh.* Gwir iawn; ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng tad â thad, a theulu â theulu.

*Hyd.* Felly y mae.

*Amh.* Wel, ni a wyddom yn rhy dda am ei dad ef, na bu erioed dan dro haul rwyddach, a mwynach, a thecach addaw-ŵr; na chryfach, a thynach, a sicrach ymrwymwr, na chyndynach i gyflawni ei addewidion, nac anffyddlonach i sefyll at ei ymrwymiadau nag ef.

*Gob.* Rhaid addef bod gormod o wir yn hyn yna.

*Hyd.* Ysywaeth.

*Amh.* Ië, ysywaeth, y mae yn wir bob gair; gwnai addewidion, a llwon, a chyfammodau, megis pe buasai yn bleser ganddo eu gwneyd er mwyn cael pleser mwy wrth eu tori.

Digitized by Google

*Hyd.* Ond costiodd hyny ei ben iddo druan, yn y diwedd; ac y mae genym le i hyderu bod digon o synwyr yn mhen y mab i gymeryd rhybudd oddiwrth ben ei dad, i ochelyd gosod ei ben ei hun yn agored i'r un perygl trwy ddilyn yr un llwybrau.

*Amh.* Costiodd ei gastiau a'i ystrywiau ysglyfaethus ei fywyd i lawer tad o lwynog erioed, ond pa fab llwynog a gymerodd addysg oddiwrth dynged ei dad, er gochelyd ei lwybrau?

*Gob.* Ië, ond llwynog yw llwynog, a dyn yw dyn.

*Amh.* A theulu Stuart ydyw teulu Stuart.

*Hyd.* Ond, cofiwch, mai creadur yn cael ei lywodraethu gan reddf ydyw llwynog; y mae dyn yn greadur rheswm a chydwybod.

*Amh.* Cofiwch chwithau na ddilynodd y naill lwynog ar ol y llall lwybrau eu tadau yn fwy cywir nag y mae pob un o'r teulu hwn wedi dilyn llwybrau eu gilydd o genhedlaeth i genhedlaeth hyd yma, ac y mae hyn yn peri i mi fod yn bur amheus o addewidion ac ymrwymiadau y tywysog ieuanc hwn.

*Gob.* Ond ni a allwn o leiaf obeithio pethau gwell am dano, a'i fod wedi dysgu doethineb yn ysgol adfyd ac oddiwrth dynged ei dad.

*Amh.* Yr wyf finau yn wir yn ceisio *gobeithio* hyny, ond yn *ofni* peth arall.

*Hyd.* Buom ni beth bynag yn onest tuag atto, mynegasom iddo 'n llawn ar ba ammodau y gall ef ddisgwyl ein cymmorth ni, fel Presbyteriaid, i'w adferu i'w orsedd.

Digitized by Google

*Gob.* Ac y mae yntau wedi rhoddi ei law wrth y Cyfammod, ac ymrwymo trwy lŵ i sefyll atto, a chyflawni yr hyn oll a fynem ganddo.

*Hyd.* Ydyw: felly gallwn edrych arno fel ein brenin Cyfammodol ni, a bydd genym y newydd da hwn i'w fynegi i'n cyfeillion pan elom adref.

*Amh.* Gobeithio na phrisia ein cyfeillion y newydd da hwn uwchlaw ei wir werth.

*Gob.* Ond y mae y newydd goreu a allasem ni gael, yn cynwys addewid, Cyfammod, a llŵ y tywysog.

*Amh.* Addewid, Cyfammod, a llŵ Stuart ydynt.

*Hyd.* Ond yr oedd mor barod i addaw, llawnodi, a thyngu, fel yr ymddengys i mi ei fod yn gwneyd yn onest ac o'i galon.

*Amh.* Pe buasai y tywysog yn fwy cyndyn i addaw a thyngu, buasai genyf fi fwy o hyder yn ei gywirdeb a'i ffyddlondeb i gyflawni. Y mae yr hwn sydd yn rhwydd iawn ganddo addaw a thyngu, yn rhwydd iawn ganddo dori ei addewidion, a diystyru ei lwon drachefn, yn o gyffredin.

*Gob.* Yr ydych yn rhy amheus, yr wyf yn gobeithio.

*Amh.* Yr ydych chwithau yn rhy hygoelus, yr wyf finau yn ofni; ond os cyflawnir eich disgwyliadau chwi, ac y siomir fy ofnau inau, goreu oll.

*Hyd.* O'm rhan i, yr wyf yn bur hyderus.

*Amh.* "Na hyderwch ar dywysogion."

Digitized by Google

*DRYCH II.*—Y TYWYSOG SIARL—GWASAB—CENHADWR Y PAB—*Ystafell Palas yn Breda.*

*Enter* GWASAB.

*Gwasab.* Rhynged bodd i'ch Uchelder Brenhinol.

*Tywysog.* Pwy sydd yna?

*Gwasab.* Ei ardderchowgrwydd Cardinal C., Cenhadwr ei Sancteiddrwydd y Pab.

*Tyw.* Croesaw :—Bore da i'ch anrhydedd.

*Cardinal.* Iechyd a llwyddiant i'r tywysog, a phoed buan y delo y tywysog yn frenin.

*Tyw.* Yr wyf yn ddyledus ddiolchgar am eich ewyllys da.

*Card.* Yn unol âg ewyllys a gorchymyn ei Sancteiddrwydd y Pab, yr wyf yn dyfod i gyhoeddi a datgan y fendith apostolaidd ar eich person brenhinol, a'ch achos cyfiawn; ac i'ch llawengyfarch ar yr achlysur dedwydd o farwolaeth llofrudd eich tad, eich gelyn chwithau, gelyn brenhinoedd, gelyn yr eglwys sanctaidd, gelyn pob daioni, tad a chynlluniwr pob brad a chynllwynion, aflwydd ac afles, a thrueni a thrychineb, nid amgen, Oliver Cromwell, o fyth ysgymunedig goffadwriaeth, ar enw, a chorff, ac enaid yr hwn y gorweddo holl felldithion ein sancteiddiaf dad y Pab a'r Eglwys sanctaidd, hyd yn oesoesoedd!

*Tyw.* Amen: poed felly.

*Card.* Amen: felly y bydd.

Digitized by Google

*Tyw.* A gyfarfu tri o foneddigion â chwi yn y cyntedd pan oeddych yn dyfod yma?

*Card.* Do: os nad yw yn ormod o hyfdra i ofyn, chwenychwn wybod pwy ydynt.

*Tyw.* Dim oll: cenhadau dros blaid neillduol o Loegr oeddynt.

*Card.* A chenadwri dda ganddynt, mi a obeithiaf.

*Tyw.* Da, cyn belled ag y gallesid disgwyl oddiwrthynt hwy.

*Card.* Pa un ai plaid wladyddol ai plaid grefyddol y maent yn gynhrychioli?

*Tyw.* Plaid grefyddol, a gwladol hefyd, o ran hyny, a elwir Presbyteriaid.

*Card.* Ho; dysgyblion yr heretic John Calvin o Geneva, feddyliwn.

*Tyw.* Felly yr wyf yn deall.

*Card.* Yr oedd ganddynt ryw amcan neilltuol tros eu plaid, y mae'n debyg?

*Tyw.* Felly yr oedd—chware am fargen.

*Card.* A addawent y caech gymmorth eu plaid i adferu eich hawliau brenhinol?

*Tyw.* Ar ammodau.

*Card.* Beth oedd yr ammodau?

*Tyw.* Gwnaent uchel honiadau o ffyddlondeb teyrngarol eu plaid—iddynt bob amser gondemnio llofruddiad ei ddiweddar fawrhydi fy nhad, ac na buont erioed yn foddlawn i wriogaeth Oliver Cromwell—

Digitized by Google

[1]nad oedd ddim cymmundeb rhwng eu hegwyddorion gwladyddol hwy âg egwyddorion gwladyddol yr Annibynwyr, pleidwyr Cromwell; ac yr wyf yn deall fod cryn lawer o wir yn eu geiriau.

*Card.* Ië; ond beth am yr ammodau?

*Tyw.* Wel, yn gyntaf, gofynent i mi lawnodi y Cyngrair a'r Cyfammod Difrifol *(The Solemn League and Covenant)*, fel y galwent ef, a thyngu ffyddlondeb iddo.

*Card.* Beth yw hwnw?

*Tyw.* Cytundeb a chyfammod rhwng pobl Scotland a phobl Lloegr, yn nghylch llywodraethiad y deyrnas mewn pethau gwladol a chrefyddol.

*Card.* A ddarfu i bobl Lloegr a Scotland ymuno ynddo?

*Tyw.* Darfu i lawer o wŷr galluog o'r ddwy genedl ei arwyddo, a bu yr Ysgotiaid yn daerion iawn ar fy nhad i'w arwyddo pan roddodd ei hun i fyny iddynt, ond gwrthododd.

*Card.* Beth yw cynwysiad y Cyfammod?

*Tyw.* Cyfammod ac ymrwymiad i warchod y deyrnas rhag Pabyddiaeth ac Esgobyddiaeth ydyw, o ran y sylwedd o hono.

*Card.* A ddarfu i chwi ei arwyddo?

*Tyw.* Do.

*Card.* A thyngu llŵ o ffyddlondeb iddo?

*Tyw.* Ië, a thyngu llŵ o ffyddlondeb iddo.

*Card.* A dyna yr oll a geisient genych i sicrhau dylanwad a chymmorth y blaid o'ch tu?

Digitized by Google

*Tyw.* Na, ewyllysient roddi ar ddeall i mi mai hwy ydyw'r blaid gryfaf yn y deyrnas, ac mai yn eu dwylaw hwy yn benaf y mae'r llywodraeth yn awr, a chwenychent ddal eu gafael yn yr awenau; a bod eu credo hwy yn grefydd sefydledig y wlad—mwynhau bywioliaethau yr Eglwys, &c. Mewn gair, y cwbl i ni, a'r gweddill i'r pleidiau ereill, oedd y sylwedd.

*Card.* A roisoch chwi addewid?

*Tyw.* Do: lleferais wrth fodd eu calon, yr wyf yn credu, canys addewais wneuthur yr oll a geisient, os gwnaent hwy yr oll a allent o'm plaid, ac os llwyddai'r anturiaeth.

*Card.* Ac yr ydych yn llawn fwriadu sefyll at y cyfammod a lawnodasoch, a'r addewidion a roisoch, a'r llwon a dyngasoch?

*Tyw.* Yr wyf yn llawn fwriadu diddymu y Cyfammod, ac na chyflawnaf byth fy addewidion a'm llwon, os na orfodir fi gan amgylchiadau, canys addewidion ANGENRHAID oeddynt.

*Card.* Beth y mae eich uchelder brenhinol yn feddwl wrth addewidion angenrhaid?

*Tyw.* Addewid *angenrhaid* ydyw un y byddis yn cael ei ddirgymmell gan amgylchiadau i'w gwneuthur, ac na fydd yr addawwr byth yn meddwl ei chyflawni, os na wesgir ef gan amgylchiadau i wneyd.

*Card.* Ië, yr wyf yn gweled. Ond yr oeddynt hwy yn credu eich bod yn difrifol amcanu cyflawni yr oll a addawsoch ac yr ymrwymasoch iddynt?

Digitized by Google

*Tyw.* Yr wyf yn gobeithio eu bod; ond yr oedd golwg fel dyn amheus ar un o honynt.

*Card.* A ddywedodd hwnw rywbeth?

*Tyw.* Na, ond yr oedd yn ymddangos yn anesmwyth, ac fel yn awyddus i ddyweyd rhywbeth,—a chrybwyllodd unwaith bod addewid a llŵ yn bethau cyssegredig iawn, a'i fod yn gobeithio y gallent ymddiried yn addewid a llŵ tywysog,

*Card.* A wnaethoch chwi ryw sylw o hono?

*Tyw.* Do, mi a dyngais lwon lawer drachefn i gadarnhau y llwon blaenorol.

*Card.* Wel, y mae genyf finau i ddwyn ar gôf i'ch Uchelder Brenhinol, ddarfod i'r Catholiciaid, aelodau yr unig wir Eglwys Sanctaidd, ddangos pob ffyddlondeb teyrngarol yn amser ei ddiweddar Fawrhydi, eich tad, ac aberthu eu meddiannau a'u bywydau, lawer o honynt, tros yr orsedd a'r goron, yn amser y rhyfel gwladol yn Lloegr.

*Tyw.* Gwir iawn.

*Card.* Ië, a gwir hefyd eu bod yn cael eu baeddu a'u gorthrymu, eu gwaradwyddo a'u herlid, gan yr awdurdodau o herwydd eu crefydd bob amser yn Mhrydain.

*Tyw.* Ydyw; y mae y dystiolaeth yna'n wir; ond nid o fodd ac ewyllys fy nhadau a'm henafiaid i, teulu anrhydeddus Stuart.

*Card.* Y mae yn dda genyf gydnabod hyny (?)



Digitized by Google

*Tyw.* Y mae yn dda genyf finau ei gydnabod, a bod eich anrhydedd yn ei addef.

*Card.* Chwi a gewch y bydd y Catholiciaid yn Lloegr a'r Iwerddon yn barod i'ch derbyn â mynwes agored pan gyhwfanoch eich baner yn y tir—yr ymgasglant atti, ac yr ymrestrant tani wrth y miloedd—cewch holl nerth teimladau eu calonau a gewynau eu breichiau o'ch plaid.

*Tyw.* Nid wyf yn amheu dim.

*Card.* Wel, y mae yn naturiol i chwi gasglu fy mod inau yn disgwyl, a bod y Tad Sanctaidd yn disgwyl, a bod ein holl frodyr Catholicaidd yn Mhrydain a thrwy Ewrop yn disgwyl rhyw amgen cydnabyddiaeth oddiwrthych chwi a'ch llywodraeth pan ddeloch i awdurdod, am y ffyddlondeb a'r teyrngarwch hwn.

*Tyw.* Ac yr wyf finau yn disgwyl yr un peth.

*Card.* Ond yr ydych wedi tywallt eich holl addewidion, eich llwon, a'ch bendithion, i ffetanau yr hereticiaid hyny, y Presbyteriaid, yn barod.

*Tyw.* Ond yr wyf wedi cadw fy holl galon, fy holl feddwl, a'm holl fwriad, i chwi a'r Tad Sanctaidd, a'r Eglwys sanctaidd, yr hon yw ein mam ni oll.

*Card.* Ac yr ydych yn addaw?

*Tyw.* Yr ydwyf yn addaw.

*Card.* Pa enw sydd ar yr addewid hon?

*Tyw.* Addewid wirfoddol.

*Card.* Ond beth *yw* yr addewid?

Digitized by Google

*Tyw.* Addewid, os adferir fi i'm brenhiniaeth, y gwnaf yr oll a allwyf i adferu yr Eglwys sanctaidd Gatholic i lawn feddiant o'i hawdurdod, ei chyfoeth, a'i breinniau cyfiawn fel eglwys sefydledig y wlad, megys yr oedd cyn ei hyspeilio gan y brenin Harri Tudur.

*Card.* Ac yr ydych yn barod i dyngu hyn eto?

*Tyw.* Yn rhwydd a llawen.

*Card.* Ar yr offeren sanctaidd?

*Tyw.* Ar yr offeren sanctaidd.

*Card.* Ond pa wahaniaeth sydd rhwng eich addewid hon i mi, â'r addewid a roisoch i'r Presbyteriaid hyny gyneu?

*Tyw.* Gwahaniaeth mawr: addewid blaen tafod oedd hono; addewid gwaelod calon ydyw hon.

*Card.* Ac yr ydych yn ystyried eich hun yn rhydd i dori yr addewid hono a'r llŵ hwnw?

*Tyw.* Y mae'r Eglwys sanctaidd yn dysgu mai cyfreithlon a da ydyw tori addewidion a llŵon a wneler i hereticiaid.

*Card.* Da iawn.

*Tyw.* Y mae genych bob sail i hyderu yn nghywirdeb fy ngair, fy addewid, a'm llŵon i chwi.

*Card.* Pa rai ydynt?

*Tyw.* Hanes a nodwedd fy nheulu.

*Card.* O'r goreu: Wel, beth am danynt?

*Tyw.* Yr ydoedd fy hen nain, Mair, brenhines y Scotiaid, yn nîth i'r Duc o Guise, Catholiciad o'r iawn waed

Digitized by Google

oll, a'r prif offeryn yn nghyflafan y Protestaniaid yn Paris, ar ddydd Bartholomeus, 1562, ac yr oedd hithau yn Gatholices cywir galon fel yntau.

*Card.* O'r goreu.

*Tyw.* Profodd fy nhaid, Iago, ei fod yntau yn wir fab ei fam, ac yn wir fab yr Eglwys sanctaidd, drwy wneyd yr oll a allai, tua diwedd ei deyrnasiad, i adferu yr eglwys sanctaidd yn Lloegr.

*Card.* Eithaf da, ac eitha' gwir hefyd.

*Tyw.* Profodd fy anffodus dad, drachefn, ei fod yntau hefyd yn wir fab ei dad, ac ŵyr ei nain, a phlentyn yr Eglwys sanctaidd, drwy ddirgel gyfrinachu â'r Catholiciaid Seisnig a Gwyddelig, ac mai gwir ddymuniad ei galon oedd dymchwelyd Cyfansoddiad y llywodraeth Prydeinig, adferu unbenaeth wladol, a Chatholiciaeth eglwysig.

*Card.* Purion.

*Tyw.* Yr oedd fy mam, Henrietta Theresa, fel y gwyddoch, yn Gatholices drwyadl, drwyddi oll, gorff a chalon, a chred a chyffes, wedi ei chenedlu, a'i magu, a'i meithrin, a'i haddysgu o'r bru a'r bronau, yn y ffydd sanctaidd, wrth yr hon y glynodd yn ffyddlon, ddiymod, ddianwadal, mewn gwlad ac awyr wedi eu hanmhuro a'u llygru gan Brotestaniaeth a hereticiaeth o bob enw a ffurf, a hyny yn wyneb llawer o waradwydd ac erlid, hyd y diwedd.

*Card.* Da iawn, a gwir ddigon.

Digitized by Google

*Tyw.* Wel ynte, onid yw hyn oll yn seiliau da i hyderu yn nghywirdeb fy addewidion a'm hymrwymiadau i chwi?

*Card.* Wel, ydynt, y maent.

*Tyw.* Na, ni wadaf fy nheulu, ni throaf oddiar ffyrdd, nac oddiwrth ffydd fy nhadau, mŷn gwaed fy hen nain, a ferthyrwyd gan Elizabeth Tudur, a gwaed fy nhad, a ferthyrwyd gan yr heretic Oliver Cromwell, a mŷn bronau Catholicaidd fy mam a'm hymddug, ac a'm magodd.

*Card.* A mŷn yr offeren sanctaidd?

*Tyw.* A mŷn yr offeren sanctaidd.

*Card.* Yr wyf yn foddlon.

*Tyw.* Rhoddwch eich llaw.

*Card.* Gwnaf, a'm calon hefyd.

*Tyw.* Dyma'm llaw a'm calon inau.

*Card.* Byddwch wych.

*Tyw.* Byddwch wych.

*DRYCH III.*—Y CENHADAU PRESBYTERAIDD—GORUCHWYLWYR Y TYWYSOG SIARL—*Ystafell y Gwesty yn Breda.*

*Enter* GORUCHWYLWYR.

*Goruch.* Gyda'ch cenad foneddigion.

*Hyderus.* Cenad da i chwi.

*Goruch.* Yr wyf yn dyfod ar archiad ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Siarl.

*Hyd.* Beth yw ewyllys ei Uchelder Brenhinol?

Digitized by Google

*Goruch.* Ewyllysia ddatgan yn mhellach ei ffafr a'i ddymuniadau da i chwi, a rhwydd hynt i ddychwelyd adref.

*Gobeithiol.* Yr ydym yn dra rhwymedig i'w Uchelder Brenhinol am ei garedig ewyllys da.

*Goruch.* Archodd i mi yn mhellach sicrhau i chwi y gellwch dawel ymorphwys ar ei ffyddlondeb diffuant i gyflawni yr hyn oll a addawodd wrthych, a dymunai ar i chwi wneyd y cwbl yn hysbys i'ch cyfeillion oll.

*Hyd.* Hyny a wnawn gyda llawenydd calon.

*Amh.* A wyddoch chwi pwy oedd y boneddwr a gyfarfu â ni ar y cyntedd, pan oeddym yn dychwelyd o'r palas gyneu?

*Goruch.* Gwn: ei ardderchowgrwydd Cardinal C., cenhadwr *(Legate)* ei Sancteiddrwydd y Pab.

*Amh.* Ië, yr oeddym yn deall wrth ei wisg ei fod o'r urdd Gardinalaidd. Yr oedd arno eisieu gweled y Tywysog, y mae'n debyg?

*Goruch.* Oedd, dyna oedd ei neges.

*Hyd.* A gafodd efe ei neges?

*Goruch.* Cafodd ei neges mor belled a chael derbyniad croesawus gan y Tywysog. Ychwaneg nis gwn.

*Amh.* A fu efe gyda'r Tywysog yn hir?

*Goruch.* Tuâ dwy awr.

*Amh.* A ddarfu i chwi sylwi pa fodd yr oedd y Cardinal yn edrych wrth fyned ymaith?

Digitized by Google

*Goruch.* Wel, edrych â'i lygaid, fel pob dyn arall, yr oedd, am a wn i.

*Amh.* Nagê, nagê, gofyn yr oeddwn i, Pa un ai fel dyn wedi siomi, neu fel dyn wedi cael ei foddloni, yr ymddangosai?

*Goruch.* Ho,—yr wyf yn deall eich meddwl: wel, yr oedd y Cardinal yn troi ei gefn fel dyn wrth fodd ei galon, fel pe buasai wedi cael ysglyfaeth lawer; mewn gair, yn llawn mor siriol ag oeddych chwi eich hunain, foneddigion, yn ymadael wedi y gyfrinach a gawsoch gyda'r Tywysog gyneu.

*Hyd.* Ai ië.

*Gob.* Felly.

*Amh.* Hym.

*Gorach.* Byddwch wych.

*Hyd.* Hysbyswch ei Uchelder Brenhinol ein bod yn dra rhwymedig am y genadwri rasol a ddygasoch.

*Gob.* A'n bod yn dymuno sicrhau iddo y byddwn yn ffyddlon ddiymod i'w berson a'i hawliau brenhinol.

*Amh.* A'n bod tan obaith yn gobeithio yn erbyn gobaith.

[*Goruch. yn ymadael.*

*Hyd.* Nid arwydd dda oedd i hwnyna (y Cardinal) ddyfod ar ein traws, a chael y fath dderbyniad..

*Gob.* Ond, yr wyf fi'n gobeithio na chafodd ef y fath addewidion gan y Tywysog ag a gawsom ni.

*Amh.* Yr wyf finau yn ofni iddo gael eu gwell.

Digitized by Google

*Hyd.* Pa fodd y dywedwch hyny? Cawsom ni yr oll a ddymunem ganddo mewn cyfammod ac addewid.

*Amh.* Ië, ond cafodd y Cardinal, ond odid, yr hyn a ddymunai ef â'r Tywysog hefyd.

*Gob.* Nid wyf yn gallu deall eich meddwl.

*Amh.* Fy meddwl yw, bod y Tywysog, ond odid, yn llawer mwy o Babydd nag ydyw o Bresbyteriad, a'i fod yn addaw i'r Cardinal yn ddiragrith a gonest, os gall rhywun o deulu Stuart fod yn ddiragrith a gonest.

*Hyd.* Wel, nid oes dim i'w wneyd bellach, rhaid i ni wneyd prawf o hono, ni ellir troi ffrwd y teimlad tros ei adferiad yn ol mwyach.

*Gob.* Edryched yntau atti, ynte.

*Amh.* Rhaid i ninau edrych atti hefyd.

*Hyd.* Ond y mae teimlad y wlad yn rhy gryf yn erbyn Pabyddiaeth iddo allu dangos llawer o ffafrau iddynt, os dyna ei ddymuniad.

*Gob.* Ac yn erbyn Esgobyddiaeth hefyd, yr wyf yn disgwyl, fel na allai adferu Preladiaeth pe yr ewyllysiai.

*Amh.* Nid llawer o ymddiried sydd i deimlad a llais y wlad, gan mor anwadal a chyfnewidiol ydyw yn gyffredin.

*Hyd.* Yr ydych chwi yn edrych ar yr ochr dywell o hyd.

*Amh.* Yr wyf yn ei gweled yn dywyllach yn awr nag oedd gyneu.

*Gob.* Paham felly?

Digitized by Google

*Amh.* Y paham yw, ddarfod i'r Tywysog anfon y genadwri ddiweddaf attom.

*Hyd.* Wel, ond amcan hono oedd rhoddi i ni sicrwydd pellach o'i ffafr a'i ewyllys da i ni.

*Amh.* Amcan hono oedd bwrw llwch i'n llygaid—ein gwneyd yn ddiofal—canys ofnai y Tywysog y buasem yn amheus o hono wedi i ni weled Cenhadwr y Pab yn dyfod ato.

[*Y Cenhadau yn ymadael o Breda.*

Digitized by Google

## RHAN II.—*Yr Adferiad.*

*DRYCH I.*—BRENIN SIARL II., CANGHELLWR HYDE, ARCHESGOB SHELDON, *a* WALLER *y Llawryf Fardd,* (Poet Laureat).—*Ystafell yn y Llys.*

*Cang. Hyde.* Cyflawnwyd ein gobeithion, attebwyd ein disgwyliadau, adferwyd ein brenin, gosodwyd eneinniog y nef ar ei orsedd. Dyma ddydd ein gorfoledd, a llawenydd ein calon—hapusaf ddydd ein bywyd.—Byw fyddo'r brenin.

*Sheldon.* Amen. Byw fyddo'r brenin, a llawen fyddo'i gyfeillion; gwisger ei gaseion â gwarth ac â gwaradwydd, â llaid ac â lludw.—Darfydded Cromwelliaid, llether Puritaniaid, a diwreiddier Puritaniaeth a phob Sismaticiaeth o'r tir.

*Cang. Hyde, wrth y Llawryf Fardd.* Moeswch gân.

*Waller* :—

Britania, dihuna, aeth heibio'r nos brudd,
Wel cân, llawenycha, fe wawriodd y dydd;
Dod wisgoedd dy weddwdod o'r neilldu yn awr,
Ymdrwsia yn harddwisg priodferch deg wawr.

Digitized by Google

Bu'r orsedd a'r goron dan warthrudd yn hir,
A th'w'llwch fel caddug yn toi tros y tir;
Ond gwel, erbyn heddyw, mae'r rhod wedi troi—
Mae'r cwmwl yn cilio, â'r t'w'llwch yn ffoi.

Daeth Tywysog, etifedd dy goron, i'w sedd,
O dir ei alltudiaeth yn ol mewn llawn hedd;
Dug angau'r trawshonwr yn gaeth tan ei law,
A'i bleidwyr ymguddiant mewn c'wilydd a braw.

Ein brenin goronwyd mewn hedd a mwynhâd,
Mae'n eistedd yn dawel ar orsedd ei dad;
Byw byth fyddo'n brenin, mewn urddas a braint,
Llawenydd a llwyddiant, er siomiant i'r saint.[2]

C'wfaner banerau, a thanier magnelau,
  A seinied tafodau holl glychau ein gwlad;
Wel, llenwch y gwydrau hyd at yr ymylau,
  Cydyfwn, a rhoddwn i'n brenin fawrhâd.

Cyneuer banffaglau ar benau'r mynyddau,
  A saethed y fflamau hyd entrych y nef;
A thwrf ein llawenydd a rwygo'r wybrenydd,—
  Byw byth fyddo'n brenin fo'n llais yn un llef.

*Bren.* *Ods fish!* Gwyliwch roi'r nef a'r ddaear ar dân.

*Sheldon.* Troell ymadrodd barddonol ydyw, fy arglwydd Frenin, i ddatgan teimladau teyrngarol ein bardd, a'n teimladau teyrngarol ninau, a theimladau teyrngarol miloedd lawer yn y deyrnas heno, ar yr ach-

Digitized by Google

lysur dedwydd o adferiad ein brenin i orsedd ei dadau.

*Bren.* Ond y mae anfreingarwyr, Cromwellgarwyr, a gwerinlywiaethgarwyr fyrddiynau yn teimlo fel arall heno.

*Cang. Hyde.* Oes, ond y mae eu hachos wedi cwympo, eu gobeithion wedi colli, eu calonau wedi pallu, a'u breichiau wedi gwanhau, fel na raid ofni niwed oddiwrthynt mwy.

*Sheldon.* Ond ni ddylem fod yn rhy hyderus, rhag i ni fyned yn rhy esgeulus: dylai y prawf a gawsom o honynt, ein dysgu i gadw llygad gwyliadwrus arnynt.

*Bren.* A llaw drom arnynt gyda hyny, onide?

*Sheldon.*Ië, fy Arglwydd Frenin, yr ydych yn dywedyd fy meddwl, canys ni fyddai waeth i ni heb gadw llygad craffus arnynt onid ymaflwn â llaw rymus ynddynt.

*Bren.* Beth a gynghorech chwi i ni ei wneyd i gychwyn?

*Cong. Hyde.* Adferu y Cyfansoddiad i'r peth ydoedd cyn y terfysgoedd diweddar, yn gyntaf peth.

*Bren.*Ië, wel—

*Cang. Hyde.* *King*, *Lords*, a *Commons*.

*Bren.* O'r goreu.

*Cang. Hyde.* O'r goreu; yr ydym wedi adferu y *King*, ac y mae y *Commons* yn aros, ond y mae y *Lords* yn eisieu.

*Sheldon.* Ac adferu yr esgobion, y *lords* ysbrydol, i'w rhagorfraint gyfiawn, o eistedd gyda'r *lords* tymmorol yn llys cyngor uchaf y deyrnas.

*Cang. Hyde.* Ië, ni bydd y gwaith yn berffaith heb hyny.

*Bren.* Y mae hyny yn cynwys adferu Esgobyddiaeth i fod yn grefydd y llywodraeth a'r wlad, onid ydyw?

*Sheldon.* Ydyw, fy Arglwydd Frenin; bydd y cwbl heb hyny yn gadael ein gwaith yn anmherffaith, fel na buasai waeth heb ei ddechreu.

*Bren.* Ni fuasai waeth i chwi heb adferu y brenin, os na adferir yr esgob; hyny a feddyliwch, mi a dybiwn.

*Sheldon.* Wel—hym—ond.

*Bren.* Ië, wel—hym—wel—ond.

*Cang. Hyde.* Rhynged bodd i'ch mawrhydi—ei feddwl ef ydyw, bod y naill yn angenrheidiol i'r llall—yr esgob i'r brenin, a'r brenin i'r esgob, ac Esgobyddiaeth fel crefydd wladol i'r ddau, a'r cwbl y'nghyd, i berffeithrwydd Cyfansoddiad llywodraeth y deyrnas, a'r Cyfansoddiad, wedi ei berffeithio felly, yn angenrheidiol er diogelu heddwch ac iawndrefn wladwriaethol ac eglwysig.

*Sheldon.* Ië, dyna fe'n hollol. Y mae eich Mawrhydi yn ddiau yn cofio hoff ddywediad eich taid, Iago, yr hwn yn briodol iawn a gyfenwid yn Solomon yr ail, "*No bishop, no king.*"

*Bren. Ods fish!* Yr wyf yn cofio; ar fy ngair, yr oedd Solomon yr ail yn llawer doethach na Solomon y cyntaf; ni ddeallodd hwnw y dirgelwch yna. *Well done* yr hen daid!

*Sheldon.* Oedd, yr oedd dyfnderau o ddoethineb, a

chraffder, ac athroniaeth yn yr ymadrodd, megis y profwyd wedi hyny; canys pan wrthodwyd yr esgob, buan y bwriwyd ymaith y brenin ar ei ol, fel y gwyddoch.

*Bren.* Gwir iawn; ond beth a ddywedai ein cyfeillion y Presbyteriaid wrth y pethau hyn?

*Cang. Hyde.* Wel, dyweyd a gwneyd eu goreu yn erbyn adferu yr esgob a'r Esgobyddiaeth, ac yn erbyn adferu y "Llyfr Gweddi Cyffredin" yn ei burdeb gwreiddiol, fel ffurf cred, ac ymarferiad crefyddol, a wnaent.

*Bren.*Ië, yn ddiau, felly dywedent ac felly y gwnaent, canys mi a wn yn dda yr ewyllysient i'w Presbyteriaeth hwy fod y ffurf o grefydd wladol.

*Sheldon.* Ond be waeth beth a ewyllysient, a ddywedent, neu a wnaent, rhaid i'r gwaith da sydd wedi ei gychwyn, gael ei ddwyn yn mlaen—rhaid i'r brenin gael yr esgob, rhaid i'r esgob gael yr Eglwys, rhaid i'r Eglwys gael ei Llyfr Gweddi, neu fe â y cwbl i benbleth ac aflwydd eto fel o'r blaen.

*Bren.* Fy ewyllys i ydyw i bethau fod felly. Ond y mae pendefigesau a phendefigion y llys wedi bod yn hir ddysgwyl am danom i ystafell y gynganedd a'r dawns.

[ *Terfyniad y Cyngor.*

Digitized by Google

*DRYCH II.—Arg. Charles Fleetwood, Sir Harri Vane, Dr. Thomas Goodwin, Dr. John Owen, a John Milton, Ystafell yn y Strand.*

*Fleetwood.* A digwyddodd i'r deyrnas hon, yn ol y wir ddiareb, "Hwch wedi ei golchi a ymchwelodd i'w hymdreiglfa yn y dom."

*Vane.* Gobeithiem bethau gwell am dani y blynyddau diweddaf, bod ei hanian fewnol wedi ei newid, yn gystal a bod ei thu allan wedi ei olchi.

*Fleetwood.* Y mae golygfeydd gwahanol iawn i'w canfod yn y *White Hall* yn awr, i'r hyn oedd yno yn amser y diweddar Arglwydd Amddiffynydd Cromwell, rhusedd a thrythyllwch yn lle sobrwydd a diweirdeb, caniadau masweddol a halogedig yn lle hymnau ac odlau ysprydol, llwon a rhegfeydd yn lle mawl a gweddi. Yn lle perarogl crefydd a duwioldeb, drewi llygredigaeth ac anfoes. Yr oedd y lle yn ofnadwy neithiwr, medd un oedd yn bresenol yn y dawns gyfarfod ar achlysur adferiad ei fawrhydi.

*Dr. Goodwin.* Mi a roddaf i chwi bennod ac adnod i'r perwyl:—"Yn niwrnod ein brenin y tywysogion a'i gwnaethant yn glaf â chostrelau gwin, estynodd ei law gyda gwatwarwyr. Fel yr oeddynt yn cynllwyn, darparasant eu calon fel ffwrn, eu pobydd a gwsg ar hyd y nos, y bore y llysg fel tân. Pawb o honynt a wresogant fel y ffwrn." Hos. vii. 5—7.

Digitized by Google

*Dr. Owen.* Y mae yr argae wedi ei thori, a'r hen gronfa o lygredigaeth calon, a attelid ganddi yn rhedeg allan fel llifeiriant cryf; ac ofnaf y bydd yr *hwch* (y deyrnas) yn aflanach yn fuan, nag ydoedd cyn ei golchi.

*Dr. Goodwin.* Mi a roddaf i chwi ysgrythyr i'r pwynt,—"Pan el yr Yspryd aflan allan o ddyn, efe a rodia ar hyd lleoedd sychion gan geisio gorphwysdra, ac nid yw yn ei gael. Yna, medd efe, Mi a ddychwelaf i'm tŷ, o'r lle y daethum allan. Ac wedi y delo, y mae yn ei gael yn wag, wedi ei ysgubo a'i drwsio. Yna, y mae efe yn myned ac yn cymeryd gydag ef saith yspryd eraill, gwaeth nag ef ei hun, ac wedi iddynt fyned i mewn, hwy a gyfanneddant yno, ac y mae diwedd y dyn hwnw yn waeth na'i ddechreuad. Felly y bydd hefyd i'r genhedlaeth hon." Luc xi. 24, 26.

*Vane.* Yn wir y mae achos i ofni bod yr ymadroddion difrifol yna yn gymmwysiadol iawn at gyflwr presenol y deyrnas hon.

*Fleetwood.* Ydynt, yn ol pob argoelion. Yr oedd yr yspryd aflan megis wedi myned allan, neu ei fwrw allan,—a chafodd y tŷ ei ysgubo a'i lanhau oddiwrth ei fudreddi, bu ysgubell yr awdurdod wladol, ac ysgubell y weinidogaeth efengylaidd ar lawn waith ynddo, a threfnwyd a thrwsiwyd llawer arno: ond yn awr y mae yr yspryd aflan a'i saith cymdeithion gwaeth nag ef ei hun yn dychwelyd yn ol

iddo,—a bydd y tŷ cyn hir yn aflanach o lawer, yr wyf yn ofni, nag ydoedd cyn ei ysgubo a'i drwsio.

*Dr. Owen.* Nid yw yr hyn a welir yn awr, ond megis blaen llanw y llygredigaeth, [3] y mae môr o hono wrth gefn, a chyfodi yn uwch uwch, a wna, fel dyfroedd Noa, am dymmor, hyd nes y cymer rhagluniaeth ddwyfol [4] ysgubell barnedigaeth yn ei llaw ei hun, i roddi ysgubelliad ofnadwy dros y tŷ—felly, yr wyf yn ofni, y bydd i'r genedlaeth hon.

*Vane.* Chwi a gewch weled nad yw adferiad y brenin ond rhagymadrodd i adferiad Preladiaeth, adferiad hen gyfreithiau gorthrymus ac erlidus—a dwyn oddiarnom eto y rhyddid gwerthfawr a ennillasom trwy ymdrech galed a gwaed lawer.

*Dr. Goodwin.* Mi roddai i chwi ysgrythyr ar y matter: "O herwydd i'r bobl hyn wrthod dyfroedd Sïloa, y rhai sydd yn cerdded yn araf, a chymeryd llawenydd o Resin, a mab Remalïah; am hyny, wele, y mae yr Arglwydd yn dwyn arnynt ddyfroedd yr afon yn gryfion, ac yn fawrion, sef brenin Assyria a'i holl ogoniant; ac efe a esgyn ar ei holl afonydd a'i holl geulenydd ef." (Esaia viii. 6, 7.)

*Fleetwood.* Ie, gwrthod dyfroedd Sïloa—y llywodraeth unionaf, ryddaf, a goreu a welodd y wlad hon hyd yma, oedd y llywodraeth ddiweddar. Gweinyddiaeth a ddyrchafodd Brydain i fri, dylanwad, ac urddas, yn ngolwg teyrnasoedd eraill, uwch nag a fuasai iddi erioed o'r blaen; a llywodraeth a ddi-



Digitized by Google

ogelai i'r deiliaid gartref, fwynhad o ryddid gwladol a chrefyddol helaethach nag a fwynhawyd dan un lywodraeth flaenorol. Ond gwrthoda Brydain ddyfroedd Sïloa, Resin a mab Remalïah a fyn hi, a rhaid iddi ddioddef y canlyniadau.

*Dr. Owen.* Ni bu genyf fi erioed law mewn tynu un ffurf o lywodraeth i lawr, na chodi ffurf arall o lywodraeth i fyny, fel y'm cyhuddir yn fynych. Difater genyf beth fydd y ffurf o lywodraeth wladol, ond i ni gael mwynhau ein rhyddid crefyddol—rhyddid i bregethu yr efengyl, ac i addoli ein Duw yn ol barn ein deall, a llais ein cydwybod, yr hwn a ddiogelid i ni i fesur helaeth iawn dan y werinlywodraeth, a'r hwn, yr wyf yn ofni, sydd mewn perygl mewn canlyniad i'r adferiad.—Yr oedd llygad craffus Cromwell, yn rhag-ganfod y perygl hwn, un o'r pethau diweddaf a ddywedodd cyn marw oedd, "Hwy a ddadwnant eto yr hyn oll a wnaethom, a dygânt y deyrnas hon yn fuan i'r un cyflwr truenus ag yr oedd ynddo o'r blaen." Ond, y mae y llygad treiddgraff hwnw wedi cau, a'r llaw gref hono a ddaliai awenau y llywodraeth mor gadarn a diysgog, wedi diffrwytho. Syrthiodd y Tywysog a'r gŵr mawr yn Israel, a ninau ydym yn eiddil heddyw.

*Dr. Goodwin.* Mi a roddaf i chwi adnod bwrpasol—
"Udwch ffinidwydd, canys torwyd y cedrwydd."

*John Milton.* "Wel, udwch, bellach, chwi ffinydwydd
Canys torwyd cedrwydden gref i lawr; [man

Digitized by Google

Yr uchaf, y gadarnaf, decaf oll,
A dyfai yn Libanus, mynydd Duw;
Tan gysgod cadarn gorff, ac uchel frig
Yr hon y diogelid chwi rhag rhuthr
Tymhestloedd blinion; daliai, safai hi'n
Ddiysgog rhyngoch a'r ystormus wynt,
Gan wyro ac estyn ei changhenau preiff
Fel breichiau i'ch cofleidio i'w mynwes glŷd;
O dan ei chysgod hi y llechai'r praidd
Rhag deifiol wres yr haul ganolddydd poeth;
Pabellai y bugeiliaid ger eu llaw.
Diogel le, na feiddiai llew na blaidd
I darfu 'r deadellau na'u cyffroi:
Ond, weithian, o fugeiliaid, udwch oll,
Eich pebyll a anrheithiwyd, ac eich praidd
Wasgarwyd; do, y mae'r bwystfilod cas
Yn rhyddion unwaith eto. Arwydd oedd
[5] Y dymhestl fawr, y fwya'n oes y gwynt,
Ysgubodd eto tros y deyrnas hon,
Y nos y cwympai'r Gedrwydden fawr,
Rhyw arwydd, ydoedd, meddaf, fod yr haf
Ar ddarfod, a bod gauaf du gerllaw,—
A 'stormydd o helyntion blinion iawn
Ar ddyfod eto, mae'u helfenau hwy
Yn croni'n brysur, mae'r ffurfafen fel
Yn feichiog o gymylau tewion a
Bygythiol iawn eu gwedd, ac arllwys wnânt
Gawodydd o flinderau yn y man—

Digitized by Google

Mae dafnau breision blaen y gawod drom
Yn dechreu disgyn eisoes ar ein pen;
Cwyd hen elynion rhyddid, hoffwyr trais,
Eu penau i fyny 'n awr, a charent hwy
Ddiffoddi'r lamp oleuwyd, taflu'r wlad
I d'w'llwch dudew'r canol oesau 'n ol,
A thynu llygaid ein meddyliau fel
Y tynid llygaid Samson gynt o'i ben
Gan ei elynion y Philistiaid—a

*Dr. Goodwin.* Rhoddaf ysgrythyr i'r perwyl;—"Gwae chwychwi, y Cyfreithwyr, canys chwi a ddygasoch ymaith agoriad gwybodaeth; nid aethoch i mewn eich hunain, a'r rhai oedd yn myned a waharddasoch chwi."

*John Milton.* Yn gymmwys fel eu tadau hyny mae'n
Cyfreithwyr ninau yn awr, chwenychent ddwyn
Oddiarnom allwedd y gwybodaeth, cau
I'n herbyn ddrysau teyrnas nef, nid ânt
I mewn eu hunain, ni adawant chwaith
I'r rhai a ewyllysiant fyn'd i mewn.
Haf atti, bellach, holl dafodau cwn
Y fall i gyfarth Cromwell, a sarhau
Ei goffadwriaeth, prysur iawn fydd pin
Pob ysgrifenydd weithian ar y gwaith,
O gablu a gwaradwyddo i enw; d'oed
Pob adyn diegwyddor brwnt a fedd
Dalent i'w rho'i ar werth, wel d'oed a hi
I'r farchnad, dyma'r adeg, caiff lawn bris

Digitized by Google

Am dani; llunied a dyfeisied faint
A fyno 'i galon o gelwyddau brwnt,
A'r brynta 'i gelwydd fydd y goreu 'i dal!
Chwi feibion a phrentisiaid Belial oll,
Yn awr am dani, am y goreu ymro'wch.
Yn baentwyr, yn arliw-wyr, brysiwch, ewch,
Ysgubwch holl simneiau 'r fagddu 'n lan,—
A chesglwch huddugl uffern boeth y'nghyd,
Cymmysgwch ef â golchion Abred ddig
Yn mortar hen fferyllfa fawr y fall,
A throchwch eich pwynteli yn y drwyth
Ddrewedig hon, a phaentiwch, dwbiwch hi
Ar enw a nodwedd Cromwell, lluniwch, gwnewch
Ef yn rhagrithiwr, yn garnfradwr, a
Chreulonddyn gwaedlyd, trawsymhonwr, ac
Yn elyn pob cyfiawnder, gelyn dyn,
A mab y golledigaeth, gordderch fab
Y fallgyrcheirias, gwnewch ef yn bob peth
Sydd ddu, a drwg, a dieflig, yn bob peth
Sydd adgas, erchyll, ac yn llawer gwaeth
Na'r diafol yn mhob modd, a chwi a gewch
Bob cymmorth gan y diafol at y gwaith—
Cymered pob hanesydd, a phob crach
Lenorydd gwaelfrwnt, gareg yn ei law
I'w bwrw ar ei fedd, i godi carn
O ddirmyg a gwaradwydd arno, a boed
I'r gorchwyl fyned rhagddo o oes i oes
Am gant neu ddau o flwyddi eto i dd'od—

Digitized by Google

Diles ac ofer fydd y gwaith i gyd!
Mor sicr ac yr adgyfodir cyrff
Y meirw oll o'r bedd yr olaf ddydd,
Bydd adgyfodiad ar nodweddau cyn
Yr adgyfodiad hwnw,—anfarwol yw—
Gwirionedd er ei gladdu, daw o'i fedd
Yn fyw, yn iach, yn hoew, ac yn gryf:
Y'mhen dwy ganrif eto, dichon daw,
[6] Archangel o lenorydd, saif uwch ben
Y garnedd fawr o ddirmyg, dan yr hon
Gorwedda enw Cromwell, wrth ei fant
Y dyd ei udgorn mawr, gan sugno i mewn
Lo'nd ei ysgyfaint gref o awyr, gan
Ei thywallt wed'yn yn ei udgorn, nes
Dyrchafa udgorn floedd, gan sain yr hon
Ysgydwa'r deyrnas drwyddi o gŵr i gŵr—
"Ti, Cromwell, tyred allan!" fydd y floedd,
Ac allan daw, gan chwalu carn ei fedd,
Ac ysgwyd ymaith yr holl lwch a llaid
A daflwyd arno, fel ysgydwa llew
Y gwlith oddiar ei fwng, a saif ger bron
Yr oesau ddeuant yn ei liw ei hun,
Ac ni all malais ei elynion mwy
Gymylu ei anrhydedd, ac ni wna
Y mangwn a gyfarthant arno ddim
Ond peri i'r byd i chwerthin am eu pen.
Daw egwyddorion Cromwell eto i fri
Yr hadau da a heuodd ef yn maes

Digitized by Google

Y deyrnas hon, er cael eu lluddio am dro
Gan rew ac eira gauaf du ac oer,
Adfywiant, tyfant, ffrwythant hwy drachefn,
Daw gwanwyn tyner, a haf dymmor teg
Ar ol y gauaf hwn, a chlywir llais
Y ddurtur yn y wlad; a'r adar man
A beraidd leisiant eto rhwng y gŵydd;
Pren Almon rhyddid a flagura 'n hardd,
Ei geinciau, megis gwïalen Aaron gynt,
Flodeuant, bwriant eu halmonau per.
Pren Upas gormes, wywa hyd ei wraidd,
Ac enwau y gorthrymwyr trawsion sydd
Yn uchel, ac yn barchus heddyw, ar ol
Cael byw am dymmor bychan i grynhoi
Elfenau 'u gwarth y'nghyd (hyn caniataed
Y nefoedd iddynt) codir hwythau i'r lan
Drachefn o'u beddau, i wisgo bythol warth
Tragywyddol ddirmyg; adgyfodir hwynt
I'w claddu eilwaith yn ystlysau 'r ffos—
A'r byd a orfoledda ar eu bedd.

*Dr. Goodwin.* Dyma adnod: "Y ffinidwydd a chedrwydd Libanus a lawenhasant yn dy erbyn, gan ddywedyd, Er pan orweddaist, nid esgynodd cymmynydd i'n herbyn." (Esa. xvi. 8.)

*John Milton.* [7] Wel, gorfoleddwch, cydymlawenhewch
Ffinidwydd, cedrwydd mynydd Liban oll
Y diwrnod pan y toro 'r Arglwydd ffon
Yr anwir taeog, a theyrnwialen trais,

Llywiawdwyr creulon, ac y tery Ef
Y rhai darawent mewn digllonedd llym
Y bobl â phla gwastadol, ac mewn llid
A lywodraethent y cenhedloedd, ond
Yn awr erlidir enwau cas yr hen
Erlidwyr hyny, ac yn anrhaith ânt
Heb neb yn lluddias, ac ni feiddia neb
Byth gynnyg anrhydeddu 'u henwau mwy:
Y ddaear oll gaiff lonydd, gorphwys wna,
A chan lawenydd calon hi a gân.

*DRYCH III.—Brenin Siarl, Archesgob Sheldon—Y Penystafellydd* (Lord Chamberlain)—[8] *Morley a Gunning.—Ystafell yn Nghastell Windsor.*

*Enter* SHELDON. Fy Arglwydd Frenin!

*Bren.* *Ods fish!*

*Sheldon.* Ydyw'n wir, F'arglwydd Frenin, mae'n amser od iawn,
Mae'r byd yma'n llawn o gynllwynwyr.

*Bren.* Yr ydych yn edrych, fy Mhrelad dysgedig,
Yn bur annedwydd, fel gŵr dychrynedig,
Ymddengys yn wir, fod rhyw ddrwg yn bod,
Nad wyf yn ei wybod, mae 'n debyg.

Digitized by Google

*Morley.* Rhynged bodd i'ch Mawrhydi, cymerasom yr adeg,
I dd'od heddyw yma i fynegi i chwi ddammeg,
Mae uwch ben y wlad yma gwmwl pur ddu,
Ni waeth i chwi hyny na chwaneg.

*Bren.* *Ods fish!* Beth sy'n bod, A ydyw'r Eglwys mewn perygl?

*Gunning.* Wel, ydyw, Fy Mrenin, mae'r peth yn wirionedd,
Mae arnom ni arswyd am yr eglwys a'r orsedd,

*Morley.* Fe â'r goron a'r meitr eto yn y man
Dros y geulan ar draws eu gilydd!

*Bren.* A ydyw'r hen Gromwell ('rwyf bron a gwargrymu
Wrth son am ei enw) ydi o wedi codi i fynu?
Fe'n llwyr ddifethir ni'r naill a'r llall
Gan hen was y fall os felly!

*Pen-ystaf.* Na, na, F'arglwydd Frenin, does fawr achos brawychu,
Mae hwnw mi goeliaf wedi ei lwyr ddiogelu,
Mewn lle na ddaw mwyach byth i'r lan,
O'i drigfan i beri drygfyd.

*Sheldon.* Mae'i yspryd o 'n Mhrydain eto 'n ymrodio
Fel y mae waethaf y modd, yn ymrithio,
Ac effaith ei fywyd o 'n aros o hyd
Ar feddwl y byd heb beidio.

*Bren.* Ei yspryd o! Yspryd Cromwell! *Ods fish!*
Tybiais i fod yr ellyll fel y byddwn ni 'n son
A'i weision wedi eadw noswyl!

Digitized by Google

*Pen-ysta.* Mae 'r eglwys a'r goron yn ddigon diogel
Ni raid i un gŵr amheu nac ofni mo Gromwell,
Mae o a'i yspryd, os oes yspryd yn bod,
Yn y tywod yn ddigon tawel.

*Y Brenin wrth Sheldon, Morley, a Gunning.*—
De'wch, de'wch, barchedigion,
Cymerwch wydryn a pheidiwch ac edrych
Mor bruddion a llwydaidd, mi ddo'wn trwyddi hi'n lled wych;
Fe ddaw pobpeth i'w le, fe gewch weled toc, toc
Yn chwanog fel 'r ydych yn chwenych.

*Sheldon.* Mae pethau y 'rwan o chwith yn druenus,
A phawb yn ynfydu, fel mae'n fwya' gofidus.

*Gunning.* Ac ofnwn mai'n waeth yr â pethau o hyd,
Ni wn i be ddaw o'n byd enbydus.

*Bren* Gadewch i ni glywed a gwybod y cyfan,
Beth ydyw y drygau yr y'ch yn eu d'rogan,
Fel gallom ragflaenu, a threfnu i'r wlad,
Ryw welliad cyn toro nhw allan.

*Sheldon.* Os rhynga bodd i'ch Mawrhydi fy ngwrando,—

*Bren.* Wel, traethwch eich geiriau 'rwyf finau'n clustfeinio,

*Sheldon.* Y mae yn wybyddus fel ca'dd yr Eglwys ei baeddu
Yn nwylaw du halog hen Gromwell a'i deulu.

*Bren.* *Ods fish!* Y mae Cromwell ar ben pob drwg
Yn dyfod i'r golwg heb gelu.

*Sheldon.* O! peidiwch, os gallwch, a throi'r peth yn gellwair.

Digitized by Google

*Bren.* O! 'r wyf fi, coeliwch, o ddifri' calon,
Mor ddifri' a neb dd'wedodd ei bader yn gain,
Uwch ben bedd ei nain, yn union.
*Sheldon.* Sut bynag am hyny, ddywedaf fi'r hanes,
*Bren.* O, ïe, mynegwch, a thraethwch y neges.
*Sheldon.* Wel, fel y crybwyllais o'r blaen am y blinion
Loësau a gafodd yr hen Eglwys gyfion;
Hi gafodd ei malu rhwng dannedd Cromwelliaid :
Y *Triers* y'u henwid, gwŷr traws eu henaid:
Y rhei'ni, 'r hen dwyllwyr, a droisant allan,
Lu o wŷr cymmwys yr Eglwys rywioglan;
Rhai o dan esgus eu bod yn anfoesgar,
A rhai gan eu baeddu fel cŵn mud a byddar,
Ac yn eu dallineb, hwy ddygent i'r llanau,
Deilwriaid, gwehyddion, neu gryddion, pob graddau,
Dynion penweinion o bob opiniynau;
Annibynwyr a Throchwyr, pob math o wrthddrychau;
A heidiau taerion o Bresbyteriaid,
Yn wŷr tynion o Buritaniaid.—
Fel hyn d'ai 'r gelynion i mewn yn gelanedd,
I gorlan yr Eglwys, nid cymmwys y camwedd—
A dryllio 'i cherfiadau wnai 'r erchyll ynfydion,
Halogent yn ddídor ei hallor wŷr hyllion,—
Ac ynddi, fel gwyddoch, y maent yn cael eu goddef
I wneyd drygau chwerw hyd heddyw rhaid addef,
Achwynant, a gwaeddant i fod ei Llyfr Gweddi,
Yn wael babaidd, gan geisio 'i ail bobi,
Neu 'i fwrw allan fel peth ofer hollol,

Digitized by Google

A dim ond y Bïbl, y Bïbl i'r bobol.
Ac os cânt hwy lonydd i fyn'd yn eu blaenau
Beth amser y'mhellach bydd hyllach y gwallau.—
Hwy dynant ein Heglwys i lawr hyd y llwch,
Gan ei gwneyd yn anialwch anaele.

*Bren.* *Ods fish!* Oni ellwch eu bwrw 'nhw allan?

*Morley.* Pe caem ond awdurdod y gyfraith, diau
Caent fyn'd o'n porfâau yn bur fuan.

*Bren.* Wel, beth, Urddasolion, gyngorech chwi ei wneyd?
Erfyniwn i'w ch' ddyweyd yn ddidwyll.

*Gunning.* Yn gyntaf, fe ddylid ordeinio gwŷr doniol,
Dysgedig Eglwyswyr, prif awdwyr profiadol,—
Esgobyddion diymod i'r gwaelod, o'r galon,
A rheini dan noddiant a gwarant y goron,
I gydarolygu'r Llyfr Gweddi Cyhoeddus—
Er ei wneyd yn rhy galed i'r gwŷr ofergoelus.

*Sheldon.* Yn wir, F'arglwydd Frenin, dyna gyngor da iawn,—
Y mae o 'n bur llawn o gallineb.

*Morley.* 'R wyf finau yn meddwl na all fod ei well,
Mae 'n cyraedd yn bell, ac yn bwyllus.

*Bren.* Deuwch yfory i'r *White Hall,* ac mi a wysiaf yr
Arg. Canghellwr Hyde, i'ch cyfarfod.

[*Ymadawiad.*

Digitized by Google

DRYCH IV.—Brenin, Hyde, Sheldon, Gunning, *a* Morley—*Ystafell yn Whitehall.*

*Bren.* Foneddigion a thadau Parchedig, hysbysais ei Arglwyddiaeth y Canghellwr sylwedd ein hymddiddan ddoe.

*Sheldon.* Ac y mae yntau yn cydsynio mai angenrheidiol a da yw y peth, ni a hyderwn.

*Hyde.* Mor belled ag yr wyf yn deall yr amcan.

*Gunning.* Yr amcan ydyw gwneyd y cyfryw gyfnewidiadau yn y Llyfr Gweddi Cyffredin, a'i gwnelo yn fwy anghymeradwy yn ngolwg y Presbyteriaid, ac eraill sydd yn yr eglwys, ac yn fwy poenus iddynt i aros ynddi.

*Morley.* Ië, ac yn rhy boenus os gallwn.

*Hyde.* Yr wyf yn deall; ond dylid gofalu wrth geisio cau y Presbyteriaid allan, rhag gwneyd lle i'r Pabyddion ddyfod i mewn; onide bydd yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf.

*Gun.* O'm rhan i, gwell fyddai genyf i'r Rhufeiniaid *ddyfod* i mewn, nag i'r Presbyteriaid a'r lleill *aros* i mewn.

*Hyde.* Ni allaf gwbl gytuno â chwi yn hynyna.

*Sheldon.* Rhaid i mi addef o'r ddau mai gwell genyf y Pabyddion na'r Puritaniaid.

Digitized by Google

*Morley.* A minau.

*Bren.* A minau, a dyweyd y gwir yn ddistaw rhyngof fi a chwithau (ac na chwithau hefyd, rhyngof fi a mi fy hunan).

*Hyde.* Ni allaf fi ddywedyd felly, ond gallaf ddyweyd hyn, nad da genyf y naill na'r llall

*Sheldon.* Chwi a wyddoch fod y Puritaniaid hyn yn ddrain yn ystlysau, ac yn bydredd yn esgyrn ein Heglwys, ac nad oes iachawdwriaeth iddi heb eu cael hwy allan o honi.

*Gun.* Ydyw, y mae'r Eglwys yn drewi o Buritaniaeth, ac nid oes modd ei phuro a'i phereiddio ond trwy garthu y budreddi allan.

*Sheldon.* Yr anffawd fwyaf o'r cwbl oedd i Owen, yr Annibynwr, y sect waethaf o honynt oll, gael ei wneyd yn Ganghellwr prif athrofa Rhydychen, a Goodwin, un arall o'r un sect, gael ei osod yn Gadeirdraw Coleg Magdalen, a gwenwyno felly brif ffynnon yr Eglwys.

*Hyde.* Ond, fy Arglwydd Esgob, y mae yn rhaid i ni gydnabod, er mor anhawdd genym, ddarfod i'r Dr. John Owen wneyd gorchestwaith yn y Brif-ysgol—Dyrchafodd hi o gyflwr isel a thruenus i sefyllfa flodeuog a llwyddiannus; ac ni throdd Rhydychen dô o ddysgedigion perffeithiach allan erioed na'r rhai a feithriniwyd ynddi y pryd hwnw,[9] dyna'r gwir.

*Sheldon.* Y mae llawer gwir gwell ei gelu.

Digitized by Google

*Bren.* A llawer celwydd gwell ei goledd.

*Gun.* Os bydd yn gelwydd manteisiol i'r eglwys a'r llywodraeth.

*Sheldon.* Y mae y gwir a ddywedodd ein Canghellwr, os gwir hefyd, yn niweidiol i'r ddwy.

*Hyde.* A wyddoch chwi, fy Arglwydd Esgob, beth a ddywedodd Dr. John Owen wrthyf fi y dydd o'r blaen?

*Sheldon.* Na wn, nes y mynegoch.

*Hyde.* Wel, dywedais wrtho fy mod yn synu ato fel gŵr boneddig a dyn dysegdig, ei fod yn arddel perthynas â phlaid newydd ddiweddar fel yr Annibynwyr.

*Sheldon.* Beth a ddywedodd ef wrth hyny?

*Hyde.* [10]Dywedodd ei fod yn barod un diwrnod i brofi i unrhyw esgob a ddewiswn i appwyntio, mai Annibyniaeth ydyw trefn eglwysig y Testament Newydd, ac na wyddai yr eglwys Grist'nogol am un drefn arall o lywodraeth eglwysig am y dau can' mlynedd cyntaf.

*Bren.* *Ods fish!* Fy Arglwydd Esgob, cymmerwch ef ar ei air.

*Sheldon.* Na, nid ymostyngaf byth i ddadleu ag un o honynt.

*Bren.* Yr ydych am gymeryd ffordd ferach a mwy effeithiol i gau eu safnau, onid ydych?

*Gun.* Hyny a raid ei wneyd, neu fe â y drwg rhagddo fwyfwy.

*Morley.* Gwaith ffol a fyddai cynnyg dadleu â'r dynion hyn, a dyn fel Owen yn neilltuol.

Digitized by Google

*Bren.* Pahem?

*Morley.* Ni chafodd neb y gair olaf arno eto, o'r holl luaws a fu'n dadleu ag ef trwy'r blynyddoedd.

*Sheldon.* Rhynged bodd i'ch Mawrhydi ein galw i drefn at y pwnc; nid i siarad am Owen y daethom ynghyd.

*Bren.* At y pwynt ynte.

*Sheldon.* Y pwynt ydyw appwyntio gwŷr cymmwys i arolygu y Llyfr Gweddi Cyffredin, er gwneyd y cyfryw gyfnewidiadau ynddo ag y mae amgylchiadau yr amseroedd hyn yn galw am danynt.

*Bren.* Beth yw natur y cyfnewidiadau a garech chwi eu gwneyd ynddo?

*Sheldon.* Yn gyntaf, ni fynem gyfnewid dim ar y pethau yr achwyna y Puritaniaid o'u plegid er ei wneyd yn esmwythach iddynt; ond fel arall, gwneyd y pethau hyny yn gryfach, ac yn fwy gwrthwynebus i'w cylla. Yn ail, dwyn pethau ereill i mewn iddo a fyddont yn fwy anghymmeradwy ganddynt na dim y sydd ynddo yn awr.

*Bren.* Yr wyf yn deall, yr ydych am eu gwasgu allan o'r Eglwys.

*Sheldon.* Am eu gwasgu allan, fy Arglwydd Frenin, neu eu profi a'u dangos yn gnafiaid o ragrithwyr os arosant i mewn.

*Bren.* Beth sydd ganddynt i'w ddyweyd yn erbyn y Llyfr Gweddi?

*Gun.* Llawer iawn o bethau, fy Arglwydd Frenin.

*Morley.* Un o'r pethau penaf ydyw ei fod yn cynwys llithiau o'r Apocripha.

Digitized by Google

*Bren.* Llithiau o'r Apocrypha—ai ïe?

*Gun.* Ie, a hoffwn i ddodi ychwaneg o'r Apocrypha i mewn fel un moddion effeithiol i gyraedd ein hamcan.

*Hyde.* Pa ranau o hono a ewyllysiech ychwanegu?

*Gun.* Stori Bel a'r Ddraig, a Stori Susana.

*Bren.* *Ods fish!* Ië, Stori Bel a'r Ddraig! campus;
A Stori Susana! gogoneddus!

*Morley.* Carwn inau ro'i Stori Tobit a'i Gî,
I'w nefoli a'i wneyd yn felus.

*Bren.* Ië, rho'wch y Ddraig a Bel i'w dychrynu,
A Stori Susana nes taro nhw i synu,
A Thobit a'i Gî ar eu sodlau nhw'n glos,
I'w hanos gyda hyny.

*Hyde.* Ond pwy a gynnygiech i gymeryd y gwaith mewn llaw?

*Bren.* Ni ellir cael gwŷr mwy cymmwys, na gwŷr mor gymmwys, a'r Tadau Gwir Barchedig, a gwir ddysgedig, gwir deyrngarol, duwiol a da, sydd yma yn y cyngor presenol.

*Hyde.* Os cydsyniant, hwynthwy yw y gwŷr.

*Sheldon.* Os hyny yw ewyllys F'arglwydd Frenin, yr wyf fi o'r galon yn barod fel un.

*Gun.* A minau.

*Morley.* A minau.

*Bren.* Da iawn, dyna hi; a phan fo eich gwaith yn agos ar ben, [11] anfonwn ein brenhinol archiad i Dŷ'r Arg-



Digitized by Google

lwyddi i alw *Convocation* i wneyd cyfnewidiadau yn y Llyfr Gweddi.

*Sheldon.* Bendith y nef ar eich Mawrhydi.

*Y Lleill.* Amen.

DIWEDD RHAN II.

Digitized by Google

## RHAN III.—Y RHAGBAROTOAD.

*DRYCH I.*—BRENIN, SHELDON, CLARENDON, SIR. J. PAKINGTON, MORLEY, *a* GUNNING.—*Ystafell y Cyfringyngor.*

*Bren.* Pa newydd heddyw?

*Clarendon.* Newydd da, a newydd drwg ar gyfer yr un da.

*Bren.* Rhyw ganolig ydyw felly; gallasai fod yn waeth, a gallasai fod yn well.

*Clar.* Yn gymmwys felly.

*Bren.* Wel, ni cheir y melus heb y chwerw.

*Sheldon.* Na'r goron heb y groes.

*Bren.* Ië, na'r meitr heb y ddraen.

*Sheldon.* Gwir iawn, F'arglwydd Frenin, yr wyf yn eithaf profiadol o hyny. [*Sheldon yn ocheneidio.*

*Bren.* Pa un ai yn y pen ai yn y gydwybod mae y ddraenen yn pigo, F'arglwydd Esgob?

*Sheldon.* Yn y pen, F'arglwydd Frenin.

*Bren.* Yr wyf yn eich credu; gellwch chwi a minau gysgu'n ddigon esmwyth o ran dim a wna cydwybod i ni—ond beth am y newyddion?

*Clar.* Caiff fy nghyfaill Morley fynegi un, a'r Barwnig anrhydeddus (Sir J. Pakington) fynegi y llall.

Digitized by Google

*Bren. wrth Morley.* Pa un ai y da neu y drwg sydd genych chwi i'w adrodd?

*Morley.* Y newydd da F'arglwydd Frenin.

*Bren.* Wel,—

*Morley.* Y mae genyf yr anrhydedd a'r hyfrydwch o hysbysu fod y gwaith mawr o wneuthur y cyfnewidiadau angenrheidiol yn y "Llyfr Gweddi" wedi ei gwblhau.

*Bren.* Da iawn. Pa fodd y bu rhyngoch chwi a'r Presbyteriaid?

*Morley.* Cawsom lawer iawn o drafferth gyda hwynt yn Nghynadledd Savoy am rai dyddiau, nes i ni ddiflasu a thori y Gynnadledd i fyny.

*Bren.* Gwych iawn.

*Gun.* Buont yn daer iawn lawer gwaith wedi hyny am gyfarfod i gydymddiddan yn gyfeillgar, i edrych a allesid dyfod i gyd-ddealldwriaeth.

*Bren.* A chwi a wrthodasoch?

*Gun.* Darfu i ni ymostwng i'w derbyn unwaith, ond torasom y cyfarfod i fyny yn swta; yr oedd un o honynt yn neilltuol, Richard Baxter, mor anniodd-efol o haerllug a sarhaus.

*Bren.* Beth wed'yn?

*Gun.* Archem iddynt roddi eu cwynion yn erbyn y Llyfr Gweddi i lawr ar bapur, ac y gwnaem ninau eu hystyried.

*Bren.* A ddarfu iddynt wneyd hyny?

*Gun.* Do

*Sheldon.* Do, restr hir, cyhyd a braich Artaxerxes Longimanus, brenin Persia gynt!

*Bren.* *Ods fish!* Carwn ei gweled.

*Sheldon.* Ond ni wnaethom ni gymaint a chyfnewid na lliniaru dim ar un o'r pethau y cwynent i'w herbyn.

*Bren.* Y mae yn hawdd genyf goelio.

*Morley.* Naddo fawr! Dodasom lawer o bethau newydd i mewn a fyddant yn fwy annerbyniol ganddynt na dim yr achwynant o'i blegid.

*Bren.* A wnaethoch chwi lawer o gyfnewidiadau?

*Sheldon.* Tua chwe' chant.

*Bren.* *Ods fish!* Wel, y mae y llyfr chwe' chan' gwaith gwell nag oedd o'r blaen!

*Sheldon.* Y mae yn well at ein pwrpas ni ar hyn o bryd, beth bynag.

*Bren.* O ïe, a roisoch chwi Stori Bel i mewn?

*Sheldon.* Do.

*Bren.* O'r goreu; a Susana?

*Sheldon.* Ië, a Susana hefyd.

*Bren.* Da iawn; a Thobit a'i Gî?

*Sheldon.* Wel, naddo yn wir.

*Bren.* Gresyn garw na buasai yr hen Gî i mewn.

*Sheldon.* Darfu i ni ei anghofio rywsut.

*Bren. wrth Sir J. Pakington.* Beth yw y newydd drwg sydd genych chwi?

*Pakington.* Wel, hyny ydyw, F'arglwydd Frenin, bod y Presbyteriaid yn dirgel gynllwyno, ac yn cydfwriadu cydfradwriaeth yn brysur iawn y dyddiau hyn.

Digitized by Google

*Bren.* A oes genych sicrwydd o'r peth?

*Pak.* Lawn sicrwydd meddwl, F'arglwydd Frenin.

*Bren.* Ië, lawn sicrwydd meddwl, nid llawn sicrwydd tystiolaeth, hwyrach?

*Pak.* Wel, rhyngom ni a'n gilydd yma felly, hwyrach y byddai yn anhawdd profi y peth, ond yr wyf fi yn barod i sicrhau eu bod wrthi yn Sir Gaerwrangon a manau ereill.

*Bren.* Felly—Ië, pa un bynag eu bod neu beidio?

*Pak.* Ië, ni waeth genyf fi ddim yn y byd am hyny; yr wyf fi yn benderfynol o ddwyn y cyhuddiad yn eu herbyn, yn fy lle yn Nhŷ y Cyffrediu, y cyfleusdra cyntaf a gaf, bid cam bid cymmwys.

*Bren.* Ond yr ydych wedi addef mai gwaith anhawdd fyddai ei brofi.

*Pak.* Ond gwaith hawdd fydd ei haeru.

*Bren.* Ond waeth heb ei haeru os na ellir ei brofi, ai waeth?

*Clar.* Na, fe wna ei haeru lawer o help i ni yn awr.[12]

*Bren.* Pa fodd?

*Clar.* Wel, fe barotoa ac aeddfeda feddyliau y bobl yn gyffredin ar gyfer y mesurau a fwriadwn eu dwyn yn mlaen i wasgu ar y sectariaid hyn, gan yr ymddengys i'r wlad felly bod y cyfryw fesurau yn angenrheidiol er diogelu a chadw heddwch.

*Bren.* Felly; go dda—nid yw o un pwys genyf finau mwy na chwithau, chwi a wvddoch yn burion, pa

Digitized by Google

un ai gwir ai celwydd yw y peth, os bydd o ryw help i ni—dyna'r cwbl.

*Clar.* Y mae genyf ffafr i'w gofyn genych, F'arglwydd Frenin.

*Bren.* Wel, gofynwch.

*Clar.* Fod i'ch Mawrhydi dalu ymweliad â'r Tŷ Cyffredin ar ddydd pennodol.

*Bren.* Beth a gaf ei wneyd yno?

*Clar.* "Annog y Tŷ i gadw gwyliadwriaeth fanwl ar y dynion drygionus hyn, sydd yn llafurio ddydd a nos i aflonyddu heddwch y wlad."

*Bren.* Caniataf eich ffafr yn rhwydd ddigon.

*Sheldon.* Ardderchog.

*Pak.* A minau a gyfodaf yn union wedi hyny i ddwyn y cyhuddiadau i'w herbyn.

*Gun.* Dyna hi!

*Bren.* Ond pa fesurau sydd genych mewn golwg?

*Clar.* Ni bydd y cyfnewidiadau a wnaed yn y "Llyfr Gweddi" o un defnydd heb i ni gael cyfraith i'w sefydlu.

*Sheldon.* Llythyren farw fydd y cwbl heb hyny.

*Bren.* Pa fath ydyw'r gyfraith hono i fod?

*Clar.* Ni a'i galwn "*Act er sicrhau unffurfiaeth mewn crefydd,*" yr hon, wedi i ni ei pharotoi, a ddodwn o flaen eich Mawrhydi.

*Bren.* Gwych y byddoch.

[*Diwedd y Cyfringyngor.*

Digitized by Google

*DRYCH II.—Act yr Unffurfiaeth.*—BRENIN, ARG. CLAREN-DON, a SHELDON.—*Ystafell y Cyfringyngor*

*Bren.* Croesaw da, fy noethion a'm cynghorwyr,
A wnaethoch chwi'r rhwyd i ddal yr hen fradwyr?
Yn ddiau fe wyddoch mai'r *Act* wyf yn feddwl,
Hyderaf i'wch lwyddo i wneuthur y gwaith
Am unwaith yn ddigon manwl.

*Clar.* Mae'r rhwyd wedi'i gweithio a'i chyweirio'n dra chywrain,
Hi basiodd yn hynod trwy 'n bysedd ni 'n hunain;
Mae 'i masgau mor fychain a chyfyng i fachu,
A chraff ei gafaelion, 'r y'm wedi gofalu;
Ni all Puritaniaid gan faned a chwain
Byth fyned trwy'r rhai'n ar ol hyny.

*Bren.* Ar ol pa beth?

*Sheldon.* Ar ol cael i'n gweithred gydsyniad y senedd,
I'w gwneyd yn ddeddfwarant er ffyniant mewn ffaith;
Ac enw'n teyrn wrthi i ro'i ynddi rinwedd,
Dan nod y sêl fawr bydd gwawr ar y gwaith.

*Bren.* Wel moeswch i'm weled neu glywed yr *Act*,
Cyn gwnelom hi 'n *fact effective.*

[*Clarendon yn darllen yr Act.*[18]

Digitized by Google

*Bren. ar ol clywed darlleniad yr Act:*

Wel dyna'r *Act*—a dyna'r rwyd,
Na welwyd ei manylach!
A'r Puritaniaid wedi hyn
A ro'ir mewn tenyn tynach.

*Sheldon.* Ac felly'r Eglwys gaiff ryddhâd,
A llwyr iachâd, a'i chodi
O'i hisel hwyl a'i hysol haint,
Wych haelfraint i uchelfri.

*Bren.* Ond etto ni synwn na thaflai y Senedd
Yr *Act* o'r Tŷ allan yn sarug ei dullwedd.

*Clar.* Na, F'arglwydd Frenin, hyn ydyw'r gwirionedd,
Mae'r Tŷ heb wrthryfel, yn dawel ei duedd,
Fe rêd yr *Act* trwyddo fel ergyd o wn,
Mewn eitha' defosiwn difaswedd.

*Sheldon.* Ar ol in' droi allan o'r gorlan ac erlid
Y blaid wrthryfelus, hudolus, fel y dylid;
Ac os er ein gwaethaf y ceisiant bregethu
Tu allan i'r eglwys mewn twyll er peryglu
Ein heddwch a'n cysur, rhaid ini fydd ceisio
[14] Act arall fo'n gryfach ond hwyrach i'w taro;
Mae'n rhaid ar ol dechreu gau'u safnau yn syn,
A wed'yn fydd dim i'n niweidio.

Digitized by Google

*DRYCH III.*—Brenin, Clarendon, Sheldon, *ac* Iarll Manchester.—*Y noson ar ol pasio Act yr Unffurfiaeth.*—*Ystafell yn Hampton Court.*

*Clar.* Henffych well, F'arglwydd Frenin !

*Bren.* A basiodd yr Act?

*Clar.* Do; a mŷnodd Tŷ y Cyffredin ei gwneyd yn gryfach nag yr oeddwn i wedi bwriadu iddi fod.

*Sheldon.* Ond nid dim yn gryfach nag y mynaswn i, a'r rhan fwyaf o'm gwir barchedig frodyr, yr [15] esgobion, ei gwneyd—a dyweyd y gwir, trwy ein dylanwad ni ar nifer fawr o aelodau y Tŷ y gwnaed ac y cariwyd y gwelliadau.

*Manchester.* Ond yn wir trueni fod porth yr eglwys yn cael ei wneyd mor gaeth hefyd.

*Sheldon.* Y trueni ydyw na buasai yn gyfyngach.

*Manch.* Ond fe dry llawer iawn o weinidogion allan, y mae i'w ofni.

*Sheldon.* Y mae i'w ofni yn hytrach yr erys llawer iawn gormod i mewn o'r rhai y byddai yn dda ar les iechyd yr Eglwys iddynt fyned allan.

*Bren.* Ac yn dda ar les eich iechyd chwithau hefyd, onide? fy F'arglwydd Esgob.

*Sheldon.* Ië, ac iechyd y deyrnas yn gyffredinol.

Digitized by Google

*Bren.* Wel, ni a fyddwn yn iach bawb oll bellach.

*Manch.* Ond y Puritaniaid; fe fydd llawer o honynt hwy yn seilion ar ol clywed y newydd.

*Sheldon.* Y mae arnaf ofn mai gwellau a wnant yn fuan, ac nad yw y *dolur cydwybod* y soniant am dano, ond peth y gallant ro'i plastr arno i'w esmwythau a'i iachau yn bur rwydd.

*Clar.* Chwi a gewch weled yr â amryw allan y meddyliasem yr aroshasent i mewn, ac yr erys ereill i mewn y rhai y tybid a fuasent y rhai cyntaf i fyned allan.

*Sheldon.* Allan bob coppa walltog o Buritan, y dymunwn i iddynt fyned, o'r mwyaf hyd y lleiaf o honynt; megys y dywedais droion wrth rai o honynt.

*Bren.* *Ods fish!* I ba le yr ânt?

*Sheldon.* Ni waeth genyf i ba le yr ânt, na pha beth a ddaw o honynt, ond i mi eu cael o'r Eglwys.

*Manch.* Ond hwy a bregethant wrth y bobl yn mhob man y cânt gyfle wedi hyny.

*Sheldon.* Mynwn ninau Act arall i gau eu safnau ynte, ar ol eu cau o'r Eglwys, ac i'w hattal i agor ysgolion i ddysgu plant gyda hyny, ac i'w gwahardd i fyw na dilyn un alwedigaeth o fewn pum' milldir i unrhyw ddinas na bwrdeisdref gyda hyny hefyd.

*Bren.* *Ods fish!* Yr ydych yn *actiwr* digyffelyb, F'arglwydd Esgob.

*Sheldon.* Actau a raid gael at y dynion hyn; ni ellir eu trin mewn un ffordd arall; rhaid ymaflyd ynddynt

Digitized by Google

â gefeiliau cryfion yr awdurdod wladol—nid oes un ffordd arall i'w distewi.

*Bren.* Pa bryd y mae'r Act i ddyfod yn gyfraith mewn grym?

*Clar.* Ar y pedwerydd-dydd-ar-hugain o fis Awst nesaf, os rhynga bodd i'ch Mawrhydi.

*Sheldon.* Y mae ganddynt, felly, dros ddau fis eto i ymwrando pa fodd y bydd y peth yn dygymmod â'u cydwybodau. Y mae arnaf fi ofn o hyd mai Mrs. Cydwybod a gyll y dydd, ac y bydd bywioliaethau yn yr Eglwys yn fwy dymunol ganddynt na'r peth a alwant cydwybod dawel yn eu mynwesau, pan ddelo y peth i bwynt.

*Bren.* Nid oes genych fawr o ffydd mewn cydwybod, fy Arglwydd Esgob.

*Sheldon.* Nid llawer yn wir, F'arglwydd Frenin; mewn matter fel hwn nid wyf yn meddwl fod yr holl swn y'nghylch cydwybod yn ddim ond cochl dros ystyfnigrwydd pengaled y sect.

*Bren.* Wel, yr ydych yn disgwyl i mi roddi fy enw a'm sêl frenhinol wrth yr Act?

*Clar.* Os rhynga bodd i'ch Mawrhydi.

[*Y brenin yn arwyddo.*

*Sheldon.* Dyna hi wedi ei pherffeithio, a dyma y noson ddedwyddaf o'm bywyd inau.

*Manch.* A dyma y noson fwyaf gofidus yn mywyd lluaws mawr yn y deyrnas hon.

Digitized by Google

*Clar.* Nid oes mor help am dani; yr oedd angenrheidrwydd yn galw am yr Act, ac y mae yr un angenrheidrwydd yn galw am iddi gael ei gweinyddu yn fanwl yn ol yr ysbryd a'r llythyren o honi.

*Sheldon.* Ydyw, pe amgen gwell o lawer fuasai peidio ei llunio a'i phasio.

*Bren. wrth Sheldon.* Wel, chwi a gysgwch yn esmwyth heno, 'Farglwydd Esgob.

*Sheldon.* Yn esmwythach nag y cysgais er's hir iawn o amser, yr wyf yn disgwyl, F'arglwydd Frenin.

*Manch.* Nid ymwêl cwsg ag amrantau llaweroedd o ddynion y nos hon.

*Bren.* *Ods fish! Ods fish!! Ods fish!!!* Beth—beth—beth yw hwnacw? Welwch chwi! welwch chwi! welwch chwi!

*Clar.* Pa beth, pa beth, F'arglwydd Frenin?

*Bren.* Rhywbeth, rhywbeth, fel delw neu ddrychiolaeth yn gwau ac yn gwibio, yn edrych ac yn syllu'n ddigofus arnom!

*Drych.* Myfi ydwyf yspryd Hugh Latimer, Esgob Caerwrangon gynt, a merthyr tros yr efengyl, yr hon ydych chwi a'ch Act yn cynllwyno yn ei herbyn, er ei distewi eto yn y deyrnas hon!

*Bren.* Wel beth? Wel beth!

*Drych.* Wel dyma'r peth, yr wyf yn tystiolaethu i chwi, y cydia'r Act a wnaethoch yn eich ysgyfaint, ac y cyfyd enynfa yno a bair i chwi [16] ***besychu yn uffern nes peri i holl ellyllon y fagddu chwerthin am ben***

*eich pesychu am byth bythoedd, onid edifarhewch mewn pryd.*

[*Y ddrychiolaeth yn diflanu.*

[*Ystod hir o ddystawrwydd.*

*Bren.* [*Wedi yfed dogn helaeth o win wrth y lleill.*] *Ods fish!* Trechaf yw gwin. Yr wyf yn gallu anadlu'n rhwyddach ar ol y ddogn. Yfwch a boddwch chwithau eich dychryn, foneddigion. Ond beth ydych yn feddwl o beth fel yna?

*Clar.* Rhyw dric o eiddo'r Puritaniaid, neu ryw gyfaill neu gyfeillion iddynt ydoedd, dim arall.

*Sheldon.* Dim arall, F'arglwydd Frenin, chwi a wyddoch fod dewiniaid a swynwyr yn llenwi y wlad yma, yn amser eich taid Iago, fel y gorfuwyd cael Actau i'w cospi a'u cadw danodd. Profwyd llaweroedd yn euog o driciau drygionus, fel hwn heno, a llosgwyd a chrogwyd lluaws mawr o honynt; ond y maent heb eu llwyr ddiwreiddio o'r tir eto, yr ydych yn gweled.

*Clar.* Ni ryfeddwn i ddim nad y dyn peryglns hwnw, Andrew Marvel ydyw cynlluniwr y tric hwn; nid oes derfyn ar alluoedd ystrywgar y dyn hwnw.

*Sheldon.* Yn bendant hefyd. Y mae yn sicr agos mai efe a fu wrthi, a da yr haeddai ei grogi neu ei losgi am ei boen; ac ni raid cael Act at hyny, canys y mae yr hen Act yn aros mewn grym.

*Bren.* Gwell a doethach ydyw i ni fod yn ddistaw, a pheidio cymeryd arnom ddim yn y byd y'nghylch y mater.

Digitized by Google

*Clar.* Yr wyf finau yn meddwl felly hefyd.

*Bren.* Esmwyth a thawel fyddo ein cwsg, ac na aflonydded yspryd yr hen Latimer ar ein breuddwydion, a'r andros a ddilyna'r Andrew Marvel hwnw, os efe a chwareuodd y tric cas hwn â ni.

*DRYCH IV.*—Y BRENIN, SHELDON, DR. MANTON, DR. BATES, a DR. JACOMB, (*Gweinidogion Presbyteraidd*)—*Arg.* CLARENDON—*Yr ail nos—Ystafell yn Hampton Court.*

*Y Gweinidogion ynddynt eu hunain pan welent* SHELDON *yn bresenol.*

A thithau a ddaethost yma, O ein gelyn!
Ar ddeheulaw ac wrth glust ein brenin y sefi,
Fel yr Haman hwnw gynt yn llys Ahasferus—
I anadlu gwenwyn enllib a chelanedd
I feddwl ein Penadur yn ein herbyn ni,
Ei ffyddlonaf ddeiliaid, am wrthod o honom
Roddi gwarau ein cydwybodau i ddwyn yr iau
Galed a gorthrymus a fynit osod arnynt;
Gan ryfygus yspeilio iawnderau y Goruchaf,
Unig Berchen, Deddfwr, a Barnwr cydwybod dyn.
Yr Arglwydd Farnwr a edrycho ac a farno,
Rhyngom ni a thi.

Digitized by Google

*Sheldon—wrtho ei hun.*

O! chwi feibion cyndyn gwrthnysig,
Had yr hen wiberod Puritanaidd,
Anrheithwyr ein Heglwys,
Dirmygwyr yr urddas esgobol,
Deallais eich amcan yn dyfod yma heddyw,
A daethum i achub y blaen arnoch;
Deliais chwi o'r diwedd, yr ydych yn fy llaw,
A gwasgaf chwi allan o'r Eglwys,
Neu gwasgaf eich cydwybodau allan o honoch chwi;
Yn ofer y ceisiwch ymwared o'r orsedd;
Y mae enw a sêl y brenin wrth yr Act,
Yr hon a selia eich tynged.

*Brenin wrth y Gweinidogion.* Y mae i chwi gyflawn ryddid a chroesaw, foneddigion, i agor ac adrodd eich cwynion ger bron eich brenin, a rhoddwn wrandawiad parod ac ystyriol i'r hyn oll a fynech osod o'n blaen.

*Dr. Manton.* Ein Harglwydd Frenin, y mae eich geiriau grasusol yn disgyn fel olew tyner ar ein teimladau clwyfus, ac yn adfywio ein gobaith gwanaidd. Diwrnod cyfyngder, a cherydd, a thrallod, yw y dydd hwn i ni, a daethom yma at droed yr orsedd i ymbil y ffafr frenhinol i droi oddiwrthym y drwg a barotowyd i'n herbyn!

*Dr. Bates.* Ni raid i ni ddadleu ein diniweidrwydd, ein ffyddlondeb i'r orsedd, ein teyrngarwch i'r goron, canys y brenin a ŵyr oddiwrth y pethau hyn,—ac

Digitized by Google

nid oes dim, yn guddiedig rhagddo;—pe gallesid profi ein bod yn euog o frad, a chynllwyn, a thwrf, a therfysg, ni a dawsem a son, canys cyfiawn yr haeddasem y driniaeth galed a fygythir arnom.

*Dr. Jacomb.* Oherwydd cydwybod tuag at Dduw, a'r hyn a gredwn sydd wirionedd, yr ydym yn sefyll yn gondemniedig dan yr *Act* a basiwyd neithiwr, yr hon gydwybod nis gallwn ei halogi, beth bynag fyddo y canlyniadau i ni a'n teuluoedd.

*Bren.* Ystyriwch y matter yn mhellach, foneddigion, cyn penderfynu; perwch i gydwybod wneyd cydwybod o gydffurfio â gofyniadau yr *Act*, er mwyn eich teuluoedd a chwi eich hunain. Y mae cydwybod yn ddigydwybod iawn os rhaid i chwi daflu eich hunain i angen a thrueni i'w boddloni hi.

*Dr. Manton.* O, na lefared y brenin felly! Y neb a allo fod yn anffyddlon i argyhoeddiad ei gydwybod o'i ddyledswydd tuag at Dduw a'r gwirionedd, ni all fod yn ddeiliad cywir a ffyddlon i'w frenin chwaith.

*Dr. Bates.* A pha fodd y gallem wedi hyny godi ein hwynebau o flaen ein cynnulleidfaoedd i bregethu geiriau gwirionedd a sobrwydd iddynt hwy, a hwy'n gwybod, a ninau yn teimlo ein bod, yn fradychwyr ein hunain o'r hyn a gredem ac a gyhoeddem fel gwirionedd, bob amser?

*Dr. Jacomb.* A pha fodd y gallem godi ein hwynebau ger bron brawdle fawr y farn ddiweddaf wedi i ni droi yn anffyddlon i'n Harglwydd a'n Meistr nefol,



Digitized by Google

"Yr hwn, ger bron Pontius Pilat, a dystiodd broffes dda," "gan adael i ni esiampl fel y dilynem ei ol ef?"

*Bren.* Yn wir, yn wir, y mae yn ddrwg gan fy nghalon trosoch. Y mae y Senedd wedi ymddwyn yn galed iawn tuag atoch; nid oeddwn wedi meddwl yr aethai y peth mor bell.

*Dr. Manton.* Y mae eich cydymdeimlad breninol yn werthfawr iawn genym, ac yr ydym yn hyderu bod eich Mawrhydi yn cofio yr addewidion, y cyfammod, y llŵ, a'r cyhoeddiad breninol a wnaed yn Breda.

*Bren.* Yr wyf yn cofio, ac yr wyf yn addaw yn ddifrifol i chwithau heddyw, y gwnaf yr oll a fyddo dichonadwy i mi ei wneyd trosoch.

[[17] *Sheldon yn cnoi ei wefusau.*
[*Y Gweinidogion yn ymadael.*

*Clarendon.* Trueni mawr oedd i'ch Mawrhydi roddi yr yr addewid yna hefyd

*Bren.* Wel, yn wir, ni allaswn lai, canys y mae yn ddrwg genyf drostynt mewn gwirionedd.

*Sheldon.* Y mae eich tosturi brenhinol yn cael ei wastraffu ar wŷr hollol annheilwng o hono, a hyderaf na bydd i'ch Mawrhydi gynnyg sefyll yn darian rhyngddynt â'r driniaeth a haeddant, a gwneyd ein *Hact* yn llythyren farw wedi ein holl drafferth.

*Bren.* Nis gwn yn iawn beth a wnaf.

*Clar.* Yr wyf fi yn meddwl mai gwell fyddai i'ch Mawrhydi gadw yr addewid, i ryw fesur beth bynag.

Digitized by Google

*Sheldon.* Cadw'r addewid! Beth y mae eich Arglwyddiaeth yn feddwl? Os felly, chwarae plant oedd y cwbl. Gwneyd *Act*, ei phasio drwy y Senedd, a'i selio â'r sêl frenhinol heddyw, a'i thaflu o'r neilldu fel peth gwrthodedig y foru drachefn; ni a wnawn ein hunain yn wrthddrychau dirmygedig yn ngolwg y deyrnas a'r byd.

*Bren.* Wel, wel, yr hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd, a'r hyn basiwyd a basiwyd, a'r hyn a seliwyd a seliwyd: boed i'r *Act* gael ei ffordd, a boed iddynt hwythau gymeryd eu ffordd; boed rhwng yr *Act* a hwy, a rhyngddynt hwythau â hi, ac a'u cydwybodau hefyd; nid oes help am dani.

*Sheldon.* Pob peth yn dda, a chaf finau fy ffordd.

DIWEDD RHAN III.

Digitized by Google

## RHAN IV.—Y DYDD DU.

*DRYCH I.—Gwyliedydd a lluaws o gyfeillion—Boreu y 24ain o Awst—Ystafell yn Finsbury.*

*Gwylied.* Wel dyma 'r dydd—Dydd Du Bartholomeus—
Du dywell ydyw 'r wybren, claf yw'r haul
Y bore heddyw; mae amrantau 'r wawr
Yn drymion farwaidd, fel pe byddent hwy 'n
Hwyrfrydig iawn i agor dorau 'r dydd;
Cymylau mawrion, duon, tewion iawn,
Orweddant acw ar y dwyrain borth,
I'w gloi a'i gau i fyny rhag i'r gwawl
Dd'od trwyddo,—hoffent guddio 'r golygfeydd
Sydd ar gael eu datguddio yn ein gwlad.
Y gwynt darawyd fel â pharlys mud,
Neu ddiffyg anadl, fel nas gall efe
Gyflenwi angenrheidiau natur; mae 'i
Hysgyfaint hi am dano yn dyheu.
Distaw a mud yw tannau merched cerdd
Y goedwig oll, na chân na chwyn ychwaith
Ni chlywir; ac mae dail y coed i'w gwel'd

Digitized by Google

Fel celaneddau wedi eu crogi dan
Gollfarnedigaeth drwgweithredwyr; sŷn,
Drallodus a phryderus ydyw gwedd
Wynebpryd anian oll y bore hwn;
Bore y diwrnod pwysig pan y mae
Tyngedfen rhyddid Prydain Fawr i gael
Ei phenderfynu. Diwrnod a fydd hwn
I'w gofio 'n hir, pa ochr bynag try
Y fantol arno; os ystwytho wna
Y tystion tros y gwir, a phlygu 'u glin
I'r ddelw fawr gyfodwyd gan y Teyrn,
Haloga orseddfainc y deyrnas hon
A'i weision gwaeth nac yntau, sydd o'i gylch—
Preladiaid uchelfrydig a sarhaus—
Gelynion rhyddid ac iawnderau dyn.
Os plygu 'r glin i'r ddelw hon a wnant,
Hwy heddyw, meddaf, eto, sicrheir
Gefynau gormes a chaethiwed blin
Am wddf ein gwlad dros oesau eto i dd'od,
A haul y dydd fachluda heno dan
Gymylau duach, tewach, na'r rhai sydd
Yn toi tros fro 'i gyfodiad ef yn awr.
Os ffyddlon fel y trillanc glewion fryd,
Ar hen wastadedd Dura gynt, y rhai
A wrthodasant blygu ac ufuddhau
I'r *act* unffurfiaeth greulon hono a
Gyhoeddodd brenin balchaidd Babel fawr—
Os felly, meddaf, heddyw y safant hwy,

Digitized by Google

Heb gydymffurfio â gofyniadau 'r *Act*,
Y Fabilonaidd *Act*, a luniwyd gan
Ein brenin ninau a'i gynghorwyr ef,—
Y tri Preladiaid hyny—galwer hwynt
Offeiriaid Bel a'r Ddraig, priodol iawn
Yw 'r enw arnynt; canys codi wnaent
Allor i Bel a'r Ddraig wrth allor Iôr,
A meini gwagedd allan o gloddfeydd
Dych'mygion dynol yr Apocrypha.
Os ffyddlon heddyw saif rhyw fil neu ddwy
O dystion i'r gwirionedd, meddaf fi,
Bydd gobaith eto am ein hanwyl wlad.
Na lwyr ddiffoddir lamp ei rhyddid hi—
Gan awel oerlem genau dig y ddraig—
Y ddichell offeiriadol—morwyn Bel.
Duw llanciau caethglud Juda, dyro nerth
I'th weision heddyw yn y tanllyd brawf!
O! cadarnhâ eu lwynau, ac arhoed
Eu bwa 'n gryf, a'u breichiau 'n gedyrn fo;
Yn nydd cyfyngder iddynt bydd yn blaid,
I'w dal, a'u cynnorthwyo 'n fore iawn;
Na âd i'th etifeddiaeth fyn 'd yn warth,
Na ddyro enaid llesg dy ddurtur wan
I gynnulleidfa ei gelynion dig!
O! edrych o'r uchelder fry, a gwel
Y drygau wnaeth y gelyn yn y tir,
Fel yr halogant dy gysegroedd glân
A dynol osodiadau gwâg, gan droi 'r

Digitized by Google

Gwirionedd allan, a distewi a throi
Ei weinidogion allan, os na thro'nt
Yn fradwyr iddo, drwy ei wadu er mwyn
Y tamaid bara. Ond, O! Dduw tro di
Y cyngor dwfn Ahitophelaidd hwn
Yn fethiant, yn ffolineb, ac yn warth,
A siomedigaeth iddynt. Edrych ar
Eu holl fygythion hwynt, a chaniatâ
I'th weision bob doethineb a phob gras,
Yn gymmorth cyfamserol, fel y b'ont
Orchfygwyr heddyw ar y Ddraig a'i Hu
Trwy waed yr Oen, a dwyfol nerthol air
Tystiolaeth Iesu Grist, a ninau 'th bobl,
Dy braidd eiddilaidd, defaid dy borfeydd,
A gydfolianwn d' enw byth. Amen.

*Y Cyfeillion oll.* Amen. Amen.

*DRYCH II.—Hwyr Dranoeth y Dydd—Gwyliedydd—Pepys, a Chyfeillion—Yr un Ystafell.*

*Cyfaill cyntaf.* "Y Gwyliedydd, beth am y nos?—
Y Gwyliedydd, beth am y nos?"

*Gwyl.* Wel, daeth y nos, a'r bore ar ei hol.
Ddoe ydoedd ddiwrnod tywyll, trwm, a du;
Nid dydd, nid nos ychwaith, ond yn yr hwyr
Cyfododd goleu arno—ciliai 'r niwl,

Digitized by Google

Teneuai 'r cwmwl, a siriolodd gwedd
Gwynebpryd y ffurfafen hwyrol. Dydd
Oedd ef adwaenid gan yr Arglwydd, a
Dydd a adwaenir genym ninau fydd
Ef o hyn allan,—diwrnod a goffeir
Hyd derfyn dyddiau amser yn ein gwlad.
Ei enw ar groniclau eglwys Dduw,
A hanesyddiaeth rhyddid Prydain Fawr,
A chrefydd efengylaidd yn ei thir,
A fydd yn hynod o hyn allan byth.

*Pepys.* Cenhadwri.—

*Gwyl.* Traethwch.

*Pepys.* Y mae 'r ddinas drwyddi oll yn deimlad byw,
Ar ol y digwyddiadau pwysig ddoe.

*Cyf.* A drodd llawer o'r Gweinidogion allan?

*Pepys.* Do, gant, o fewn y ddinas hon ei hun,
Ac mae newyddion yn dylifo o'r wlad,
Am lawer iawn a wnaethant yr un modd.
Myfi a aethum neithiwr gyda'r hwyr
I wrando 'r tafod-euraidd, Dr. Bates,
Yn traethu i glywedigaeth tyrfa fawr
Ei bregeth ymadawol. 'R oedd y dorf
Mor ddistaw fud a'r meirw yn y bedd;
Eisteddai pryder gorddwys ar bob gwedd,
Pob un yn ddwfn ddyfalu ynddo 'i hun,
Pa beth a wnai 'r Gweinidog heno? P'un
Ai gwrando ar lais yr *Act* ac ufuddhau
I'w gofyniadau hi, ai gwrando ar lais

Digitized by Google

Cydwybod? Yn y man esgynai ef
I fyny i'r areithfa; tawel iawn
Oedd ei wynebpryd—arwydd ydoedd o'r
Tawelwch a deyrnasai tan ei fron,—
Ond yspryd penderfynol didroi 'n ol
Belydrai yn ei lygad. Yn y man
Daeth at y pwynt; mwy astud ddystaw aeth
Y gynnulleidfa—pawb yn glust i gyd,
Tra yr adroddai ef â llais digryn,
Ond llawn o deimlad, ei resymau tros
Ei ymadawiad; ni ddisgynodd gair
Anfoddog, chwerw, o'i wefusau ef,
Ond pan mewn tawel lais, gan godi 'i law,
Y canai 'n iach i'w gynnulleidfa hoff,
Och'neidiau trymion o waelodion dwfn
Calonau cannoedd, dorent yn y fan
Ar y distawrwydd, fel distawrwydd bro
Marwolaeth, a deyrnasai tros y lle;
A thorodd holl argaeon dagrau 'r dorf,
A ffrydient allan yn llifeiriant mawr.
Ni welid grudd o fewn y lle yn sech,
Och'neidiau a dagrau cymmysg oeddynt hwy
O dristwch a llawenydd; gwnaent dristâu
Wrth deimlo a meddwl am eu colled fawr,
Mai 'r tro diweddaf iddynt byth oedd hwn
I wrando geiriau Duw o enau 'i hoff
Ddysgawdwr efengylaidd: llawenhaent
Yr ochr arall hefyd, am y gras

Digitized by Google

A'r nerth i sefyll yn y tanllyd brawf,
Yn ffyddlon i'r gwirionedd ac i'w Duw,
A gawsai eu Gweinidog. Ond nid oedd
Yr olwg ddwys ddifrifol hon ond un
O gant cyffelyb iddi neithiwr yn
Y ddinas hon, a channoedd yn y wlad :—
Nos ydoedd nad anghofir m'oni byth.

*Gwyl.* Na wneir, na wneir,—fe'i cofir yn y nef,
Ac ar y ddaear hefyd ; fe'i coffeir
Y diwrnod yr agorir llyfrau 'r farn,
Y diwrnod y gwobrwya 'r Barnwr Mawr
Ei dystion ffyddlon tros Ei enw a'i air,
A choron bywyd a gogoniant ; ac
Y telir cystudd i'w cystuddwyr hwynt,—
Y dydd derbynia Awdwyr actau trais
Eu cyfiawn daledigaeth am eu gwaith
Yn cau 'r geneuau agorasai Duw
I efengylu cenadwri hedd,
A bywyd i golledig euog fyd.
Do, cauwyd y geneuau hyny, fu
Yn tywallt gwin ac olew, gras a hedd,
Bywyd a bendith ar eneidiau fyrdd ;
Fe'u cauwyd, ond ni chauwyd hwy ychwaith ;
Llefarant eto yn groewach ac yn uwch
Ar ol eu cau, nag y llefarent hwy
Erioed o'r blaen ; llais y distawrwydd hwn
Adseinia 'n gryf y'nghlustiau oesau ddel.
Bydd enwau 'r tystion ffyddlon byth yn fyw—

Digitized by Google

Yn fyw mewn coffadwriaeth a barhâ
Tra pery crefydd efengylaidd bur
Yn Mhrydain Fawr,—a hono bery tra
Parhao enw Prydain Fawr ei hun.
Y cenhedlaethau ddeuant eto i'r byd
Gyfodant i'w bendithio,—cedwir Dydd
Bartholomeus, yn ddydd nodedig mwy,
Hyd ddiwedd dyddiau amser yn ein gwlad:
Y'mhen y dau can' mlynedd eto i dd'od,
Adseinir hwyrach udgorn mawr a chryf
Yr adgyfodiad cyntaf uwch eu bedd;
Eu henwau a'u gweithredoedd adgoffeir,
A bywyd a dylanwad newydd dardd
Oddiwrthynt allan yn llifeiriant trwy 'r
Eglwysi efengylaidd y'mhob man:
Ac aur, ac arian, filoedd lawer iawn
A ddygir yn aberthau gwirfodd ar
Yr allor at wasanaeth crefydd, fel
Rhyw deyrnged i'r ffyddloniaid hyn, ac yn
Aberthau mawl a diolch am y gras
A roddwyd iddynt, ac a'u dygodd trwy
Y tanllyd brawf; ac â'r aberthau hyn
Cyfodir temlau newydd, luaws mawr,
Yn demlau i bregethu 'r gair, y ffydd,
A'r egwyddorion y maent hwy yn awr
Yn dioddef er eu mwyn heb lwfrhau.
Bydd rhywrai, gallem feddwl, ar y pryd,
Yn digio 'n ddirfawr, yn cythruddo 'n drwm

Digitized by Google

O herwydd hyn, gan y chwenychynt hwy
I'r hanes gael ei gladdu 'n nyfnder bedd
O ebargofiant bythol, gan y bydd
Coffâu ffyddlondeb y dioddefwyr hyn
Yn bur ofidus i'w teimladau, fel
Y rhai ardystient eu bod hwy yn llawn
Gydsynio â phob peth, ac â phob gair
Yn ol ei ramadegol ystyr ef—
Yn credu nad oes dim o fewn i Lyfr
Gweddiau 'u Heglwys yn milwrio 'n groes
I dystiolaethau yr Ysgrythyr Lân,
Ac wedi hyny gwynant yn barhaus
Fod llawer iawn o bethau ynddo 'n flin
A phoenus i'w meddyliau, er hyn oll
Yn dewis aros yn y cyflwr hwn
Yn hytrach, *er mwyn rhywbeth*, na 'mryddhau
O'r rhwymau hyn, drwy wneuthur yr un modd
Ac gwnaeth y cannoedd Gweinidogion ddoe,—
——————— dyfalu 'r wyf
Y dichon y digwydda 'r peth fel hyna.

*Un o'r Cyfeillion.* Beth ydych yn ei feddwl a wna y Gweinidogion a fwriwyd allan wedi hyn?

*Gwyl.* Myn'd allan megis Abraham y maent
Heb wybod i ba le y maent yn myn'd,
Na beth a ddaw o honynt, na pha beth
A wnant, nis gwyddant ddim; tywyllwch sy
Yn amgylchynu 'u llwybrau, ac y maent

Digitized by Google

Mewn cyfyng-gynghor, eto, nid mewn ing—
Yn cael eu bwrw 'i lawr, ond heb eu lladd—
Ant allan gan ymddiried yn eu Duw,
Gan wybod na waradwyddwyd neb erioed
A roddodd ei ymddiried ynddo ef,—
Gan wybod mai gwell dioddef, os rhaid yw,
Angen, tylodi, erlid, gwg y byd,
A gwg yr awdurdodau gwladol, na
Mwynhau esmwythder, llawnder, urddas, parch
A gwenau pawb o'u hamgylch ar y draul
O wneuthur aberth o gydwybod dda,
Trwy droi yn fradwyr i'r athrawiaeth a
Bregethant yn y pwlpud heddyw, ac
Y foru athrawiaeth arall hollol groes
I hono, uwch ben bedd annuwiol ddyn:
Pregethu hen athrawiaeth nefol Crist
A'i Apostolion sanctaidd, am yr ail—
Yr enedigaeth newydd hono o waith
Yr Yspryd Glân—y cyfnewidiad mawr,
Ysbrydol, mewnol sydd yn rhaid ei wneyd
Ar galon y pechadur cyn y gall
Ef wel'd ac etifeddu teyrnas nef:
Ac yna disgyn o'r areithfa i lawr,
A myned at yr allor rhag y blaen
A datgan yno fod y baban a
Fedyddir, wed'yn, trwy yr ordinhâd
Yn ailenedig, ac yn blentyn Duw!
A gosod allor ac areithfa 'r deml

Digitized by Google

I ymladd felly 'r naill y'ngwrth y llall;
Un i ddyweyd ïe, ïe, a'r llall nagê—
Y bregeth yn cyd-dystio â'r Dwyfol Air,
Athrawiaeth y Gwasanaeth Bedydd, o'r
Tu arall yn gwrthdystio, ac yn rhoi
Y celwydd noeth i'r bregeth yn y fan,
A hyny oedd raid ei wneyd yn ol yr *Act*
A basiwyd yn ein Senedd; neu, rhaid oedd
Troi allan, fel y gwnaeth y lluaws ddoe.
Ac felly, rhaid i bob gweinidog sydd
Yn perthyn i'r sefydliad gwladol hwn—
A fyno fwyta bara ar ei fwrdd,
Beth bynag fyddo ei farn a'i gredo ef—
Rhaid iddo ef weinyddu yn ol y llyfr,
Heb ŵyro trwch llythyren i'r naill du.
Rhaid iddo ddatgan bod y bedydd dwfr
Yn adgenhedlu'r baban, yn ei wneyd
Yn blentyn Duw. Rhaid iddo uwch ben y claf
Arddatgan ddarfod iddo dderbyn hawl
I faddeu ei bechodau, a'i ryddhau
Oddiwrthynt oll; ac hefyd wneuthur hyn
Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân.
Rhaid iddo fyn'd drachefn at y bedd,
Ar adeg claddedigaeth drist y dyn—
Y gwaethaf, annuwiolaf, yn y wlad—
A thraethu moliant i'r Goruchaf am
Gymeryd ato ei hun yr anwyl frawd
Hwn, a'i ryddhau oddiwrth y baich o gnawd;

Digitized by Google

A thraethu ei ddiogel obaith gwir
Am adgyfodiad dedwydd iddo o'r bedd.
Rhaid iddo wneyd a dyweyd y pethau hyn,
A llawer yn ychwaneg hefyd o'r
Cyffelyb bethau, er y bydd o'i fewn
Gydwybod yn gwrthdystio i bob gair
Lefaro ei enau! Rhaid yw gwneyd hyn oll
Os dewis aros yn yr Eglwys wna.

O! chwi y ffyddlon dystion tros y gwir,
Ewch rhagoch hyd y diwedd heb lesghau:
Safasoch yn y dydd blinderus drwg
Fel milwyr dewrion, gwrol, ar y maes;
Ac wedi gorphen pob peth sefyll, a
Gorphwyso'n dawel gaffoch, a mwynhau
Cyfoethog ran o wynfyd ac o hedd.
Ewch, ewch i'ch ystafelloedd enyd fach,
A llechwch yno, nes êl heibio'r llid.
Ti, Baxter, danllyd, cilia draw o sŵn
Helyntion byd cynhyrfus, ac o dwrf
Dadleuon poethion; a dyrchafa 'th fryd
Dy feddwl, a'th fyfyrdod craffus ar
Drag'wyddol wynfyd a "Gorphwysfa'r Saint."
Gorphwysa d'enaid blin lluddedig mewn
Myfyrdod arni, hyd nes elo ef
I'w llawn feddiannu, ac i'w llawn fwynhau.
A thithau Bates, ar ol i'th dafod coeth
I gael ei rwymo â gefynau'r *Act*
Ddrygionus hono, fel na chaiff yn awr

Digitized by Google

Lefaru geiriau'r bywyd megys gynt;
Dos, dring i fyny, i uchel dawel fryn—
Bryn Gweledigaeth, i gael golwg ar
Ogoniant mawr y Ganaan nefol, fel
Y dringodd Moses wrth orchymyn Duw
I gopa Nebo i weled Canaan wlad;
Ac ysgrifena'r weledigaeth er
Dyddanwch pererinion t'lodion, sy'n
Ymdeithio trwy y blin anialwch mawr.
A thithau Howe fawreddig wyt erioed
Debycach i ryw nefol fôd nag i
Ddaearol, ddynol ansawd; fel o'r braidd
Na thybiem i ddaeargryn ar ryw bryd
I ddigwydd yn y nef, ac agor hollt
Yn llawrle Gwynfa, ac i seraff pur
Ddigwyddo cwympo trwy yr hollt i lawr
I'r ddaear hon; ac iddo wed'yn droi
I wneyd ei babell yn dy gorff; a'th fod,
Gan hyny, 'n fwy o seraff nag o ddyn.
Wel, hwylia edyn dy ddarfelydd cryf,
Eheda'n awyr dy gynhenid fro,
Sef bro *Dedwyddwch y Cyfiawnion* fry;
Ac ysgrifena 'i hanes hi, a dod
Ddisgrifiad o'i gogoniant mawr didranc.
A thithau Bunyan, etholedig fab
Athrylith eneiniedig, heb ei bath,
Na ddichon carchar na daeardŷ brwnt
Ei hatal i ehedeg a mwynhau

Digitized by Google

Perffeithlawn ryddid,—brysia, dianc, dos,
Ac ymdorheuled d'enaid dedwydd ar
Lechweddau *y mynyddoedd hyfryd* draw ;
Ac ysgrifena ini hanes *taith*
Dy hoff *bererin* trwy 'r anialwch mawr
*O Ddinas Distryw* i'r Gaersalem fry.
  A thithau Owen fawr, Lefiathan cryf,
Tywysog Duwinyddiaeth, un nad oes
Derfynau ar adnoddau 'th feddwl craff,
Nac ar dy lafur a'th dreiddgarwch dwfn,—
Yr hwn a chwiliaist ac a deithiaist trwy
Galon yr Ysgrythyrau, a chalon dyn.
Y mwyaf un o feibion eglwys Crist
O ddyddiau Paul hyd yma, 'n ddiau wyt—
Yr hwn y bydd dy weithiau mawrion, aml,
Yn gofgolofnau uchel, bythol am
Dy ddirfawr lafur i was'naethu d'oes
A'r oesau oll—tydi a brofaist fod
Yn ddichonadwy i Gristion i ymwneyd,
Ymyraeth â llywod-ddysg, ac â holl
Achosion pwysig gwladwriaethau 'r byd,
Heb golli ysprydolrwydd meddwl, nac
Ymlygru ac ymgnawdoli, canys pwy
Er gwneuthur hyny, dreiliodd fywyd mwy
Ysprydoledig, nefol, na thydi ?
Gad yr achosion hyny bellach, a
Chyssegra 'th feddwl a'th alluoedd oll
I sefyll ar *ogoniant person Crist.*



Digitized by Google

[18] A thithau Goodwin efengylaidd wyt
Dywysen aeddfed iawn i'r nef er's talm;
Ymlecha 'n dawel yn mynwesau hoff
Dy braidd yn *Fetter Lane*, nes delo 'r awr
I'th wysio adre' i'r digonolrwydd o
Lawenydd a digrifwch, sydd ger bron
Dy Dduw a'th Brynwr yn dragywydd mwy.
  Yr amser ballai imi enwi 'r oll
O honoch dystion ffyddlon, cywir, ond
Y mae eich enwau oll i gyd dan sêl
Vn 'sgrifenedig ar y memrwn fry,
Eich gwobr a fydd mawr y dydd a ddaw.
Tangnefedd arnoch, bendigedig fo—
A bendigedig fydd eich enwau, ac
Eich coffadwriaeth yn yr eglwys mwy,
Hyd ddyddiau ola'r byd,—Amen, Amen.

DIWEDD RHAN IV.

Digitized by Google

# ATTODIAD.

---

*Nodyn* 1, *tudalen* 15.

Ni ellir cyfiawnhau llawer o ymddygiadau y Presbyteriaid a'u gweinidogion yn ystod tymmor y werinlywodraeth, ac ar achlysur adferiad Siarl II. Y mae cyfiawnder a gwirionedd yn galw am yr anghymeradwyaeth cryfaf o'u hyspryd a'u gweithredoedd mewn amryw bethau. Dywed y Parch. R. W. Dale, M.A., *Birmingham*, yn ei ddarlith, "*Churchmen and Dissenters*," am y tymmor hwn fel hyn: "Yr oedd y blaid Bresbyteraidd yn ddigon cref, nid yn unig i sefydlu eu ffurf eu hunain o lywodraeth eglwysig, er fod Cromwell, a llawer o brif swyddogion ei fyddin, a'r nifer fwyaf o'i filwyr, yn Annibynwyr, ond yn ddigon cref hefyd i wrthod gwrando ar gwynion nifer o bobl yma a thraw yn y wlad, oeddynt yn galw am gydoddefiad mewn crefydd. Gwaharddwyd defnyddio y "Llyfr Gweddi" yn yr Eglwysydd, a gwnaed ei arfer gartref yn y teulu yn drosedd—yn drosedd i'w gospi â dirwy o £5 y waith gyntaf; £10 am yr ail; a blwyddyn o garchar am y trydydd. Gyda golwg ar y weithred draws a gorthrymus hon, pa esgusodion bynag a wneler trosti, nid oes genyf ond yr adgasedd mwyaf tuag ati. Dylasai y dynion oeddynt wedi dyoddef y fath lymder eu hunain, a thros gyhyd o amser, oddiwrth drawslywiaeth Eglwysyddol, ymgadw yn ofalus rhag cyflawni y fath drawster â hwn. Awgryma Dr. Short (Esgob Llanelwy), yn ei fraslun o hanes-

Digitized by Google

yddiaeth Eglwys Loegr, bod y gwasanaeth Esgobyddol wedi ei wahardd oddiar resymau gwladyddol—nad ellid ei oddef, o herwydd na feiddiasai y llywodraeth adael meddyliau y bobl dan ddylanwad y fath beiriant nerthol yn ffafr y teulu brenhinol, gan na wyddid beth fuasai yr effeithiau arnynt pe cawsai ei oddef. Gall hyn fod yn rhyw reswm pa ham y goddefodd Cromwell a'r Annibynwyr, pleidwyr penderfynol rhyddid, y camwri gorthrymus hwn, er na all unrhyw resymau gwladyddol—hyd yn nod diogelu y llywodraeth ac attal chwildroad—gyfreithloni trawsymyriad o'r fath hwn â rhyddid y bobl. Ond am y blaid Bresbyteraidd, yr hon oedd mewn awdurdod pan basiwyd yr Actau hyn, nid yw yr eglurhad uchod o un gwerth. Nid ymfoddlonent hwy ar ddiddymu Gwasanaeth Eglwys Loegr, ymdrechent yn galed i lethu Annibyniaeth hefyd. Ymdrechodd yr Annibynwyr yn egniol am hawliau cyfartal, yn Nghymanfa y Duwinyddion, ac yn y Pwyllgor Seneddol, ond yn ofer. Gwrthododd y Presbyteriaid eu cydnabod yn y sefydliad gwladol, a mynent attal ffurfiad Eglwysi Annibynol mewn un modd. Dadleuent os caniateid y fath oddefiad, y buasai yn cynnyrchu dadleuon, ymrysonau a rhaniadau yn yr Eglwys. A phan fyntumiai'r Annibynwyr nad oedd unffurfiaeth yn hanfodol i undeb a heddwch, ac na ddylai gael ei wasgu yn mhellach nag yr oedd barnau Cristionogion yn goddef, atebai y duwinyddion Presbyteraidd, bod yn ymddangos iddynt hwy bod yr Annibynwyr, nid yn unig yn ceisio rhyddid cydwybod iddynt hwy eu hunain, ond i bob dyn yn ddiwahaniaeth, ac mai nid hyny oedd amcan y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol. Ar hyn atebodd gweinidog Annibynol enwog fel y canlyn:—'Tra y tybia dynion nad oes un ffordd i heddwch ond trwy ddirdreisio pawb i fod o'r un feddwl a barn—tra y golygant fod cleddyf yr awdurdod wladol yn ordinhad Duw i benderfynu dadleuon duwinyddol, ac y rhaid dirwyo a charcharu yr anhyblyg, tra meddyliant nad oes un cyfrwng rhwng unffurfiaeth

Digitized by Google

orfodol ac annhrefn a therfysg cyffredinol—tra y ffyna syniadau o'r fath hyn, rhaid y darostyngir cydwybodau dynion i gaethiwed poenus, yr attelir rhyddrediad y gwirionedd, ac yr aflonyddir heddwch y byd Cristionogol.' Fel yna y dadleuai Jeremia Burroughs, ond yn hollol ddieffaith." Am y gweinidogion a drodd allan, dywed Mr. Dale drachefn:—"Safai dwy fil yn ddiysgog yn yr olwg ar d'lodi ac erledigaeth. Barnai y ddwy fil hyn yn well iddynt oddef eu hymddifadu o'r cyfleusdra i bregethu yr efengyl o gwbl, na gwyro trwch blewyn oddiar linell union cywirdeb a gonestrwydd er diogelu y meddiant o'r pwlpudau. Anrhydedd, meddwn, anrhydedd anfarwol fo i'w coffadwriaethau! Er eu holl ddiffygion a'u camsyniadau, y mae y weithred hon o hunanymwadiad, yn gwisgo eu henwau ag urddas rhagorach nag enwau y buddugoliaethwyr yn Cressy neu Poictiers, Trafalgar neu Waterloo: y mae yn adnewyddu ein ffydd yn mawreddigrwydd a nerth yr enaid dynol: y mae yn un o'r gwarogaethau ardderchocaf a dalwyd erioed i gydwybod. Y mae yn orchest y bydd i'w choffadwriaeth annog a nerthu dynion eto i gyflawni gweithredoedd a synant y byd, a galluogi merthyron y dyfodol i orfoleddu mewn gorthrymderau.

"Dadleuir bod eu bwriad allan yn ad-daliad am y trawsder y buasent hwy eu hunain yn euog o hono. Yr wyf yn ateb, nad ydyw hyd yn nod erlidwyr bob amser yn ddigon cydwybodol i wrthod dyweyd celwydd, mewn trefn i ochelyd erledigaeth arnynt eu hunain. Ond dylid cofio bod y clerigwyr Esgobyddol wedi eu troi allan mewn amser pan oedd y wlad y'nghanol terfysgoedd rhyfel cartrefol: bwriwyd y Puritaniaid, allan pan oedd y deddfau a'r hen sefydliadau wedi eu diogel adferu—pan nad oedd un perygl i'w ofni oddiwrth y Presbyteriaid, os ymddygid yn gyfiawn tuag atynt. Gwyddid bod yr Esgobaethwyr bob un yn elynion i'r llywodraeth oedd yn eu bwrw hwy allan, ac yn awyddus am ei dymchwelyd. Nid oedd y Presbyteriaid erioed wedi cymmeradwyo dienyddiad Siarl ac

Digitized by Google

arlywiaeth Cromwell. Cynnorthwyasant yn galonog i ddwyn y brenin adref, ac yr oeddynt yn mysg y pleidwyr ffyddlonaf i'r orsedd. Ordeiniodd y senedd hefyd fod y bumed ran o'u cyllid blaenorol i gael ei roddi at gynnaliaeth y clerigwyr Esgobaethol a drowyd allan; ond nid yn unig ni wnaeth llywodraeth Siarl II, y gyfryw ddarpariaeth ar gyfer y ddwy fil Anghydffurfwyr, ond pennodasant ddydd eu troad allan pan oedd eu blwydd-dâl ar ddyfod yn ddyledus iddynt, mewn trefn i'w hysbeilio o'r hyn oedd yn gyfiawn iddynt dderbyn am lafur wedi ei gyflawni: ac yn olaf, tystiolaetha Baxter ei hun, yr hwn oedd yn wrthwynebwr cyhoeddus i'r amryw bwyllgorau dan y werinlywodraeth, a sefydlasid i brofi gweinidogion, ac i atafaelu bywioliaethau rhai annheilwng—'Bod yn yr holl ranau o'r wlad, adnabyddus iddo ef, chwech o bob saith o leiaf, (os nad llawer ychwaneg) o'r rhai a fwriwyd allan o'u bywioliaethau Eglwysig, wedi eu profi ar dystiolaethau tystion credadwy, yn euog o feddwdod a drygfoes o bob math, ac i'r rhai oedd yn weinidogion teilwng a duwiol gael eu distewi oblegid y rhyfel yn unig, neu eu hopiniynau gwladyddol: ac nad oedd eu nifer ond ychydig iawn mewn cymhariaeth;' tra y cafodd y ddwy fil eu bwrw allan—nid am eu drygfoesau—nid am nad oeddynt yn meddu cymmwysderau i'w swydd—ond yn unig am y gwrthodent droi yn anffyddlon i argyhoeddiad eu cydwybodau."

Cromwell druan oedd y bwch y cyfrifwyd y trawster o fwrw yr Esgobaethwyr allan o'u bywioliaethau ar ei ben gan laweroedd, naill ai mewn anwybodaeth neu o falais; pan mewn gwirionedd, yn ol tystiolaeth amryw glerigwyr ac esgobion, efe oedd y rhyddaf oddiwrth y camwedd o bawb o'r gwŷr oedd mewn awdurdod ar y pryd. Fel hyn y tystia hanesydd nad yw mewn un modd yn bleidiol i Cromwell: "Yn amser Cromwell, yr hwn oedd o'r blaid Annibynol, cafodd rhai o'r blaid hono fywioliaethau Eglwysig, ond pur ychydig yr wyf yn credu

Digitized by Google

o'r rhai nad oeddynt wedi derbyn ordeiniad Esgobyddol neu Bresbyteraidd. Parhaodd yr hawl dadogol bersonol i gyflwyno bywioliaethau, a hawl degymau, yn ddigyfnewid, er y bygythid yr hawliau hyn yn fynych gan y blaid fwyaf poethlyd. Ar yr un pryd, er bod y blaid Esgobyddol ynghyda'r Pabyddion wedi eu cau allan gan y trefniant o lywodraeth o dan yr hwn y proffesai Cromwell ddal ei awdurdod, cawsant bob goddefiad i ymarfer â'u cyflawniadau crefyddol. Unwaith, yn wir, pan ar ddatguddiad cydfradwriaeth y blaid frenhinol yn 1655, cyhoeddodd Cromwell ddarbodaeth lem, yn gwahardd i bob gweinidog oedd wedi ei fwrw allan, neu Frodawr o Goleg, i weinyddu fel capelydd teuluaidd, nac fel ysgolfeistr. Ond cysylltid â hono addewid o gymaint o dynerwch ag a fyddai yn gyson â diogelwch y wlad, tuagat bob un o'r cyfryw bersonau a roddent brawf o'u ffyddlondeb i'r llywodraeth; ac mewn ffaith, mor bell oedd y ddarbodaeth hon o gael ei gosod mewn gweithrediad manwl, fel y cedwid *Conventiclau* Esgobaethol yn gyhoedd agored yn Llundain. Yr oedd Cromwell mewn gwirionedd o dueddfryd rhyddgarol, ac ni bu ar y cyfan, hwyrach, dymmor mor hirbarhaol yn yr hwn y dyoddefodd y Pabyddion eu hunain cyn lleied o aflonyddwch a than ei weinyddiaeth ef. Y mae yn eithaf adnabyddus iddo ganiatâu i'r Iuddewon ymsefydlu yn Lloegr wedi eu cauedigaeth allan am ysbaid tri chan' mlynedd, a hyny er gwaethaf gwrthwynebiad Eglwyswyr a chyfreithwyr rhagfarnllyd."—*Hallam's* "*Constitutional History of England,*" *Vol. II., pp.* 428-29.

Ychwanega yr hanesydd mewn nodyn ar odre y ddalen (428) y sylw canlynol:—"Hyd yn nod yn Rhydychain, arferai tua 300 o Esgobaethwyr ymgynnull bob sabboth gyda chydsyniad Dr. Owen, Deon Eglwys Crist."—*Orme's 'Life of Owen,' p.* 188. "Y mae rywbeth yn haerllug mewn awdwyr eglwysyddol i achwyn fel y gwnant yn awr ac eilwaith o herwydd yr erledigaeth a ddioddefent yn y cyfnod hwn, pan gofiom beth oedd

Digitized by Google

ymddygiad yr esgobion yn flaenorol, a beth a fu wedi hyny. Nid wyf yn gallu gwybod ddarfod i *un* aelod o Eglwys Loegr gael ei garcharu dan y werinlywodraeth, oddigerth ar ryw achos gwladyddol; sicr yw nad oedd y carcharau yn llawnion o honynt."—*Ib.*

Dygai Esgob Kenett y dystiolaeth a ganlyn ar yr achos dan sylw:—"Y mae yn sicr bod yr Amddiffynydd (Cromwell) yn bleidiol i ryddid a goddefiad i'r graddau helaethaf i bob plaid, mor belled ag y byddai yn gyson â heddwch a diogelwch ei berson a'i lywodraeth; ac yr oedd hyd yn nod ei ragfarn yn erbyn y blaid Esgobyddol yn fwy am eu bod yn Freningarwyr, *(Royalists)* nag am eu bod yn aelodau o'r hen Eglwys ddaionus."—*Neal's "History of the Puritans," Vol. IV., p.* 125.

Yn hanes bywyd Dr. Owen, gan Dr. A. Thompson, o *Edinburgh*, (Presbyteriad,) cawn y dystioiaeth hon am Cromwell: "Ar y 27ain o Medi, 1658, noson y dymhestl fwyaf ofnadwy a ysgydwodd yr ynys hon erioed, a blwydd-ddydd dwy o'i fuddugoliaethau penaf, ymadawodd Oliver Cromwell â'r byd hwn. Nid yw yn perthyn i ni ddysgrifio nodwedd y dyn rhyfeddol hwn, ond dygodd ein hymdrafodaeth â bywyd Owen ni i gyffyrddiad â'i hanes yn aml; ac ni ddarfu i ni geisio celu ein cred yn ei ddiffuantrwydd crefyddol a'n hedmygedd o'i fawredd. Chwydded dynion ei golliadau faint a fynont, ni ellir myntumio y nodwedd o ragrithiwr a briodolid iddo yn bur gyffredin gan y naill hanesydd ar ol y llall. Rhaid i'r rhai a wrthodant iddo gywirdeb a diffuantrwydd crefyddol, egluro i ni os gallant, pa fodd y darfu i'w ragrith ddianc sylw y dynion mwyaf crefyddol a chraff yn ei amser ef, y rhai, megys Owen, a gawsant y manteision goreu i'w adnabod? Y rhai a'i cyhuddant o fod yn orthrymwr, sydd raid iddynt ddangos pa fodd y bu i Loegr dan ei lywyddiaeth ef fwynhau graddau helaethach o ryddid nag a fwynhaodd erioed o'r blaen? Y rhai na allan weled ynddo ddim o elfenau gwladgarwch haelfrydig, ac ond

Digitized by Google

ychydig hyd yn nod o'r gwladweinydd goleuedig, a ddylent gysoni hyn â'r ffaith ddarfod iddo ddwyn allan adnoddau y deyrnas i raddau llawer helaethach nag y gwnaethai yr un penadur o'i flaen, gan ddyrchafu ei wlad i raddoliaeth awdurdod o'r radd uchaf yn Ewrop, fel y daeth ei enw yn ddychryn penaduriaid gorthrymus, ac yn darian i drueiniaid a appelient ato am nodded, fel y Vandois erlidiedig yn nyffrynoedd Piedmont."—"*Life of Dr. Owen,*" *by A. Thompson, D.D., prefixed to Clark's Edition of his whole works, Vol., I., p.* lxxi. *Edinburgh.*

*Nodyn* 2, *tudalen* 27.

Y Puritaniaid.

*Nodyn* 3. *tudalen.* 33.

Ni bu crefydd a moesoldeb ymarferol erioed mor uchel yn Lloegr, fe allai, ag oeddynt yn amser Cromwell a'r werinlywodraeth; ac o'r tu arall, ni bu llygredigaeth a halogrwydd buchedd erioed yn fwy, os mor ofnadwy, ag ydoedd yn amser Siarl II. Yr oedd y llys yn domen o frynti. Dilynid esiampl y llys yn mhalasau y wlad—ymffrostid mewn gweithredoedd bryntion i'w hadrodd—cyd-ddawnsiai boneddigion a boneddigesau mewn ystad o noethder, ar achlysuron; ymdaenodd y llygredigaeth fel pla tros y wlad, a thrwy bob dosbarth, i raddau mwy neu lai—llwon a rhegfeydd, maswedd a thrythyllwch, oedd trefn y dydd, a defodau yr amser. Y mae yn hyfrydwch genym grybwyll, na bu llys Prydain erioed yn burach nag ydyw yn awr dan lywyddiaeth ein brenhines Victoria.

*Nodyn* 4, *tudalen* 33.

Torodd pla ofnadwy allan yn Llundain yn 1665, yr hwn a ysgubai ddynion ymaith wrth y miloedd, megys â chorwynt. Ffodd Siarl a'i lys i Rydychain mewn dychryn—gadawodd

Digitized by Google

lluoedd o weinidogion yr eglwysi eu praidd, a diangasant ymaith rhag ofn y pla; a chymerodd y gweinidogion annghydffurfiol eu lleoedd, gan bregethu yn yr eglwysi, ac ymweled â'r cleifion. Cynhaliwyd y Senedd y flwyddyn hono yn Rhydychain, a phasiodd y gyfraith a elwir "*Act* y Pum' Milldir," yr hon a waharddai y gweinidogion anghydffurfiol i drigo yn nes nag o fewn pum' milldir i unrhyw ddinas neu fwrdeisdref a anfonai aelod i'r Senedd, nac o fewn llai na phum' milldir i unrhyw le y buasent yn gweinidogaethu ynddo o'r blaen, oni chymerent lw, yr hwn y gwyddai eu herlidwyr yn dda na allasai un annghydffurfiwr ei gymeryd; am yr hwn y dywedai Iarll Southampton yn ei le yn Nhŷ yr Arglwyddi, na allasai un dyn gonest ei gymeryd. Yn fuan drachefn, ar sawdl y pla, torodd tân ofnadwy allan yn Llundain, yr hwn a losgodd ran fawr o'r ddinas, a llawer iawn o'r Eglwysi. Dychrynodd ac arafodd y digwyddiad olaf hwn gryn lawer ar gynddaredd yr uchel-Eglwyswyr erlidgar, a chafodd yr Annghydffurfwyr ychydig seibiant.

*Nodyn* 5, *tudalen* 35.

Digwyddodd ystorm ofnadwy o wynt ar y noson y bu farw Oliver Cromwell.

*Nodyn* 6, *tudalen* 38.

Thomas Carlisle.

*Nodyn* 7, *tudalen* 39.

Esaiah xiv. 5, 6, 7.

*Nodyn* 8, *tudalen* 40.

Sheldon, Morley, a Gunning oedd y duwinyddion a gymerasant y brif oruchwyliaeth yn y gwaith o ddwyn ein "Llyfr Gweddi Gyffredin" i'w ffurf bresenol. Am Sheldon y mae

Digitized by Google

genym y dystiolaeth hon. 'Nid ymddengys bod ganddo deimlad difrifol am grefydd, os dim oll; siaradai am dani yn gyffredin fel peiriant i lywodraeth a gwladlywiaeth. Pan ddywedodd y Prifystafellydd Manchester wrth y brenin tra yr oedd '*Act* yr Unffurfiaeth' dan ystyriaeth, bod arno ofn fod yr ammodau mor gaethion fel y gwrthodai llawer o weinidogion yr eglwys gytuno â hwynt; attebai Sheldon, 'Y mae arnaf ofn y gwnant;' ac ychwanegai, 'Yn awr yr ydym yn gwybod beth yw eu syniadau —nyni a'u gwnawn hwy oll yn gnafiaid os cydymffurfiant.' Pan sylwodd Dr. Allen wrtho ar ol pasio'r *Act*, ei bod yn resyn gwneyd y drws mor gyfyng; attebai, 'Nac ydyw, resyn yn y byd. Pe buasem yn meddwl y buasai cynnifer o honynt yn cydymffurfio, buasem yn ei wneyd yn gyfyngach.' Dywedir am Gunning nad oedd hwnw yn gofalu dim beth a wnelai, ond yn unig am ddwyn Pabyddiaeth i mewn; ac am Morley, ei fod yn ddyn gwylltnaws ei dymer, ac ystyfnig ei ysbryd; mai efe oedd prif drefnydd yr holl drafodaeth, ac na fynai oddef dim a ymddangosai yn debyg i dynerwch a chymedrolder. Y cyfryw y mae yn anmhosibl ei wadu, oedd y gwyr 'cariadus a pharchedig,' a gymerasant y brif ran yn y gwaith o grynhoi a sefydlu ein 'Llyfr Gweddi' yn ei drefn bresenol. Ai ni allem mor resymol ddisgwyl 'grawnwin ar ddrain, neu ffigys ar ysgall,' a disgwyl cael llyfr cymmwys i'r dyben o feithrin heddwch ac undeb, o ddwlaw dynion o'r fath ysbryd taeog ag oedd y dynion hyn?"—"*Common Prayer and Common Sense,*" *by the Rev. T. Davies, M.A., Incumbent of Roundhay, Yorkshire.*

*Nodyn* 9, *tudalen* 46.

Gwnaeth Hyde (Arglwydd Clarendon wedi hyny) yr addefiad hwn am wasanaeth Dr. Owen fel Is-ganghellydd y Brif Athrofa yn Rhydychain, er ei holl ragfarn yn erbyn y Puritaniaid.

Digitized by Google

*Nodyn* 10, *tudalen* 47.

*Life of Dr. Owen, prefixed to Clark's Edition of his Complete Works, in* 24 *vols., page* 80.

*Nodyn* 11, *tudalen* 49.

"Ar y 21ain o Dachwedd, 1661, darllenwyd llythyr y brenin yn Nhŷ'r Arglwyddi, yn awdurdodi *Convocation* i wneyd cyfnewidiadau angenrheidiol yn y 'Llyfr Gweddi;' ac yn yr ysbaid byr o *un mis yr oedd y cwbl wedi ei orphen a'i lawnodi,* yr hyn sydd yn cadarnhau y fost a wnaeth Sheldon, bod y mater wedi ei drefnu a'i benderfynu cyn galw y *Convocation.* Hwn ydyw yr arolygiad diweddaf a wnaed ar y 'Llyfr Gweddi Gyffredin.' Gwnaed chwe' chant o gyfnewidiadau, ond prin y mae yn angenrheidiol crybwyll bod dim oll wedi ei wneyd er heddychloni y Presbyteriaid; ond i'r gwrthwyneb, nid yn unig ni roddwyd dim i fyny er eu mwyn, ond dododd Sheldon a'i blaid bethau i mewn y gwyddent yn dda a barent i'r llyfr fod yn fwy gwrthwynebus fyth iddynt nag oedd o'r blaen. Eu gwaith yn trafod yr Apocrypha ydyw'r engraifft fwyaf nodedig o'r yspryd drygionus a Sismaticaidd hwn. Gwrthwynebai y Presbyteriaid yn gryf iawn i ddarlleniad llithiau o lyfrau yr Apocrypha, a deisebent ar fod rhai allan o'r llyfrau Canonaidd i gael eu trefnu yn eu lle. Cafodd y cais cymmedrol hwn nid yn unig ei wrthod, ond cynnygiwyd yn y *Convocation,* fod i ychwaneg o ranau detholedig o lyfrau yr Apocrypha gael eu dodi i mewn; megys *Stori Bel a'r Ddraig* a *Stori Susana.* Rhydd Andrew Marvel yr hanesyn a ganlyn am yr amgylchiad:—'Wedi hir ymdynu yn y *Convocation* ar y mater, daeth Doctor dysgedig allan, â'i wyneb yn fyw o lawenydd, a gwaeddai yn orfoleddus, 'Yr ydym wedi cario'r dydd o ochr Bel a'r Ddraig!'' Achosodd un cyfnewidiad a wnaed lawer o gellweiriaeth halogedig, a dynoda yr yspryd gwamal oedd yn ffynu trwy holl ystod

Digitized by Google

teyrnasiad Siarl II. Rhoddwyd gweddi tros uchel-lys y Senedd i mewn yn y llyfr y tro hwn, yn yr hon y dynodir y brenin fel 'ein duwiolaf frenin.' Rhoddodd yr ymadrodd hwn dramgwydd mawr i lawer; a rhaid y parai beth syndod i'r penadur a'i gyfeillion masweddol, y rhai a ofynent iddo yn fynych, beth a feddyliai y bobl yn mhob man am dano wrth glywed gweddio trosto yn y llanau, fel 'ein duwiolaf frenin?' Heblaw amlygiadau o'r yspryd Gwrth-buritanaidd, y mae ein 'Llyfr Gweddi' yn dangos arwyddion amlwg o'r brys mawr â'r hwn y gwthiwyd ef trwy y *Convocation.*"—"*The Church and Nonconformists of* 1662. *An account of the expulsion from the Church of England,*" *by the Rev. D. Mountfield, M. A., Incumbent of Oxon, Salop. London: Kent & Co.*, 52, *Paternoster Row.*

*Nodyn* 12, *tndalen* 54.

Am yr amgylchiadau hyn dywed y Parch. D. Mountfield, *Incumbent, Oxon,* fel hyn:—"Mewn trefn i barotoi y wlad i ymdawelu yn wyneb y mesur llym oedd ar gael ei ddwyn o flaen y senedd, gosodwyd dynion ar waith i godi rhith cydfradwriaethau mewn gwahanol siroedd; taenid chwedlau celwyddog bod y Presbyteriaid yn cynllwyn bradwriaeth. Aeth y brenin i Dŷ y Cyffredin, ac anogodd yr aelodau ffyddlon i gadw gwyliadwriaeth fanwl ar y dynion drygionus hyny oeddynt yn llafurio ddydd a nos i aflonyddu heddwch y wlad; ac yn y fan cyfododd Syr J. Pakington ac ereill, i gyffroi y Tŷ âg adroddiadau am gydfradwriaethau peryglus y Presbyteriaid yn Sir Gaerwrangon (*Gloucestershire*) a lleoedd ereill. Yr oedd y *Cavaliers* yn barod i gyflawni unrhyw farbareidd-dra; a'r siarad cyffredin yn mysg yr Eglwyswyr penaf oedd, 'Ni a fynwn gael *Act* a gyrhaedda bob Puritan yn y deyrnas; ac os bydd i rai o'r cnafiaid 'stwytho eu cydwybodau, a cheisio llechu yn yr Eglwys, ni a fynwn ammodau ereill." Yr oedd Clarendon yn

Digitized by Google

ddigon awyddus i'w boddloni, a than ei gyfarwyddyd ef y ffurfiwyd "Act yr Unffurfiaeth," yr hon a gyflawnodd eu dymuniadau bryntion yn rhy effeithiol.

*Nodyn* 13, *tudalen* 56.

Sylwedd "Act yr Unffurfiaeth" ydoedd y darbodiadau canlynol:—

I.—*Bod i bob un oedd yn dal gofal eneidiau* (cure of souls) *gael ei ail ordeinio gan Esgob.* (Yr oedd hyn yn beth newydd, medd Clarendon, canys yr oedd llawer yn yr Eglwys a ordeiniesid yn Holland a Ffrainc. Yr oedd llawer o'r Puritaniaid wedi eu hordeinio gan Henuriaid, a theimlent y gwrthwynebiad cryfaf i ail ordeiniad.)

II.—Gofynid i bob gweinidog ac ysgolfeistr i ddatgan "*Ei bod yn anghyfreithlon dan unrhyw amgylchiad i godi arfau yn erbyn y brenin:*" ac yn mhellach, yr oeddynt i ddatgan "*bod y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol yn llw anghyfreithlon, ac nad oedd y rhai a'i cymmerasant yn rhwym i'w gadw.*" Gwelai y Puritaniaid bod y datganiad cyntaf yn ddinystriol i'r hawl o hunan amddiffyniad, ac yn aberthiad o'r hyn oll oedd yn anwyl a gwerthfawr iddynt—eu meddiannau, eu rhyddid, a'u bywydau—i ewyllys y penadur. Ni allent ymwrthod â'r Cyngrair a'r Cyfammod Difrifol, canys er bod llawer o honynt heb ei gymeryd, a lluaws o honynt yn wrthwynebus iddo, etto cymeryd arnynt benderfynu tros bawb oeddynt wedi cymeryd y llŵ nad oeddynt yn rhwymedig i'w gadw, a ystyrient yn ormod o beth iddynt ei wneyd.

III.—Gofynid i bob clerigwr arddatgan *Ei fodd a'i gydsyniad* (assent and consent) *diffuant â'r cwbl a phobpeth cynnwysedig a archedig yn a chan y 'Llyfr Gweddi Cyffredin.'* Yr oedd yr Ymneillduwyr o bob enwad yn wrthwynebus i'r datganiad hw Parodd gyffro mawr,' medd Clarendon, 'a chydlefent ei fod

Digitized by Google

yn fagl i'w tripio i ddyweyd yr hyn oedd groes i'w cydwybodau." Yr oeddent yn foddlawn i *ddarllen* y 'Llyfr Gweddi,' ond arddatgan eu bodd a'u cydsyniad â phob peth cynnwysedig ynddo a fuasai yn arwyddo ei fod mor berffaith fel nad oedd eisieu na modd ei ddiwygio. Ni allasent wneyd y fath ddatganiad gyda chydwybod rydd, am unrhyw waith dynol; ïe, meddylient na allasai un dyn ddyweyd cymaint a hyny hyd yn nod am y cyfieithiad o'r Bibl yr hwn a gynnwysai rai gwallau a chamgymeriadau fel yr addefai pawb. Ystyriai y mwyafrif o'r Puritaniaid bod yr arddatganiad hwn yn rhwymo yr hwn a'i gwnelai i berffaith gymeradwyo pob llinell a phob gair yn y 'Llyfr Gweddi.' Ni ofynai yr un *Act* o Unffurfiaeth flaenorol y cyfryw arddatganiad; amcan y rhai a'i llunient, y mae yn amlwg, oedd poeni a gwasgu y Puritaniaid."—"*The Church and Nonconformists of* 1662," *p*. 30, 31, 32.

*Nodyn* 14, *tudalen* 57.

"Act y Pum' Milldir." Gwel nodiad 4.

*Nodyn* 15, *tudalen* 58.

Yr oedd rhai o'r esgobion yn bur wrthwynebus i'r *Act*, ac yn ofidus iawn o'i phegid; ond Sheldon a'i blaid a orfuant.

*Nodyn* 16, *tudalen* 61.

Geiriau Latimer ei hun ydyw y rhai hyn yn un o'i bregethau ar edifeirwch.

*Nodyn* 17, *tudalen* 66.

Er mor ddiegwyddor a chegfasweddol ydoedd Siarl II., yr oedd Sheldon a rhai ereill o'r esgobion yn fil gwaeth a mwy dideimlad nag efe; a llwyddasant i gael gan y brenin dori ei addewid i'r gweinidogion Presbyteraidd.

Digitized by Google

*Nodyn* 18, *tudalen* 82

Nid oedd Bunyan a'r Drd. Owen a Goodwin o nifer y 2000 a drowyd allan o'r eglwys, ond cawsant eu dystewi, neu eu hatal i bregethu. Ar adferiad Siarl II. rhoddodd Dr Goodwin Gadair Coleg Magdalen yn Rhydychen i fyny, ac enciliodd i Lundain; sefydlod deglwys Annibynol yn *Fetter Lane*, i'r hon y bu yn weinidog hyd ei farwolaeth; ac ymddengys iddo fwynhaü graddau o dawelwch yn nghanol yr helyntion blinion a ddilynasant "Act yr Unffurfiaeth." Yr oedd Dr. Owen yn gydweinidog â Caryl (awdwr anwog esponiad ar lyfr Job) ar eglwys Annibynol yn Llundain ar y pryd. Yr oedd gan Arglwydd Clarendon, er ei holl ragfarn a'i gulni uchel eglwysaidd, barch mawr i Dr. Owen. Dywedai wrtho fod yn rhaid iddo beidio pregethu, ond erfyniai arno ysgrifenu yn erbyn Pabyddiaeth, mewn atebiad i ymosodiad a wnaethai awdwr Jesuitaidd ar Brotestaniaeth. Gwrthododd y Dr. *addaw* peidio pregethu, ond ysgrifenodd draethawd enwog mewn atebiad i'r Jesuit.

---

13 NO 77

R. HUGHES AND SON, PRINTERS, WREXHAM.

Digitized by Google

# LLYFRAU CYMRAEG:

## Cyhoeddedig ac ar werth gan R. HUGHES & SON,

## WREXHAM.

Rhan 11.] **Y GYFRES GERDDOROL.** [*Pris* 1s.

Yn cynnwys:—"**Y Gantawd Fuddugol,**" ("*The Prize Cantata,*") Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon: geiriau yn Gymraeg a Saesoneg. Cyfansoddedig gan John Owen, (*Owain Alaw, Pencerdd.*)

Rhan 1.] **HANESION Y BEIBL.** [Pris 6c.

Yn cynnwys:—Tri chant o Ddygwyddiadau hynod yn Hanesyddiaeth y Beibl, gyda 300 o Ddarluniau. *Cyhoeddir ef mewn* 6 *o Rifynau.*

LLYFR 4ydd.] **Y GYFRES GYMRAEG.** [Pris Swllt.

Traethawd ar "*Y SABBOTH YN ETIFEDDIAETH DYN.*" Gan y diweddar Barch. J. Hughes, Liperpool. Gydag amryw ychwanegiadau, gan y Parch. J. Hughes, Everton.

YN BAROD.] **Y DYDD HWNW.** [*Pris* 6c.

Neu, y Dwy Fil Gweinidogion a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig ar Ddydd Gwyl Bartholomeus, Awst 24, 1662. Ar gyffelybrwydd Drama. Gan Gwilym Hiraethog.

Rhan 1.] **COFIANT** [*Pris* 1s.

A detholion o BREGETHAU y diweddar Barch. J. Hughes, Liverpool, gydag ARLUN cywir o'r Awdwr; dan olygiad y Parchn. J. Hughes, Everton, ac R. Edwards, Wyddgrug, gyda chynnorthwy y Parch. Henry Rees ac eraill. *Cyhoeddir ef mewn* 5 *neu* 6 *o Ranau Swllt.*

RHAN I.] **CYDYMAITH Y CERDDOR.** [PRIS 1s.

Yn cynnwys:—Tonau moesol a difyrus, at wasanaeth Teuluoedd, Cyfarfodydd Llenyddol, &c. *Argraffiad newydd gyda Chymdeithranau, o'r un faintioli a'r "Gyfres Gerddorol."*

Rhan 5.] **TAITH Y PERERIN** [*Pris* 1s.
**DARLUNIADOL**

Yn cynnwys, 110 o'r Darluniau mwyaf ysblenydd, gyda Nodiadau. Bydd hwn yr argraffiad darluniadol mwyaf gorwych a gyhoeddwyd erioed mewn un iaith,—costiodd yr arluniaeth a'r gerfluniaeth o hono £1,200. *Cyhoeddir ef mewn* 11 *neu* 12 *o Ranau Swllt.*

Rhan 7.] **Y BIBL DARLUNIADOL.** [*Pris* 1s.

Y TESTAMENT NEWYDD; yn cael ei egluro a sylwadau gwreiddiol, gan J. Kitto, D.D., F.S.A.; gyda lluaws o nodiadau ychwanegol, gan y Parch. O. Thomas, Llundain. Addurnir y gwaith ag oddeutu 200 o gerfluniau ysplenydd, a 2 *Steel Maps. Rhanau Swllt.*

Rhan 11 a 12.] **CORPH DUWINYDDIAETH.** [*Pris* 1s.

Yn cynnwys, eglurhad a phrawf o amrywiol ganghenau yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. Gan y diweddar Barchedig George Lewis, D.D. Gyda RHAGLITH helaeth ar hanes Duwinyddiaeth y gwahanol oesau, gan y Parch. L. Edwards, M.A. *Rhanau* 6c.

**GORPHENAF, 1862.**


Digitized by Google

## Y TABERNACL.

Y Tabernacl yn yr Anialwch: ei ddefodau a'i arferion, fel eu sefydlwyd yn amser Moses ac eu harferwyd o dan ei arolygiaeth; gyda sylwadau eglurhaol, &c., &c. Mae yr argraffiad hwn yn cynnwys 20 o Ddarluniau o'r gwahanol ddefodau a seremoniau, &c. *Mewn amlen*, 6c.

## CHWEDLAU NEU DDAMMEGION ÆSOP.

Wedi eu cyfieithu o'r argraffiadau gorau yn yr iaith Saesonig, a'u cyfaddasu i'r Gymraeg, gan GLAN ALUN. Pris 1s. byrddau.

## DRYCH PROFFWYDOLIAETH.

Neu wiredd, dyben, a deongliad prophwydoliaethau yr Ysgrythyr Santaidd; gan y diweddar Barch. J. Hughes, Liverpool. *Argraffiad newydd gyda nodiadau chwanegol.* Addurnir y gwaith â cherfluniau o Sïon, Samaria, Babilon, Hebron, Ninefe, a Sardis. Pris, llian, 3s. 6c.

## CYDYMAITH YR YSGRYTHYR.

Yn cynnwys, sylwadau ar ddilysrwydd—awdureiddiad—ac ysprydoliaeth yr ysgrythyrau:—ei honiadau gwreiddiol;—amgylchiadau hanes y Bïbl, &c., &c., gan y diweddar Barch. John Hughes, Lerpwl. Addurnir y gwaith â cherfluniau o Ierusalem, Tyrus, Sïdon, Nablorus, Ephesus, a Phatmos. Pris 4s. 6c. mewn llian, *gilt lettered.*

## PREGETHWR A'R GWRANDAWR.

Sef Calfinistiaeth a Ffwleriaeth yn cael eu hystyried ar ddull ymddyddan rhwng dau gyfaill: gan y diweddar Barch. R. Williams, Liverpool. Argraffiad newydd, gyda CHOFIANT o'r Awdwr, *llian*, pris 3s. 6c.

## ATHRONIAETH TREFN IACHAWDWRIAETH.

Llyfr i'r amseroedd. Gan y Parch. J. B. Walker. Cyfieithiad o argraffiad Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, o'r hwn y gwerthwyd dros 100,000 mewn ychydig flynyddau. Pris, 1s.; llian, 1s. 6c.

## Y PROFIEDYDD YSGRYTHYROL.

Neu Eirlyfr cryno o faterion ysgrythyrol dan adraniadau priodol; gan y diweddar Barch J. Hughes, Lerpwl. Pris, mewn llian, 2s. 6c.

**Y Profiedydd, yr Holwyddoreg, a'r Hyfforddwr,**

Y tri llyfr wedi eu rhwymo yn un gyfrol, hanner rhwym, pris 4s. 6c.

**Y Profiedydd, yr Hyfforddwr, a'r Cyffes Ffydd,**

Yn un gyfrol, hanner rhwym, pris 3s. 6c.

**Yr Hyfforddwr, yr Holwyddoreg, a'r Cyffes Ffydd.**

Y tri llyfr wedi eu rhwymo yn hardd yn un gyfrol mewn llian, pris 2s.

HYFFORDDWR A'R CYFFES FFYDD, llian, pris 1s.

## HOLWYDDOREG AR HANESIAETH YSGRYTHYROL:

At wasanaeth ysgolion Sabbothol ac addysg deuluaidd. Gan y diweddar Barch. J. Hughes, Lerpwl. Pris, 1s.; llian, a Mapiau, 1s. 6c.

## CYFFES FFYDD.

Yn cynnwys:—Hanes cychwyniad Methodistiaeth Calfinaidd Cymreig, rheolau dysgyblaethol, cyfansoddiad, a chyffes ffydd y Corff, gydag adnodau cyfeiriol pwysicaf ar bob pwnc yn llawn; a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a Bala, yn y fl. 1823. Argraffiad newydd, pris 6c. Un arall pris 4c.

Digitized by Google

## ESBONIAD Y DIWEDDAR DR. LEWIS,

**Ar y Llyfrau Canlynol, yn cynnwys Nodiadau eglurhaol helaeth a manwl ar bob Adnod; wyth-plyg, yn rhwym mewn llian, am y prisiau isel a ganlyn;—**

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Ioan a'r Actau, yn un llyfr, 848 o dudalenau ... ... ... ... ... ... | 5 | 0 |
| Ephesiaid, Philipiaid, Colosiaid, 1 a'r 2 Thessaloniaid, 1 a'r 2 Timotheus, Titus, a Philemon, un llyfr, 835 o dudalenau ... ... | 5 | 0 |
| Hebreaid, Iago, 1 a'r 2 Petr, 1, 2 a'r 3 Ioan, a Judas, yn un llyfr, 700 o dudalenau ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 4 | 6 |
| Y Datguddiad, gydag Attodiad o dros 100 o dudalenau, ac yn cynnwys amryw o Dafleni buddiol, yn un llyfr, 380 o dudalenau | 2 | 6 |

Y 4 CYFROL am 15s.!!

**Cynnygir y gweddill sydd ar law o'r Esboniad hwn am oddeutu y BEDWAREDD RAN O'I BRIS CYNTEFIG gan hyderu y bydd hyn yn symbyliad i ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol ac eraill i achub y cyfleusdra presenol i'w feddiannu. Nis gellir sicrhau y bydd i'w gael oni ymofynir am dano yn ddioed, gan nad oes ond ychydig ar law.**

## "YR YSGOL SABBOTHOL A'R OES:"

**Traethawd Buddugol Cystadleuaeth GWRECSAM, ar "Y moddion cymhwysaf i wneyd yr ysgol Sabbathol yn effeithiol dan amgylchiadau newydd presenol Cymru, wrth ei chymharu â'r hyn ydoedd pan gychwynwyd yr Ysgol." gan "Un a fu yn Athraw," sef y Parch. D. Griffiths, ieu., Bethel, Sir Gaernarfon. Pris SWLLT.**

## COLEG Y DARLLENYDD.

Yn yr hwn y traethir ar holl ranau y gelfyddyd o ddarllen, gan y Parch. E. Evans, Llangollen. Pris Swllt mewn amlen.

## YR ATHRAWYDD PAROD.

*Argraffiad newydd gydag ychwanegiadau.*

Sef, Hyfforddwr i ddarllen, i ysgrifenu, ac i ddarllen Llaw-ysgrifen cyn medru ysgrifenu. Y pummed argraffiad, pris 6c., trwy y *Post* 7c.

## THE READY INSTRUCTOR,

In Reading and Penmanship; or the art of Writing and Reading Manuscript, acquired without the aid of a Master. Third Edition, price 6d.

## CYFAILL AC ARWEINYDD Y GWR IEUANGC

Trwy fywyd i anfarwoldeb; gan y diweddar Barch. J. Angell James, Birmingham. Wedi ei rwymo yn hardd mewn llian am 3s. 6c.

## BIBL PETER WILLIAMS,

Yn cynnwys, sylwadau eglurhaol ar bob pennod, nodau cyfeiriol, y Salmau ar gân gan Edmund Prys, &c. Yr unig Feibl Teuluaidd Cymraeg mewn 21 o rifynau, Swllt yr un, yn rhwym 28s.

## PREGETHAU Y PARCH. D. CHARLES.

Yr ail Gyfres o Bregethau y diweddar Barch. D. Charles. Caerfyrddin, gyda CHOFIANT o'r Awdwr. Y mae y Gyfres hon yn bregethau nad ymddangosasant o'r blaen drwy'r wasg. Pris, 2s. 6c., llian, 3s.

## AMSERYDDIAETH YSGRYTHYROL.

Yn cynnwys hanesiaeth yr Hen Destament a'r Newydd; ynghyda hanesiaeth y Pedair Ymerodraeth Fawr yn y cyn-oesoedd, &c., &c. Gan S. Lloyd, B.A., pris 8s., gyda Mapiau, yn rhwym.

## DEONGLIAD Y CYFFELYBIAETHAU,

**Ac egluthad ar y traws symudiadau, cynnwysedig yn yr ysgrythyrau. Gan y Parch. J. Brown, Haddington. Pris, rhwym, 6s.**

Digitized by Google

## BETH YW CRISTIONOGRWYDD.

Yn cynnwys sylwadau ar Beth yw Cristionogrwydd?—Neillduolion Cristionogrwydd —Athrawiaeth y Cymmod.—Beth yw Sancteiddiad?—Rhadlonedd y Cymmod.—Rhadlonedd Sancteiddiad.—Sancteiddiad yn Ffrwyth Cyfiawnhad.—Nid Gwybodaeth yn unig yw Crefydd.—Y Cristion yn Edrych yn ol.—Y Cristion yn edrych ym mlaen.—Y Cristion yn ymegnïo. Gan y Gwir Barchedig THOMAS VOWLER SHORT, arglwydd Esgob Llanelwy, wedi ei droi i'r Gymraeg, gan y Parch. JOHN JONES, Vicar, Llanarmon-yn-Ial. Pris 1s. mewn papur; 1s. 6c. mewn llian.

## "IEUAN GLAN GEIRIONYDD."

Sef, Awdl er coffawdwriaeth am y diweddar Barch. E. Evans, Ince, Caerlleon. Gan y Parch. R. Williams, (Hwfa Mon.) Pris mewn amlen hardd, 6c.

## EOS CEIRIOG:

Sef casgliad o Ber Ganiadau yr hen Fardd Huw Morus; yn ddau Lyfr: o gynnulliad a diwygiad y diweddar Barch. WALTER DAVIES, (Gwallter Mechain). Pris 6s., yn rhwym.

## Y TESTAMENT CYMRAEG A SAESONEG.

Wedi ei argraffu mewn llythyren fras ac eglur cymhwys i'w ddefnyddio gan bob oedran. At yr hwn yr ychwanegwyd Map o Wlad Canaan, a Chysondeb yr Efengylau. Mewn rhwymiad hardd, 3s. 6c.

## METHODISTIAETH CYMRU.

Gan y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool; sef, hanes cyfodiad, cynnydd, a llwyddiant Methodistiaeth Calfinaidd Cymru; o ddechreuad y Cyfundeb hyd y flwyddyn 1850. Yn dair cyfrol, gydag arlun o'r awdwr:—neu yn 39 o Rhifynau, 6c. yr un; mewn llian, 7s. 6c. y Gyfrol; mewn hanner-rhwymiad croen llô, 8s. 6c., y Gyfrol.

### GEIRIADUR YSGRYTHYROL GURNEY.

Y mae y Geiriadur hwn wedi ei gasglu o waith Calmet, Brown, Newton, Hurd, Charles, ac eraill. Y ddwy gyfrol wedi eu rhwymo yn un, am 8s.; (pris cyntefig 16s.)

### ESBONIAD AR Y BIBL.

O Genesis hyd i ddiwedd Esther, gan Henry a Scott, gyda Sylwadau a Nodiadau o weithiau 18 o wahanol Awdwyr eraill: cyffelyb i'r un a gyhoeddir gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol. Y ddwy gyfrol yn un, am 6s. (pris cyntefig 12s.)

### MYFYRDODAU ESGOB HALL.

Myfyrdodau ar Ranau Hanesiol y Testament Newydd, yn rhanedig i bedwar llyfr. Yn un gyfrol mewn llian, pris 4s. 6c.

### BEIBL TEULUAIDD.

Gyda chyfeiriadau, a Nodau allan o waith Scott a Henry, o Genesis hyd i ddiwedd Malachi. Rhanau, 10s, rhwym 17s. Nid oes ond ychydig gopiau ar law.

### ESBONIAD AR Y DATGUDIDAD.

Gan y diweddar Barch S. Lloyd, B.A., o'r Bala Llian, 3s. 6c. yn lle 5s. 6c.
☞ Gellir cael yr Esboniad hwn wedi ei rwymo yn hardd gydag ESBONIAD DR. LEWIS AR Y DADGUDDIAD mewn llian hardd, pris 6s.

### HANES Y DUC O WELLINGTON.

Hanes Bywyd Duw o Wellington. Gyda 4 o Ddarluniau ysplenydd o'i brif Frwydrau. Mewn Byrddau, pris 1s. 6c. (yn lle 2s 6c.)

## LLYFR Y JUBILEE.

Yn cynnwys, hanes y Bibl—Dwyfol ysbrydoliaeth y Bibl—Awdurdod ddwyfol yr Ysgrythyrau—Barnau enwogion am y Bibl—Cyfieithiadau Cymraeg o'r Bibl—Bywgraffiad prif gyfieithwyr y Bibl i'r Gymraeg. &c., &c. Gan y Parch. T. Phillips. Pris, mewn llian, 3s. 6c.

Digitized by Google

## *Llyfrau Cyhoeddedig ac ar Werth gan R. Hughes & Son, Wrexham.*

| Amrywiaeth. | s. | c. |
|---|---|---|
| Anianydd Cristionogol, rhwym .. | 6 | 6 |
| Armagedon, mewn papur .. .. | 0 | 6 |
| Attodiad i Armagedon, mewn papur | 0 | 3 |
| Addysg Chambers i'r Bobl, Cyf. I. | 21 | 0 |
| „ „ Cyf. II. | 15 | 0 |
| Arweinydd Llysieuol i Iechyd, gan Dr. Coffin .............. | 4 | 0 |
| Awyriad Anneddau, gan Spurrel | 0 | 2 |
| Bardd Cwsg ............ 1s. a | 1 | 6 |
| Byw i Bwrpas ............1s., a | 1 | 6 |
| Caban F'ewythr Twm, mewn llian | 3 | 0 |
| Catecism ar Wyliau ac Ymprydiau yr Eglwys, Saesoneg a Chymraeg | 0 | 4 |
| Ceinion Prif Feirdd Seisnig .. .. | 1 | 0 |
| Cerbyd Aur, gan A. Shadrach .... | 2 | 0 |
| Cydymaith Teuluaidd, &c. ...... | 0 | 6 |
| Cyfarwyddwr Meddygol Teulu., 3s. a | 4 | 0 |
| Cyffes Ffydd Methodist. Calvin. 4c. | 0 | 6 |
| „ „ „ Saesneg .. | 0 | 6 |
| "Cymro Bach," gan B. Price .. | 3 | 0 |
| Duoglott Letter-writer, .. 8c. a | 1 | 0 |
| Elfenau Daearyddiaeth, Cyf. I. a II. | 14 | 6 |
| Fy Chwaer, papur 1s., mewn llian . | 1 | 6 |
| Gweddillion John Mason .......... | 0 | 6 |
| Hunan-gyfarwyddyd i ddysgu Saes. | 1 | 0 |
| Hyfforddwr yr Efrydydd......... | 3 | 0 |
| Huw Huws—Novel Gymraeg, gan Llew Llwyfo ....................... | 0 | 6 |
| Llewelyn Parry, gan Llew Llwyfo | 1 | 0 |
| Llyfr y Jubilee, Parch. T. Phillips | 3 | 6 |
| Llyfr Coffadwriaeth Seion, L. Powell | 0 | 3 |
| Llyfr Coginiaeth ...................... | 1 | 0 |
| Llyfr y Merthyron, mewn llian .. | 5 | 6 |
| Literature of Wales, by Dr. Price | 0 | 2 |
| Meddyg Rhad ......................... | 0 | 8 |
| Meddyg Anifeiliaid ............ | 3 | 0 |
| Moes-lyfr, neu Ddefodau Moesgarwch | 0 | 6 |
| Mordaith o amgylch y Byd ...... | 0 | 6 |
| Prif Physicwriaeth, mewn llian .. | 1 | 0 |
| Palas y Brenin Mawr, gan y Parch. Hollis Read o America, .......... | 3 | 6 |
| Rhesymeg, gan Tegai .......... | 0 | 6 |
| Rhifyddiaeth Gymraeg.......... | 0 | 2 |
| Rhodd Meistr i w Brentis .......... | 1 | 0 |
| Rhyfeddodau Natur a Chelfyddyd, | 5 | 0 |
| Swyddogaeth Barn a Darfelydd .. | 1 | 6 |
| Siars (Charge), gan y Parch. Thos. Richards .................. | 0 | 2 |
| Sut i gael Gwr, &c. .................... | 0 | 6 |
| Tafol y Beirdd, gan R. Ellis, Sirhowy | 2 | 0 |
| Taith y Pererin, .... .. 1s. 6c., a | 2 | 0 |
| Taliesin ........................ | | |
| Teithiau Mills yn Palestina, rhwym | 7 | 0 |
| Teithiau Dr. Livingstone ............ | 0 | 6 |
| Testament William Salisbury .... | 7 | 0 |
| Traethawd Arobryn ar yr Ysg. Sab. | 0 | 6 |
| Traethawd ar Olyniaeth Apostolaidd | 0 | 2 |
| Tri Wyr o Sodom ..................... | 0 | 6 |

| Parhad *Amrywiaeth.* | s. | c. |
|---|---|---|
| Traethawd ar Undeb yr Eglwys a'r Wladwriaeth, gan Baptist Noel | 5 | 0 |
| Trysorfa yr Athrawon ........ | 1 | 6 |
| Vocabulary—English and Welsh.. | | |
| Y Briwfwyd ................... | 0 | 4 |
| Y Brython ................ | | |
| Y Cyfaill Meddygol ............ | 1 | 0 |
| Y Cyngor Deublyg ............ | 0 | 2 |
| Y Darluniadydd Anianyddol, Mills | 5 | 0 |
| Y Ffermwr .................... | 1 | 6 |
| Y Garddwr .................... | 1 | 0 |
| Y Gwyddoniadur yn Rhanau | | |
| Y Gwladgarwr ................. | 1 | 0 |
| Y Llenor Diwylliedig ...... 2s. a | 2 | 6 |
| Yr Ysgol Sabbothol a'r Oes ...... | 1 | 0 |
| **Barddoniaeth.** | | |
| Adgofion Marwnadol am y diweddar Barch. J. Hughes, Lerpwl .... | 0 | 2 |
| Adgyfodiad—Pryddest gan E. Evans | 0 | 6 |
| Aeron Afan, Cyfansodd. Buddygol . | 2 | 0 |
| Blwch o Bleser i Ieuenctyd Cymru. | 0 | 6 |
| Brwydr Maes Bosworth ...... | 0 | 6 |
| Caneuon crefyddol a moesol, R. E. | 0 | 6 |
| Caniadau Byrion, gan S. Roberts.. | 0 | 4 |
| Cantor: Detholion Barddonol .... | 0 | 6 |
| Cell Awen, J. Hughes .......... | 1 | 0 |
| Golwg ar Deyrnas Crist, gan W. W. | 1 | 6 |
| Gwaith Barddonol Dafydd Ionawr. | 6 | 6 |
| Gwaith Barddonol Edward Richard | 0 | 4 |
| Hymnau, 2c., 6c., 8c., 2s. 6c., 3s., a | 3 | 6 |
| Hynt y meddwyn, gan E. Evans, | 1 | 0 |
| Gwaith Prydyddol Edward Jones.. | 2 | 6 |
| Marwnad John Jones, Gwrecsam | 0 | 1 |
| Dwy Farwnad i'r diweddar Barch. John Hughes, Lerpwl ........ | 0 | 2 |
| Oriau'r Hwyr ................ | 1 | 0 |
| Oriau'r Boreu ................ | 1 | 0 |
| Pryddest Fuddugol er Coffadwriaeth am E. Jones, M. Howells, &c. .. | 0 | 6 |
| Salmau Dafydd, gan W. Middelton | 1 | 6 |
| Saith o Farwnadau, gan W. W. | 0 | 6 |
| Telyn Seion,................. | 0 | 3 |
| Tlysau Barddoniaeth............ | 1 | 6 |
| Y Tlws Arian a'r Milflwyddiant .. | 0 | 4 |
| **Bywgraffiaeth.** | | |
| Yr Athrawes o Ddifrif .......... | 2 | 0 |
| Cofiant Howel Harris, yn Saesoneg | 3 | 0 |
| „ Daniel Rowlands, Llangeitho | 1 | 6 |
| „ John Parry, Caerlleon .... | 1 | 0 |
| „ John Elias, Mon ........ | 4 | 0 |
| „ John Thomas, Aberteifi .... | 1 | 6 |
| „ Moses Parry, Dinbych .... | 1 | 0 |
| „ y Duc Wellington | 1 | 6 |
| „ John Davies, Nantglyn .... | 1 | 0 |
| Cofiant John Evans, Llwynffortun | 1 | 0 |
| „ Daniel Jones, Caernarvon ... | 0 | [illegible] |

Digitized by Google

| Parhad *Bywgraffiaeth.* | s. | c. |
|---|---|---|
| Cenadon Hedd; hanes 13 o Bregethwyr .................. | 0 | 6 |
| Hanes Robin Ddu, gyda'i Weithydd Barddonol, &c. ........... | 5 | 0 |
| Hanes a Nodweddiad Alfred Fawr . | 0 | 3 |
| „ J. B. Gough, America....... | 0 | 0 |
| „ Merch y Llaethwr ........ | 0 | 6 |
| „ Joseph, gan MacGowen .... | 1 | 2 |
| „ Napoleon Bonaparte .... | 0 | 6 |
| „ Admiral Lord Nelson .... | 0 | 6 |
| „ Duc o Wellington ........ | 1 | 6 |

## Cerddoriaeth.

| | | |
|---|---|---|
| Anthemau, gan Handel, ac eraill.. | | |
| Cambrian Melodist: Hen Donau | 0 | 6 |
| Caniedydd Ieuanc ..................... | 0 | 4 |
| Ceinion Cerddoriaeth, rhwym Cyf. 2. | 14 | 0 |
| Cerddor y Cysegr.............. | 4 | 0 |
| Cerddor yr Ysgol Sabbathol, 2 Ran | 1 | 0 |
| Cydymaith y Cerddor ........... | | |
| Dwy o Anthemau, gan John Thomas | 1 | 0 |
| Gems of Welsh Melody.............. | 2 | 6 |
| Halleluiah Drachefn .................. | 3 | 6 |
| Holwyddoreg ar Gerddoriaeth .... | 0 | 6 |
| Llyfr Tonau, Ieuan Gwyllt......... | 3 | 6 |
| Oratorio—Môr Tiberias ......... | 8 | 0 |
| Swn Addoli yn rhanau 1s........ | | |
| Yr Arweinydd Cerddorol, R. Mills y Tair Rhan, llian hardd....... | 5 | 0 |
| Y Cerddor Gwreiddiol, Cyf. I. a II. | 10 | 0 |
| Y Degtant: yn cynnwys Carolau ac Anthemau ........... | 0 | 6 |
| Y Delyn Gymreig. llian ......... | 3 | 6 |
| Y Drysorgell Farddonol ......... | 0 | 6 |
| Y Seraph ................. 6c. a | 2 | 6 |
| Y Gyfres Gerddorol Gymraeg .... | | |

## Esboniadau.

| | | |
|---|---|---|
| Y Bibl Darluniadol—rhanau.... | | |
| Esboniad Scott a Henry ......... | | |
| Esboniad Beirniadol ar y Pedair Efengyl, pris, yn rhwym . .... | 15 | 0 |
| Esboniad ar y Datguddiad, S. Lloyd | 3 | 6 |
| Esboniad Beirniadol, Owen Jones | 15 | 0 |
| Esboniad James Hughes ...... | | |
| Esboniad Beirn. ar Jos. Pen. 1—13 | 0 | 8 |
| Esboniad Dr. Lewis,— | | |
| Ioan a'r Actau ................ | 5 | 0 |
| Ephesiaid—Philemon ......... | 5 | 0 |
| Hebreaid—Judas ............. | 4 | 6 |
| Y Datguddiad gydag Atodiad .. | 2 | 6 |
| Esboniad Dr. Gill, rhwym .... | 60 | 0 |
| Esboniad Wesley ar y Test. New. | 7 | 6 |
| Esboniad Burkitt, Test. New. rhwym | 30 | 0 |
| Y Dehonglydd—Hen Destament | | |
| „ Testam. Newydd | | |

## Duwinyddiaeth.

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Amddiffyniad i Crefydd Crist......... | 1 | 0 |
| Amseryddiaeth, gan S. Lloyd, gyda Mapiau, rhwym ... ......... | 8 | 0 |
| Arweinydd Gŵr Ieuanc trwy fywyd | 3 | 6 |
| Allwedd y Cyssegr ..................... | 8 | 0 |
| Allwedd i'r Beibl, Brown......... | 2 | 0 |
| Athrawiaeth Etholedig., Dr. Lewis | 0 | 3 |
| Athrawiaeth yr Iawn, gan S Bowen | 1 | 0 |
| Buddiol. Dwyfol Wirion., Dr Lewis | 0 | 3 |
| Cant o Fyfyrdodau, gan John Howe | 0 | 6 |
| Charnock ar y Bod o Dduw, llian . | 6 | 6 |
| Catecism Dr. Lewis, pris 6s y cant | 0 | 1 |
| Catecism John Brown, yn rhwym.. | 4 | 0 |
| Cerbyd o Goed Libanus ........ | 2 | 0 |
| Clorian y Cysegr, ............... | 4 | 0 |
| Codiad a Chwymp Pabyddiaeth .. | 1 | 6 |
| Corph o Dduwinyddiaeth, Paterson. | 3 | 6 |
| Corff Duwinyddiaeth y diweddar Dr. Lewis, yn rhanau ......... | - | |
| Cydymaith i'r Bibl, llian ......... | 2 | 0 |
| Cydymaith yr Ysgrythyr ......... | 4 | 6 |
| Cyssondeb y Pedair Efengyl, llian . | 3 | 6 |
| Dilyn Iesu Grist, gan T. A Kempis | 1 | 0 |
| Dyfroedd Siloam ............... | 2 | 6 |
| Etifeddiaeth y Cristion........... | 1 | 6 |
| Gwirionedd y Grefydd Gristionogol | 2 | 6 |
| Gwaith Gurnal, rhwym ......... | 13 | 6 |
| Henuriaid yn mhob Eglwys....... | 0 | 3 |
| Hodge ar yr Iawn ............ | 0 | 6 |
| Holiadau ar y Bibl, gan R. Parry | 0 | 4 |
| Hunan-adnabyddiaeth, gan Mason | 1 | 6 |
| Llawlyfr y Bibl, gan Dr. Angus | 8 | 6 |
| Mynegair Ysgrythyrol,........... | | |
| Myrr Dyferol, gan A. Shadrach .. | 1 | 6 |
| Noddfa Pechadur, gan Binning .. | 0 | 4 |
| Myfyrdodau Esgob Hall. llian.... | 4 | 6 |
| Owen (Dr.) ar Ddaioni Duw .... | 1 | 0 |
| Owen (Dr.) ar Gyflawnhad...... | 2 | 0 |
| Oriau olaf Iesu Grist ........... | 0 | 4 |
| Oraclau Bywiol, gan Nicander .. | 4 | 0 |
| Perl Ysgrythyrol, gan John Mills | 1 | 6 |
| Phiol y Fendith, gan A. Shadrach | 1 | 6 |
| Testament y Deuddeg Patrieirch .. | 1 | 6 |
| Traethawd ar y Prynedigaeth, Lewis | 0 | 6 |
| Traethawd ar y Sabboth, Wardlaw | 0 | 6 |
| Traethawd ar y Sabboth, gan Aubrey | 1 | 0 |
| Traethawd Buddugol ar yr Ysgol Sab. | 1 | 0 |
| Traethawd ar Natur Gweinidogaeth yr Efengyl ........... | 0 | 3 |
| Traethawd ar y Sabboth, gan y diweddar Barch. J. Hughes, L'pwl | | |
| Ystafell Weddi, gan Brooks ...... | 2 | 6 |
| Yr Allor yn y Ty, gan John Foulkes | 0 | 3 |

## Grammadegau.

| | | |
|---|---|---|
| Grammadeg Cymraeg, gan Gambold | 2 | 0 |
| Grammadeg Cymraeg, gan I. Jones | 2 | 0 |
| Grammadeg Cymraeg, John Parry | 1 | 0 |

Digitized by Google

| Parhad *Grammadegau.* | s. | c. |
|---|---|---|
| Grammadeg, gan W. Spurrel .... | 3 | 0 |
| Grammadeg Tegai ......6c., 2s., a | 2 | 6 |
| Grammadeg J. M. Jones, 2s. 6d. a | 3 | 0 |
| Ieithiadur Saesoneg, D.E. Jones, N.S. | 2 | 0 |
| Llythyraeth yr Iaith Gymraeg.... | 2 | 0 |
| Y Gomerydd .......................... | 2 | 0 |

**Geiriaduron.**

| | | |
|---|---|---|
| Geiriadur Ysgrythyrol, T. Charles, | | |
| Geiriadur Ysgrythyrol Gurney.... | 8 | 0 |
| Geiriadur Cynaniaethol, Spurrel .. | 5 | 0 |
| Geiriadur Saes. a Chym., Richards. | 3 | 6 |
| Geiriadur Cymr. a Saes., Richards | 2 | 6 |
| Geiriadur Ysgrythyrol, David Hughes | 15 | 0 |
| Geirlyfr Cym. a Saes., Spurrel.... | 3 | 6 |

**Hanesiaeth.**

| | | |
|---|---|---|
| Drych y Prif Oesoedd ........ | 2 | 6 |
| Hanes Cymru, gan Carnhuanawc | 16 | 0 |

| Parhad o *Hanesiacth.* | s. | c. |
|---|---|---|
| Hanes y Cymry, gan Morgan .... | 3 | 0 |
| Hanes y Ffydd Ddiffuant, arg. new. | 5 | 0 |
| Hanes yr Eglwys, gan H. Roberts | 6 | 6 |
| Hanes holl Grefyddau'r byd .... | 1 | 0 |
| Hanesiaeth Ysgrythyrol, J. Hughes | 1 | 0 |
| ,, gyda 4 Map, rhwym ... ... | 1 | 6 |
| Holl Waith Josephus ............ ...... | 14 | 0 |

**Pregethau.**

| | | |
|---|---|---|
| Crefydd ymarferol, gan Cairns .. | 0 | 6 |
| Lampau y Deml ...................... | 4 | 0 |
| Pregethau y Parch. John Elias, Mon | 3 | 0 |
| Pregethau y Parch. G. Edwards.. | 5 | 0 |
| Pregethau, Parch. D. Charles, 2s. 6d. a | 3 | 0 |
| Pregethau Ymarferol, Spurrel .... | 9 | 0 |
| Y Pulpud, neu saith o Bregethau, gan M. Howell, T. Richards, &c. | 0 | 6 |
| Y Pregethwr, Parch. R. Edwards | 6 | 0 |
| Pregethau M. Howells, rhwym .... | 7 | 0 |
| Pregethau Christ. Evans, Spurrel | 4 | 0 |

---

**Amddiffyniad yr Iaith Gymraeg**, 6c.
**Arweinydd Cerddorol**, gan R. Mills, yn dair rhan, yn un llyfr 5s.
**Amseryddiaeth Ysgrythyrol**, S. Lloyd, gyda Mapiau, rhwym 8s.
**Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth**: pris 1s., llian hardd 1s. 6c
,, y Dwyfol weithrediad yn Mhrynedigaeth dyn, 1s. 6c.; lliau, 2s.
**Caniedydd Cymreig**, gan John Thomas, rhwym 7s.
**Catecism**, John Brown, Hadington, llian, 3s. 6c.
**Cyfaill Pechadur**, pris 2s. y dwsin mewn amlen
**Cydymaith yr Ysgrythyr**, gan y Parch. J. Hughes, Lerpwl. 4s.6c.
**Cyffes Ffydd** y Methodistiaid Calfinaidd, pris 4c. a 6c.
**Dammegion Æsop**, pris 1s.
**Drych Proffwydoliaeth**, gan y diweddar Barch. J. Hughes, 3s. 6c.
**Esboniad Dr. Lewis**, y pedair Cyfrol am 15s
**Esboniad** ar Lyfr y Dadguddiad gan S. Lloyd, llian 3s. 6c. yn lle 5s. 6c.
**Geiriadur** Saesoneg a Chymraeg, gan Richards, pris 3s. 6c.
,, Cymraeg a Saesoneg. Pris 2s. 6c.
**Gramadeg Cymreig**, gan Williams a Roberts, llian 2s.
**Hanesiaeth Ysgrythyrol**: gan y Parch J. Hughes, pris, amlen 1s.
**Hanesion y Beibl** gyda Darluniadau, Rhan I. Pris, 6c.
**Hosannah**: Llyfr Hymnau i'r Ysgolion Sabbothol, yn cynnwys oddeutu 300 o'r pennillion goreu, pris 2g.
**Hanes Cymru**, gan Carnhuanawc. 16s.
**Hanes Siencyn Penhydd**, Argraffiad Newydd, 1s.
**Hanes John Evans, Llwynffortun**, pris mewn amlen, 1s.
**Ieuan Glan Geirionydd**, Awdl er coffadwriaeth am, pris 6c.
**Llaw-Lyfr y Bibl**, rhwym mewn lledr, 8s. 6c.
**Make the Best of it**, by the Rev. J. Pugh, B.A., price 6d., cloth, 1s
**Pregethwr a'r Gwrandawr**, gyda Hanes Bywyd yr awdwr, 3s. 6c,
**Pregethau J. Elias**, ail gyfrol, llian 3s.
**Rhesymeg**: gan Huw Tegai, 6e.
**Tabernacl** yn yr Anialwch, pris 6c.
**Telyn Seion**, gan Daniel Jones, Merchant, Gwrecsam, pris 3c.
**Testament Deearyddol**, ail Argraffiad, pris 3s. 6ch. a 4s.

**Traethawd ar y Prynedigaeth,** gan Dr. Lewis, pris 6c.
**Y Bibl Darluniadol,**—Y Testament Newydd, yn rhanau 1s. yr un.
**Y Cyfarfod Gweddi,** Darlith ar Zech. viii. 18—23, pris 2c.
**Y Profiedydd Ysgrythyrol:** amlen, 2s.; llian 2s. 6c.
**Y Tlws Arian,** gan John Phillips (Tegidon); pris, 4c.
**Yr Athrawes o Ddifrif,** Cloth, Gilt Edges, 2s.
**Yr Aelod Cyflawn,** llian 2s. 3c
**Yr Arweinydd Rhifyddol,** 2g., trwy y *post* 3c.
**Yr Ysgol Sabbothol a'r Oes,** Pris 1s.

## LLYFRAU I YSGOLION SABBOTHOL.

Llyfrau A, B, C, ar Bapur Glâs cryf, ½c.
Llyfr Cyntaf i ddysgu Sillebu a Darllen, 1c.
Egwyddorig—Rhan I., 1c. un arall 1½c.
Egwyddorig—Rhan II., 1c. un arall 1½c.
Rhodd Mam i'w Phlentyn, 1c.
Rhodd Tad. 2c.
Hossannah: neu Lyfr Hymnau yr Ysgol Sabbothol, 2c.
Y Tlws Arian, gan Mr. John Phillips, (Tegidon) pris 4c.
Catecism y diweddar Barch. Dr. George Lewis, pris 1c.
Hyfforddwr, gan y diweddar Barch. T. Charles, Bala pris 4c., a 6c.
Catecism y diweddar Barch. T, Charles, yn Saesoneg, pris 2c.; un arall, 3c.
Oriau Olaf Iesu Grist, gan y diweddar Barch. Lewis Jones, Bala, 4c.
Catecism ar y Deg Gorchymyn, gan y diweddar Barch. T. Charles, Bala, pris 3c.
Llyfrau i gadw Cyfrifon llafur yr Ysgol Sabbathol, &c., &c.

*Llyfrau Gwobrwyon o 3c. ac uchod y Dwsin.*

---

*Gellir cael Rhestr o Lyfrau perthynol i*

**GYMDEITHAS Y TRAETHODAU CREFYDDOL**

*drwy anfon* Postage Stamp *i R. Hughes & Son.*

---

## ARLUNIAU.

CENHADON HEDD, pris 8s., drwy y Post 8s. 6c.,
Arlun o'r Parch. JOHN ELIAS, Mon, pris 2s., a 2s 6c, drwy y Post.
Arlun cywir o'r Parch. JOHN HUGHES, Liverpool, pris drwy y Post, 1s.

---

## Yn y wasg.—

ATHRONIAETH Y GWEITHREDIAD DWYFOL YN MHRYNEDIGAETH DYN, sef yr ail Gyfrol o "Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth." (agos yn barod.)

Y GYFRES GYMRAEG.—"PERFFAITH GYFRAITH RHYDDID," gan y Parch. David Jones, Treborth.

YR EGLWYS, gan y Parch David Charles Davies, M.A.

---

☞ **Hysbysiad o bwys.**—Os bydd anhawsder cael unrhyw lyfr neu lyfrau Cymraeg neu Saesoneg, anfoner eu gwerth mewn Postage Stamps i R. HUGHES & SON, PRINTERS, &c., WREXHAM, ac anfonir y llyfr neu y llyfrau a erchir, trwy y Post yn ddidraul.

☞ Any Book, English or Welsh, of the value of One Shilling or upwards, sent free by Post on receipt of the price in Postage Stamps.

☞ **Catalogues sent on receipt of a Postage Stamp.**

Digitized by Google

# LLYFRAU YR AWDWR,

80, ELIZABETH STREET, LIVERPOOL.

| | | s. | c. |
|---|---|---|---|
| **Traithawd ar Grefydd Naturiol a** Dadguddiedig. | *Dinbych, Argraffwyd.* | 5 | 0 |
| **Hanes Bywyd y diweddar Barch.** W. Williams, Wern. | *Llanelli, Argraff.* | 2 | 6 |
| **Y Cyfarwyddwr Cristionogol.** Holwyddoreg. | *Dolgellau, Argraff.* | [illegible] | 6 |
| **Yr Ysbryd a'r Briodasferch.** Pregeth ar Dat. xxii. 17. | *Liverpool, Arg.* | 0 | 6 |
| **Y Weinidogaeth.** Pregeth ar 1 Cor. i. 21. | *Liverpool, Argff.* | 0 | 6 |
| **Y Per Ganiedydd.** Casgliad o Hymnau. | *Liverpool, Argraff.* | 3 | 0 |
| **Providence and Prophecy.** (Saesoneg) | *Liverpool, Argraffwyd.* | 3 | 0 |
| **Aelwyd F'ewythr Robert.** | *Dinbych, Argraffwyd.* | 2 | 6 |
| **Caniadau Hiraethog.** | *Dinbych, Argraffwyd.* | 4 | 0 |
| **Emmanuel. Cyf. I.** | *Dinbych, Argraffwyd.* | 4 | 0 |
| **Y Dydd Hwnw.** | *Wrexham, Argraffwyd.* | 1 | 0 |

Bwriada yr Awdwr, os caiff fywyd ac iechyd,

GYHOEDDI EI

## Nodiadau ar yr Epistol at yr Hebreaid,

yn fuan mewn llyfr o 3s. i 4s. o bris.


Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

198
CHIVE
Google